Dogfen ir Cyhoedd

# Cyfarfod Rhithiol o'r Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun, 28 Medi 2020

am 2.00 o'r gloch yp

This page is intentionally left blank

**POLICE AND CRIME PANEL**
**PANEL HEDDLU A THROSEDD**

## Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun 28 Medi 2020 at 2.00 pm
Gyfarfod Rhithiol

# RHAGLEN

**1. Penodi Cadeirydd**

**2. Penodi Is-Gadeirydd**

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

**4. Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

**5. Materion Brys**

Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol

**6. Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

**7. Cofnodion** (Tudalennau 3 - 14)

Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

**8. Eitemau Sefydlog ar y Rhaglen**

**a)** Cwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

*(Cyflwynwyd yn unol â'r weithdrefn ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd)*

**b)** Diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

**c)** Adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**9. Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**a)** Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 15 - 44)

**b)** Adroddiad Blynyddol - Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd 2019/2020 (Tudalennau 45 - 94)

**c)** Diweddariad ar Gyllideb 2020/21 (Ar 31 Awst 2020) (Tudalennau 95 - 98)

**d)** Cymharu cost OPCC Gogledd Cymru ac eraill (Tudalennau 99 - 103)

**10. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal**

**a)** Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Adroddiad Monitro'r Gyllideb o 1 Ebrill 2019 i 31 Medi 2020 (Tudalennau 104 - 110)

**b)** Penodi Eiriolwr Cam-drin Domestig

**c)** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 111 - 112)

**11. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Llun, 14 Rhagfyr 2020 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Dana Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Andrew Dunbobbin | Cyngor Sir y Fflint (*Yn ddarostyngedig i Gymeradwyaeth y Swyddfa Gartref)* |
| Cyng Alan Hunter | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Hugh Irving | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Eric Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Edgar Wyn Owen | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Roger Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Nigel Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Arnold Woolley Dip.IM, MCMI | Cyngor Sir y Fflint |
| Pat Astbury | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Matthew Forbes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| William John Williams | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwch: Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio, a'r angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach bydd yn gyfarfod rhithiol. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu'n fyw neu ei ddarlledu wedyn ar wefan y Cyngor.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Gwener 31 Ionawr 2020, am 10.30 am
Siambr y Cyngor - Bodlondeb

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Patricia Astbury (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Dana Davies, Hugh Irving, Eric Jones, Edgar Wyn Owen, Roger Parry, Dylan Rees, John Williams a Arnold Woolley |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | John Williams |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Swyddog Craffu a Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Panel Heddlu a Throsedd) |
| Hefyd yn bresennol: | Dirprwy Brif Gwnstabl Richard Debicki (Heddlu Gogledd Cymru), Guto Edwards (Pennaeth Cyllid, Heddlu Gogledd Cymru), Stephen Hughes (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (OPCC)), Arfon Jones (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru), Diane Jones (Swyddog Comisiynu, OPCC), Seb Phillips (Cyfarwyddwr Cyllid, Heddlu Gogledd Cymru) a Ditectif Brif Arolygydd Simon Williams (Heddlu Gogledd Cymru). |

102. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Matthew Forbes (Aelod Annibynnol Cyfetholedig), y Cynghorydd Alan Hunter (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Cynghorydd Nigel Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) ac Ann Griffith (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd).

103. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint) gysylltiad personol, gan ei fod yn ymddiriedolwr Uned Diogelwch Camdriniaeth Domestig Glannau Dyfrdwy, sy’n manteisio ar gyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

104. **MATERION BRYS**

Dim.

105. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Croesawyd y Cynghorydd Edgar Owen (Cyngor Gwynedd) i’w gyfarfod cyntaf gan y Cadeirydd.

106. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 30 Medi 2019 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd 30 Medi 2019.**

107. **DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD BLAENOROL**

Darparwyd adborth am gamau gweithredu/pwyntiau a wnaed yn y cyfarfod blaenorol fel a ganlyn:

Cofnod 92 – Adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr: Mewn cysylltiad â'r data a ddangosodd bod cynnydd wedi bod yn nifer y dioddefwyr cam-drin domestig ailadroddus o fewn 12 mis, cadarnhaodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd y byddai'n olrhain y mater yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol Strategol ac y byddai'n adrodd yn ôl wedi hynny.

Cofnod 96 – Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd – Arolwg Boddhad Defnyddwyr: Cyfeiriwyd yn y cyfarfod diweddar at y lleihad mewn lefelau boddhad, yn enwedig mewn perthynas â'r gwasanaeth 'dilynol'. Rhoddodd Ditectif Brif Arolygydd Simon Williams wybod i'r Panel Heddlu a Throsedd bod angen gwneud rhagor o waith i ddeall y mathau o gwestiynau a holir mewn perthynas â'r gwasanaeth 'dilynol', gan ei bod yn debygol bod y boddhad defnyddwyr yn ymwneud â'r achos llys ac nid yr heddlu.

Rhoddodd y Dirprwy Brif Gwnstabl Richard Debicki wybod i'r Panel bod data cenedlaethol yn cadarnhau bod hyder y cyhoedd yn Heddlu Gogledd Cymru'n uchel, gyda'r Heddlu ymhlith yr Heddluoedd uchaf yng Nghymru a Lloegr.

Cadarnhaodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, er bod arolygon ar gael ar-lein, roedd copïau hawdd i'w darllen a phapur hefyd ar gael, er mwyn ceisio cyrraedd gymaint o bobl â phosibl. Cyfeiriodd y Cadeirydd at sut y byddai pobl ddigartref yn cael gafael ar yr arolygon; byddai'r Comisiynydd yn edrych ar hyn ymhellach.

Cofnod 98 – Crynodeb o'r cwynion a gafwyd: Medi 2018 – Medi 2019: Cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Comisiynydd, bod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi cael eu hymgynghori yn y broses o benderfynu ar gwynion a gafwyd ac felly nid oedd angen rhagor o gamau gweithredu.

**PENDERFYNWYD:**

**Bod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn adrodd yn ôl o ran y data a ddangosodd gynnydd yn nifer y dioddefwyr cam-drin domestig ailadroddus o fewn 12 mis, yn dilyn trafodaethau yn y Bwrdd Gweithredol Strategol.**

108. **CWESTIYNAU I'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**

Roedd y Cynghorydd Dylan Rees wedi cyflwyno'r cwestiwn canlynol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, ac fe ymatebodd fel a ganlyn:

*Cwestiwn:*

*Yn ei adroddiad blynyddol drafft, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rhoi adroddiad cynnydd ar ei flaenoriaethau strategol pum mlynedd a gynhwysir yn y "Cynllun Heddlu a Throsedd". Yn yr adran yn ymwneud â'r flaenoriaeth "Darparu Cymdogaethau Diogelach, ceir y paragraff canlynol:*

*"Er mwyn sicrhau bod swyddogion a staff yn treulio gymaint o amser â phosibl ar y strydoedd ac nid mewn gorsafoedd heddlu, yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rhoddwyd dyfeisiau symudol newydd i 600 defnyddiwr ychwanegol. Mae'r dyfeisiau hyn yn rhoi'r gallu i ddefnyddwyr fod allan yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu yn hytrach na bod yn sownd i'r orsaf."*

*Yn allweddol i'r nod o ddarparu presenoldeb plismona gweladwy yw rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Fodd bynnag, rydw i wedi cael pryderon yn ddiweddar gan y gymuned leol am lai o batrolio gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Rwyf ar ddeall bod y rhesymau dros hyn yn ddeublyg. Yn gyntaf, lleihad yn niferoedd cyffredinol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac yn ail, bod eu gwaith nawr yn canolbwyntio fwy ar yr hyn a gyfeirir ato fel "datrys problemau wrth y ddesg".*

*Felly a allai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ateb y canlynol:*

*1. Beth yw'r ffigurau ar gyfer nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu dros y ddwy flynedd diwethaf?*
*2. A fu newid mewn polisi o ran eu lleoli?*

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:

*18 Rhagfyr 2018, cyflwynodd Prif Uwch-Arolygydd Alex Goss gerbron y Panel Heddlu a Throsedd hwn. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys strwythur staffio arfaethedig (a oedd yn cynnwys lleihau ac ad-drefnu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu) o fewn Gwasanaethau Plismona Lleol yng Ngogledd Cymru, ac mae hyn yn dilyn Cynllun Gwella Gweithredol. Roedd Panel yr Heddlu a Throsedd yn cefnogi strwythur, swyddogaeth a blaenoriaethau'r Heddlu ar y pryd.*

*Fel rhan o'n Trawsnewid Digidol, rydym ar hyn o bryd yn gweithredu prosiect "Swyddog Cysylltiedig" ac yn cyflwyno technoleg ar sail unigol, gan ganiatáu i'n staff weithio oddi wrth y gorsafoedd ac mewn unrhyw leoliad sydd â Wi-fi neu 4G, bydd hyn yn arbed amser ac arian ac yn golygu y bydd ein staff yn weladwy. Cafwyd peilot o'r prosiect Swyddog Cysylltiedig yn Wrecsam a bydd yn cael ei gyflwyno ar draws yr heddlu. Mae'r adborth gan swyddogion yn Wrecsam wedi bod yn gadarnhaol iawn ac maent yn defnyddio amrywiaeth o leoliadau cyhoeddus a phreifat i weithio ohonynt, gyda Tesco yn ffefryn.*

*Bydd "Swyddog Cysylltiedig" nawr yn cael ei gyflwyno yn Ne Sir y Fflint a De Gwynedd.*

*Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o Ynys Môn wedi'u had-leoli yn y tymor byr i Gaernarfon, sydd â chyfraddau haniaeth uchel ac â phroblem benodol ar y Maes a oedd angen 'penderfyniad gweithredol' i adleoli, ond mae hyn yn dal i adael Ynys Môn gyda 2.3 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn fwy na'r sefydliad.*

*Mae lleoli staff yn benderfyniad gweithredol i'r Prif Gwnstabl a'i uwch dîm, ond mae'r model lleoli hyblyg yn caniatáu bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu hadleoli, nid yn unig o Ynys Môn i Gaernarfon, ond hefyd Caernarfon i Ynys Môn os oedd mater gweithredol brys.*

*Mae cadw Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi bod yn anodd bob tro, gan eu bod yn anelu at ymuno â'r Heddlu fel Cwnstabliaid yr Heddlu, a bydd hyn yn gwaethygu wrth i ni recriwtio 60 swyddog ychwanegol o dan ymgyrch recriwtio Uplift, ac mae ein niferoedd yn parhau i symud ac mae'n anodd gwneud cymariaethau, gyda'n hymdrechion gorau o amgylch data gweithlu yn cael eu cyflwyno i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol gennym bob chwe mis, ond hyd yn oed gyda gostyngiad bach yn nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, mae cyfanswm plismona wedi cynyddu, a bydd yn parhau i gynyddu, ond bydd y cynnydd mewn niferoedd Swyddogion Heddlu, y mae'n rhaid i ni ei groesawu ar ôl 10 mlynedd o galedi a thoriadau.*

*Bydd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu lleoli yn unol â gofynion yr ardal blismona, y dywedaf eto sy'n fater gweithredol, ond cânt eu lleoli'n unol â'r Strategaeth Plismona Cymdogaeth, sy'n canolbwyntio ar ddatrys problemau, ymgysylltu â gwelededd.*

*Wrth ddod i gasgliad, mae'n werth nodi bod tîm o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o Gaergybi wedi ennill gwobr Plismona Datrys Problemau Gogledd Cymru am ddatrys niwsans ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol sydd wedi bod ers tro, y tu mewn ac allan i McDonald's Caergybi. Yn wir, mae ein canolbwynt Plismona Datrys Problemau â 70 cynllun datrys problemau sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd ar draws yr Heddlu.*

Diolchodd y Cynghorydd Rees i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd am ei ymateb cynhwysfawr ac fe holodd a oedd modd cylchredeg dadansoddiad o niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a leolir yn ardal yr Heddlu, i'r Panel Heddlu a Throsedd.

Mewn ymateb, fe wnaeth y Comisiynydd gydnabod y pryderon a godwyd, ond pwysleisiodd y pwysigrwydd o edrych ar blismona yn ei gyfanrwydd (yn cynnwys staff di-warant) sy'n delio â phob math o droseddau; roedd angen edrych ar ffyrdd doethach o weithio, yn enwedig gan fod trosedd yn dod yn fwy cymhleth.

Fe wnaeth y Dirprwy Brif Gwnstabl hefyd gydnabod y pryderon a godwyd gan y cyhoedd, ond roedd yr Heddlu'n gorfod cydbwyso mynd i'r afael â throseddau 'cudd', fel camfanteisio'n rhywiol ar blant a seiberdroseddu, gyda phlismona yn y gymdogaeth. Tra bod Heddluoedd eraill wedi lleihau eu tîm plismona yn y gymdogaeth, roedd gan Heddlu Gogledd Cymru un o'r niferoedd uchaf o dimau cymdogaeth.
Er mai rôl allweddol Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu oedd bod yn weladwy ac ymgysylltu â'r cyhoedd, roedd angen canolbwyntio ar ddatrys problemau, a oedd yn golygu nad oedd y timau bob amser yn weladwy. Fe wnaeth y Ditectif Brif Arolygydd hefyd roi gwybod bod angen canolbwyntio ar fod yn fwy ystwyth yn ddigidol.

Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Gwnstabl, er bod nifer o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu bellach yn hyfforddi i ddod yn Gwnstabliaid yr Heddlu, roedd yr Heddlu'n parhau i recriwtio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a byddai niferoedd yn fwy na'r sefydliad ar gyfer nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Rhoddodd y Comisiynydd wybod bod y materion a achosir gan droseddau lefel isel ar y cyhoedd yn cael eu cydnabod gan yr Heddlu, a bod rhai Timau Cymdogaethau Diogelach wedi cymryd mesurau rhagweithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol, a oedd wedi ennill gwobrau'n ddiweddar am ymdrin â'r broblem hon.

109. **RHESTR O BENDERFYNIADAU A WNAED GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynwyd rhestr o benderfyniadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd rhwng 16 Awst 2019 ac 16 Ionawr 2020 i'r Aelodau.

Gofynnodd aelodau gwestiynau mewn cysylltiad â'r penderfyniadau canlynol:

Y Timau Troseddu Ieuenctid: Cadarnhaodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd bod y Grant Lleihau Trosedd ac Anhrefn wedi'i ddyrannu yn ôl ffigurau poblogaeth. Cyfeiriwyd at effeithiolrwydd Timau Troseddau Ieuenctid; mewn ymateb, rhoddodd y Comisiynydd wybod mai'r consensws cyffredinol oedd bod Timau Troseddau Ieuenctid yn helpu i leihau troseddau gan bobl ifanc.

Awdurdodiad i Fenthyca: Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod y benthyciad o £10 miliwn gan Fwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus wedi'i gymryd cyn y cynnydd mewn cyfraddau llog.
Detective Now: Rhoddodd y Dirprwy Brif Gwnstabl wybod i'r Panel Heddlu a Throsedd fod Heddlu Gogledd Cymru'n peilota Cynllun Ditectif Mynediad Uniongyrchol cenedlaethol i sicrhau a oedd y Cynllun yn darparu sgiliau hanfodol a oedd eu hangen; roedd y sgiliau hyn fel arfer yn cael eu mireinio dros nifer o flynyddoedd mewn lifrai heddlu.

Plant sy'n cael eu heffeithio gan fod rhiant yn y carchar (CAPI): Roedd CAPI'n brosiect aml-asiantaeth, a oedd yn cynnwys 3 o'r 6 Awdurdod Leol, CEM Berwyn a BIPBC. Cadarnhaodd y Comisiynydd bodd trafodaethau

wedi digwydd gydag Arweinwyr 2 Awdurdod Lleol a oedd wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn y Prosiect.

Tadau Gofalgar: Cadarnhaodd y Comisiynydd fod y rhaglen hon yn ddull cyfannol i weithio gyda thadau sydd wedi cam-drin neu esgeuluso eu plant neu gam-drin eu mam o'u blaen.

Checkpoint Cymru: Rhoddodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wybod, gan fod y prosiect ond wedi dechrau 1 Rhagfyr 2019, ei fod yn rhy fuan i adrodd ar ganlyniadau, gan fod y troseddwr wedi gorfod cwblhau rhaglen pedwar mis; fodd bynnag, roedd yr arwyddion cynnar yn gadarnhaol, yn enwedig wrth nodi pobl ddiamddiffyn.

Ffyn Synhwyro Arfau Llaw: Rhoddodd y Comisiynydd wybod y byddai prynu'r arfau llaw yn cefnogi a chynorthwyo 'Ymgyrch Sceptre', a oedd yn fenter wythnos o hyd, yn ffurfio rhan o fenter genedlaethol fwy'n ymwneud â throseddau cyllyll. Un o'r nodau oedd cynorthwyo gyda'r economi hwyr y nos a darparu ffyn synhwyro i staff diogelwch/drws i reoli cwsmeriaid yr amheuir eu bod yn cludo cyllyll.

Cwestiynodd y Cefnogwr Cyllid a allai Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gael gwybodaeth am y canlyniadau a gyflawnwyd gan y prosiectau/mentrau hynny sydd wedi cael cyllid o Gyllideb Comisiynu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Awgrymodd y Comisiynydd y gellid rhannu gwybodaeth am lwyddiant y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr yn y lle cyntaf. Rhoddodd y Prif Weithredwr (OPCC) wybod fod gwybodaeth yn cael ei chasglu i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y gellid ei rhannu gyda'r Panel Heddlu a Throsedd.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn rhoi adroddiad ar y canlyniadau a gyflawnwyd gan y prosiectau/mentrau hynny sydd wedi cael cyllid gan y Gyllideb Comisiynu.**

110. **ADBORTH GAN AELODAU SY'N GEFNOGWYR**

Derbyniodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr fel a ganlyn:

<u>Cefnogwr yn erbyn Caethwasiaeth Fodern</u>

Rhoddodd Pat Astbury (Cadeirydd), wybod i'r Panel bod y Gynhadledd Caethwasiaeth Fodern, a gododd ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern o fewn y gweithle, yn enwedig y sectorau Adeiladu, Amaethyddiaeth a Thwristiaeth, wedi bod yn ddigwyddiad ardderchog, gyda siaradwyr adnabyddus.

Diolchwyd i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (OPCC) am eu gwaith caled wrth hwyluso'r digwyddiad.

Rhoddodd y Cadeirydd hefyd wybod i'r Panel ei bod hi wedi bod i gyfarfod gyda Phaneli Heddlu a Throsedd Cymreig eraill a'r Dirprwy Weinidog, Jane Hutt AC; rhagwelwyd y byddai'r rhain yn gyfarfodydd rheolaidd.

Cefnogwr Darparu Cymdogaethau Diogelach

Rhoddodd y Cynghorydd Hugh Irving wybod i'r Panel ei fod wedi cyfarfod gyda Phrif Weithredwr yr OPCC i drafod rôl yr Aelod Sy'n Gefnogwr ac y byddai'n darparu adborth ar y gwaith roedd wedi'i wneud mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 111. PRAESEPT A THRETH Y CYNGOR 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad ac adendwm i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (yn dilyn cyhoeddiad cyllido'r Swyddfa Gartref 22 Ionawr 2020), a oedd yn adolygu sefyllfa ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac yn gosod argymhellion ar gyfer praesept a Threth y Cyngor 2020/21.

Gofynnwyd i'r Panel gymeradwyo praesept o £84,990,106 ar gyfer 2020/21, oedd yn golygu cynnydd mewn Treth y Cyngor o 4.50% (a oedd gyfystyr â £290.61 yr wythnos, cynnydd o £12.51 y flwyddyn, neu 24c yr wythnos ar gyfer eiddo band D) a chynnydd mewn praesept o 4.89% o 2019/20.

Wrth osod y praesept, ystyriodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd pob opsiwn o fewn yr adnoddau a oedd ar gael. Rhoddwyd gwybod i'r Panel bod gwaith helaeth wedi'i wneud yn ystod cylch cynllunio'r gyllideb, a oedd yn cynnwys Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol (PRP). Roedd hwn yn ddull â strwythur i nodi arbedion a dyrannu adnoddau'n unol â blaenoriaethau yn y sefydliad; roedd proses PRP hefyd yn galluogi bod 62 Swyddog Ymgyrch Uplift yn cael eu dyrannu'n wybodus, yn seiliedig ar y blaenoriaethau.

Er bu cynnydd yn Setliad y Swyddfa Gartref o'r tybiaethau a wnaed yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP), roedd y cynigion yn yr adroddiad i gynyddu'r praesept o 4.89% (a fyddai'n cynyddu Treth y Cyngor o 4.5%) yn aros yr un fath. Roedd hyn oherwydd y gofyniad i ariannu Camau 1 a 2 o'r cynnydd mewn Swyddogion a'r isadeiledd cysylltiedig, a'r ansicrwydd ynghylch cyllid o 2021/2022 ymlaen. Yn ogystal, roedd dyraniad y Grant Cyfalaf wedi'i leihau o £0.339 miliwn, a oedd yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r rhaglen amnewid cerbydau; er mwyn cynnal y lefel hon o fuddsoddiad, byddai angen cynyddu'r cyfraniad refeniw blynyddol o 2020/21, roedd y lleihad hwn yn adlewyrchu'r bwriad y gellid defnyddio'r cynnydd mewn grant craidd yn hyblyg, yn cynnwys ariannu cyfalaf.

Cafodd y Panel hefyd gyflwyniad gan Brif Swyddog Cyllid Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, a dynnodd sylw at y canlynol:

- Diweddariad ar Gyllideb 2019/2020:
  - Llythyr Archwiliad Blynyddol Cadarnhaol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan roi sylw arbennig i'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol.
  - Monitro Refeniw - tanwariant a ragwelir o £0.115 miliwn.
  - Monitro Cyfalaf – gwariant hyd at 30 Tachwedd 2019 yn £4.156 miliwn.

- Diweddariad ar y buddsoddiad ychwanegol a gytunwyd yn 2019/2020 i ddarparu'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol; ar gais y Panel Heddlu a Throsedd pan wnaethant gytuno ar y praesept yn 2019/2020:
  - Roedd y mwyafrif o'r mentrau buddsoddi wedi'u cwblhau, gan ddisgwyl y bydd y gweddill yn cael eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2020.
- Cylch Cynllunio Cyllideb a Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol Caffael (PRP):
  - Dull strwythuredig lle mae Rheolwyr yn nodi'r lefelau gwasanaeth amrywiol a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni.
  - Roedd y Broses PRP yn caniatáu adnoddau yr amcangyfrifwyd eu bod ar gael, i gael eu cymhwyso i flaenoriaethau a llywio'r dyraniad o 62 Swyddog Ymgyrch Uplift ychwanegol.
  - Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Gwnstabl ei bod yn broses gadarn, gyda dull trionglog, gan ddefnyddio'r ymatebion o'r arolwg a Datganiad Rheoli'r Heddlu. Fe nododd y PRP feysydd dadfuddsoddi hefyd.

- Cyfanswm arbedion a chyfanswm twf:
  - Yn seiliedig ar y tybiaethau a'r arbedion a nodwyd, byddai ailfuddsoddiad am gyfanswm o £2.358 miliwn yn cael ei wneud yn 2020/21.
- Ymatebion yr Arolwg:
  - Cafwyd cyfanswm o 489 ymateb o'r ymgynghoriad cyhoeddus, lle cefnogodd ¾ o ymatebwyr gynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4.5% neu fwy.
- Ymgyrch Uplift a'r bwriad i leoli 62 Swyddog:
  - Cyhoeddodd Rownd Wario 2019 gynnydd o 20,000 o Swyddogion yng Nghymru a Lloegr.
  - Wedi hynny, cafodd Heddlu Gogledd Cymru wybod y byddai'n cael dyraniad o 62 Swyddog yn y cam cyntaf.
- Dyraniadau Cyllid:
- Newidiadau yn y cyllid rhwng 2019/2020 a 2020/2021
  - Er bod amrywiannau yn y ffrydiau ariannu, o ran telerau arian parod, roedd y setliad yr un fath â 2019/20.
- Dyraniadau Canolog (brigdorri).
- Risgiau:
  - Ansicrwydd ynghylch cyllid Cam 2 Ymgyrch Uplift.
  - Cyhoeddi'r setliad yn hwyr.
  - Chwyddiant a chyfrifoldebau newydd.
  - Ansicrwydd economaidd ehangach.
  - Adolygiad o wariant 2020.
  - Adolygiad o Fformiwla Ariannu 2021/22.
  - Cyflawni arbedion yn y blynyddoedd i ddod.

Wrth graffu ar y praesept arfaethedig a'r adendwm, cododd y Panel nifer o gwestiynau a phryderon, yn cynnwys y canlynol:

- Teimlai’r Panel Heddlu a Throsedd y dylai’r cynnydd cyflog y cytunwyd arno’n genedlaethol (yn cynnwys cyfraniadau pensiwn), gael ei ariannu gan Lywodraeth y DU ac nid gan drethiant lleol.
- Effaith Ymgyrch Uplift a'r ansicrwydd o amgylch cyllid Cam 2.
  - Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid wybod i’r Panel bod y Comisiynydd wedi ysgrifennu at y Swyddfa Gartref i holi a fyddai cyllid cynnydd heb ei ddefnyddio ar gael i'w ail-ddosbarthu; nid oedd unrhyw ymateb wedi dod i law eto.
  - Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Gwnstabl fod recriwtio’r 62 Swyddog wedi’i gynllunio dros 12 mis, gydag 18 eisoes wedi'u recriwtio, gan ddisgwyl 44 arall i gael eu recriwtio ym Mehefin/Gorffennaf 2020; roedd y cam recriwtio hwn uwchlaw’r broses recriwtio flynyddol arferol.
  - Ymgynghorir ar Strategaeth Ystadau ddiwygiedig, unwaith roedd yr Heddlu mewn sefyllfa i nodi effaith Ymgyrch Uplift; rhagwelwyd y byddai hyn yn digwydd yn Chwefror 2020.
- Y swm a gedwir wrth gefn, a oedd yn agosáu at y pen isaf o’r amrediad derbyniol ac effaith bosibl hyn ar y Rhaglen Gyfalaf a’r Strategaeth Ystadau wrth symud ymlaen.
  - Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid nad oedd unrhyw bolisi penodol am y swm i’w gadw wrth gefn; y rheol gyffredinol oedd rhwng 3% a 5%.
  - Cafodd y Panel wybod bod y cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Plismona, ac yn cynnwys cronfeydd wrth gefn ar gyfer buddsoddi cyfalaf, prif fuddsoddiad a rheoli newid. Nododd y Cynllun Ariannol Tymor Canol y cronfeydd wrth gefn mewn mwy o fanylder.
  - Mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn PFI, rhoddodd y Pennaeth Cyllid (Heddlu Gogledd Cymru) wybod bod yr Heddlu wedi llwyddo i drafod costau refeniw gostyngol, a bod y contract hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
  - Er bod y cronfeydd wrth gefn wedi lleihau dros y blynyddoedd, roedd hyn oherwydd cynlluniau cyfalaf wedi’u cynllunio (Gorsafoedd Heddlu Llai a Llandudno). Byddai unrhyw wariant sydd heb ei gynllunio yn golygu y bydd angen ailgyflenwi'r cronfeydd wrth gefn er mwyn lliniaru risgiau yn y dyfodol.
- Gorwario yng nghyllideb yr OPCC.
  - Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod hwn yn orwariant wedi’i reoli, ac oherwydd buddsoddiad yn Rhaglen Ddatgloi’r Arweinydd.

Fe wnaeth y Panel gydnabod bod y Comisiynydd wedi ystyried pob opsiwn o fewn yr adnoddau a oedd ar gael a’r gwaith helaeth a wnaed gan y broses PRP, a fyddai’n galluogi dyraniad gwybodus o’r 62 Swyddog Ymgyrch Uplift yn seiliedig ar y blaenoriaethau. Fe wnaeth y Panel hefyd gydnabod bod cost lawn y Swyddogion ychwanegol, yn cynnwys cefnogaeth ac isadeiledd, hefyd yn anhysbys ac felly, gan ystyried y ffactorau hyn, teimlai’r Panel y gallent gefnogi’r cynnydd arfaethedig, er mwyn darparu cyllideb ddigonol i alluogi darpariaeth weithredol o’r gwasanaeth plismona yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2020/2021.

**ARGYMHELLION:**

(a) **Bod y praesept yn cael ei gynyddu i £84,990,106 ar gyfer 2020/2021.**
- **Bydd hyn yn cynyddu Treth y Cyngor o 4.50% - mae hyn yn gyfystyr â £290.61 y flwyddyn, cynnydd o £12.51 y flwyddyn, neu 24c yr wythnos ar gyfer eiddo band D.**
- **Mae hyn yn gynnydd mewn praesept o 4.89% o 2019/2020.**
- **Nodi bod £2.358 miliwn o arbedion wedi eu nodi ar gyfer 2020/2021.**

(b) **Nodi y bydd £2.358 miliwn o'r arbedion yn cael eu hail-fuddsoddi mewn gweithgareddau rheng flaen.**

(c) **Nodi y bydd 62 o Swyddogion Heddlu ychwanegol yn cael eu hariannu gan y Llywodraeth (Ymgyrch Uplift).**

(d) **Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y tybiaethau canlynol:**
- **Bydd Treth y Cyngor yn cynyddu oddeutu 4.50% yn 2020/2021, 4.13% yn 2021/2022, 3.97% yn 2022/2023, 3.81% yn 2023/24 a 3.67% yn 2024/25.**
- **Bydd grantiau plismona'n aros ar y lefelau presennol yn 2021/21 a thu hwnt.**
- **Bydd dyfarniadau cyflog blynyddol yn 2.5% o fis Medi bob blwyddyn.**

112. **COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD A PHRIF GWNSTABL HEDDLU GOGLEDD CYMRU CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG**

Ystyriwyd yr eitem hon fel rhan o Gofnod 111 uchod - Praesept a Threth y Cyngor 2019/20.

113. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2019/20 (FEL AG YR OEDD 30 TACHWEDD 2019)**

Cyflwynwyd diweddariad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyllideb 2019/20, fel yr oedd ar 30 Tachwedd 2019.

Pwrpas y papur oedd darparu cadarnhad i'r Panel o'r Llythyr Archwilio Blynyddol a diweddariad ar y gyllideb plismona ar gyfer Gogledd Cymru.

Ystyriwyd yr adroddiad hwn fel rhan o Gofnod 111 uchod - Praesept a Threth y Cyngor 2019/20, pan wnaeth y Panel y canlynol:

**PENDERFYNWYD:**
**Nodi'r adroddiad.**

114. **CADARNHAU ADRODDIAD BLYNYDDOL - COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD 2018/19.**

Cyflwynwyd fersiwn derfynol o Adroddiad Blynyddol 2018/19 Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Diolchodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i'r Panel am eu sylwadau a diwygiadau awgrymedig, gyda'r mwyafrif o ddiwygiadau'n cael eu hymgorffori yn yr Adroddiad Blynyddol.

Croesawodd y Panel yr ymgysylltiad a wnaed gan y Comisiynydd drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig yng nghymunedau Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn derbyn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2018/19.**

115. **PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB, 1 EBRILL 2019 – 30 MEDI 2019**

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol adroddiad monitro cyllideb chwe mis i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar dreuliau'r Panel am y cyfnod 1 Ebrill 2019 hyd at 30 Medi 2019.

Fel rhan o'r gofynion ar gyfer gwybodaeth fonitro canol blwyddyn 2019/20, roedd gofyn i'r Panel adrodd ar gynnydd yn erbyn ffactorau llwyddiant hanfodol o ran cyflawni amcanion a thargedau, ac amlygu sut y cyflawnir gwerth am arian (e.e. buddion, arbedion, arbedion effeithlonrwydd ac ati).

Roedd y cynnydd yn erbyn y ffactorau llwyddiant hanfodol i adrodd arnynt fel a ganlyn:

- Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd:
  - CAFWYD 2 GYFARFOD O'R PANEL HEDDLU A THROSEDD YN YSTOD Y CYFNOD ADRODD.
- Dogfennau craffu a chyhoeddiadau a gynhyrchwyd, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Panel.
  - Roedd y Panel wedi cyhoeddi 3 adroddiad yn ystod y cyfnod adrodd.
  - Roedd y Panel wedi sefydlu 6 rôl Aelod Sy'n Gefnogwr, a oedd wedi bod yn offeryn effeithiol i gefnogi a chraffu ar benderfyniadau'r Comisiynydd, gydag Aelodau'r Panel yn adrodd yn ôl ar lafar ym mhob cyfarfod o'r Panel am y gwaith maent wedi'i wneud.

- Ymgysylltiad aelodau o'r cyhoedd a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru â gwaith y Panel.
  - Roedd y Panel hefyd wedi datblygu protocol ar gyfer Cwestiynau i'r Comisiynydd, ac yn derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd neu aelodau o'r Panel, yr oedd modd eu cyflwyno i'r Comisiynydd mewn cyfarfodydd cyhoeddus.
  - Roedd cyfarfodydd o'r Panel hefyd yn cael eu gweddarlledu, a oedd yn offeryn ymgysylltu cyhoeddus defnyddiol ac yn hyrwyddo gwaith y Panel a'r Comisiynydd.
- O ran arbedion effeithlonrwydd, gwerthusodd y Panel yr angen i fynychu digwyddiadau hyfforddi a chyfarfodydd; lle bynnag bosib,

cynhaliwyd cyfarfodydd trwy Skype neu gynadleddau teledu. Yn ogystal, roedd y Panel wedi cytuno canslo cyfarfod Mawrth, oni bai bod angen cynnal y cyfarfod ar gyfer busnes statudol.

Diolchodd y Cefnogwr Cyllid i'r Swyddog Arweiniol a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol a'r Swyddog Craffu a Gwasanaethau Pwyllgor am eu gwaith i wasanaethu'r Panel, a gobeithio, i gadw cyllideb y Panel o fewn dyraniadau grant, heb yr angen i'r Awdurdod Cynnal amsugno unrhyw orwariant o amser Swyddogion.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi'r adroddiad monitro chwe mis a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y ffactorau llwyddiant hanfodol.**

**(b) Bod y Panel Heddlu a Throsedd yn cydnabod bod Swyddogion yn monitro ac yn olrhain gwariant yn erbyn cyllidebau cytunedig ac i sicrhau gwerth am arian.**

116. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i'r Aelodau.

Rhoddodd y Swyddog Craffu a Gwasanaethau Pwyllgor wybod y byddai'n gwahodd y Prif Gwnstabl i gyfarfod yn y dyfodol i roi ei ddiweddariad blynyddol i'r Panel, unwaith y cytunwyd ar amserlen cyfarfodydd 2020/21 (gweler Cofnod 117 isod).

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

117. **AMSERLEN GYFARFOD ARFAETHEDIG AR GYFER 2020/21**

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo'r amserlen cyfarfodydd ar gyfer 2020/21 fel a ganlyn:**

- **Dydd Llun, 15 Mehefin 2020 am 2.00pm**
- **Dydd Llun, 28 Medi 2020 am 2.00pm**
- **Dydd Llun, 14 Rhagfyr 2020 am 2.00pm**
- **Dydd Llun, 25 Ionawr 2021 am 2.00pm**
- **Dydd Mawrth, 2 Chwefror 2021 am 2.00pm (os bydd pleidlais atal y praesept)**
- **Dydd Llun, 22 Mawrth 2021 am 2.00pm (ar gyfer busnes statudol yn unig)**

**Y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd**
***Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru***

Dyma f'adroddiad i'r Panel ar gyfer y cyfnod 1 Mehefin 2020 hyd 1 Medi 2020.

Yn ôl yr arfer mae f'adroddiad yn rhoi sylw i berfformiad yn erbyn Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021, ond bydd aelodau'r Panel yn gwerthfawrogi fod yr adroddiad wedi gorfod esblygu i adlewyrchu'r sefyllfa ddigynsail yr ydym wedi bod ynddi dros y 5 mis diwethaf, felly mae'r fformat ychydig yn wahanol i'r hyn y byddwch wedi arfer ag o.

Pwrpas yr Adroddiad hwn yw rhoi trosolwg i'r aelodau o'r penderfyniadau yr wyf wedi eu gwneud a gweithgaredd a chamau craffu eraill yr wyf wedi ymgymryd â hwy yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad y tawelu meddwl y Panel fy mod i a'm tîm wedi parhau i gyflawni ein swyddogaethau statudol yn effeithiol a'n bod wedi parhau i ddal y Prif Gwnstabl yn atebol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Bydd aelodau'r panel yn ymwybodol fy mod, ar gyfer 2017-2021, wedi penderfynu blaenoriaethu'r meysydd hynny a nodwyd fel y prif feysydd o fygythiad, risg a niwed, sef:

- Cam-drin domestig
- Caethwasiaeth Modern
- Cam-drin Rhywiol (gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant)
- Troseddau Cyfundrefnol

Yn ychwanegol at y blaenoriaethau hyn, mae gwasanaeth heddlu gweladwy a hygyrch yn dal yn bwysig i'r cyhoedd. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu'r hyn mae'r cyhoedd a'r Panel Heddlu a Throsedd wedi'i ddweud wrthyf ac mae sicrhau cymdogaethau diogel yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi.

Bydd aelodau'r panel yn cofio i mi adolygu fy Nghynllun ym mis Mawrth 2019 ac i mi gadw'r blaenoriaethau uchod ynddo, ond fy mod i hefyd wedi ychwanegu blaenoriaeth drosfwaol o leihau cam-fanteisio'n droseddol ar bobl ddiamddiffyn.




Rwy'n craffu ar Heddlu Gogledd Cymru drwy fesur ei berfformiad yn erbyn y pum blaenoriaeth yma, a byddwch yn gwybod fy mod yn parhau i gyflawni'r swyddogaeth graffu hon drwy'r Bwrdd

Gweithredol Strategol yr wyf yn ei Gadeirio ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn aelodau ohono.

Mae'r Bwrdd Gweithredol Strategol wedi parhau i gyfarfod drwy gydol y pandemig, er yn rhithwir, a bydd cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 14 Hydref.

Tra byddaf yn monitro perfformiad yn erbyn y pum blaenoriaeth uchod yng nghyfarfodydd fy Mwrdd Gweithredol Strategol, wrth gwrs mae'n angenrheidiol hefyd bod agweddau eraill ar blismona'n parhau i gael eu cyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon. Am y rheswm hwnnw felly caiff peth gwybodaeth berthnasol i blismona craidd hefyd ei chraffu arni yn y Bwrdd Gweithredol Strategol. Bydd aelodau'n gwerthfawrogi bod y rhan fwyaf o gyfarfodydd diweddar y Bwrdd Gweithredol wedi gorfod canolbwyntio ar ymateb Heddlu Gogledd Cymru i COVID-19 a'i gynlluniau adfer.

Yn ogystal â chraffu ar berfformiad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throsedd, er mwyn ymateb i'r argyfwng a chyflawni fy nyletswyddau statudol, dros y 3 mis diwethaf, fel CHTh rwyf wedi bod yn canolbwyntio ar:

1. Sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl ddigon o adnoddau i ymateb i'r argyfwng;
2. Sicrhau, ar ran ein cymunedau, bod yr heddlu'n ymateb mewn ffyrdd sydd yn angenrheidiol, yn ddigonol, yn gymesur ac yn foesegol (dal yn atebol);
3. Hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol ymysg asiantaethau a grwpiau sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol;
4. Comisiynu gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer dioddefwyr trosedd, a darparu grantiau i ddibenion plismona a lleihau niwed;
5. Sicrhau bod iechyd hirdymor Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei ddiogelu drwy fonitro cynlluniau a gweithgaredd adfer y sefydliad y tu hwnt i'r argyfwng Covid-19.

Mae'r Panel eisoes wedi derbyn copi o fy Nghynllun Ymateb i COVID-19, felly nid wyf yn bwriadu mynd i fanylder yn yr adroddiad hwn ynghylch y strwythurau sy'n bodoli'n lleol ac yn genedlaethol i sicrhau y gall yr Heddlu a'i bartneriaid ymateb yn effeithiol i'r argyfwng.

Fel y dywedais yn f'adroddiad ym mis Mehefin 2020 i'r Panel, mae fy uwch dîm a minnau'n dal i dderbyn gwybodaeth friffio reolaidd gan Brif Swyddogion yr Heddlu am y sefyllfa o ran COVID-19 ac am faterion plismona'n gyffredinol. Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â'r galw dyddiol ar yr Heddlu, lefelau echdynnu staff a materion eraill sy'n peri pryder. Mae'r briffio hwn hefyd yn gyfle i fewnbynnu materion o Swyddfa'r Comisiynydd y mae angen i'r heddlu eu hystyried e.e. gwybodaeth gan y cyhoedd, partneriaid, darparwyr gwasanaethau a gomisiynir gan y CHTh, monitro perfformiaf fel rhan o 'fusnes fel arfer'; materion yn ymwneud â gwydnwch staffio SCHTh a threfniadau parhad busnes ac ati.

Mae fy nhîm cyfan yn SCHTh yn dal i weithio gartref ac mae gan bob un yr offer a'r gefnogaeth angenrheidiol i weithio'n effeithiol. Mae pob aelod o'r tîm yn glir ynglŷn â sut y byddwn yn cydweithio o bell ac mae gan fy uwch dîm rheoli bolisi 'drws agored' rhithwir.

**Effaith COVID-19 ar alw a pherfformiad**

***Trin Galwadau a Chysylltiadau***

- Mae nifer y galwadau 999 yn ôl  i'r un lefel â chyn y cyfnod clo, ar ôl gostyngiad o 20% ar ddechrau'r cyfnod clo.
- Roedd cyswllt heb fod yn frys 40% yn uwch ar ddechrau'r cyfnod clo. Roedd y cynnydd hwn yn bennaf o ganlyniad i we-sgyrsiau ac e-byst ond bu cynnydd hefyd mewn galwadau 999.
- Mae gwe-sgyrsiau a chyswllt e-bost yn awr yn ôl i'r lefel cyn y cyfnod clo.
- Mae galwadau 101 yn sefydlog o hyd, ar y lefel 'normal newydd'.

**Digwyddiadau:**

- Digwyddiadau a ddosberthir fel rhai "troseddol" a "chludiant" ostyngodd fwyaf yn ystod y cyfnod clo, ac er eu bod wedi dechrau codi eto i lefelau cyn y cyfnod clo, mae niferoedd yn is na'r cyfartaledd tymhorol o hyd.
- Cododd achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o fis Ebrill ymlaen, er y byddai disgwyliad tymhorol i hynny ddigwydd.
- Ni welwyd unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn digwyddiadau diogelwch/lles y cyhoedd yn ystod y cyfnod clo.

*Troseddau Cofnodedig:*

Roedd gostyngiad  amlwg mewn galw cysylltiedig â'r troseddau canlynol yn ystod y cyfnod clo:

- Roedd trais gydag anaf 40% yn is na'r cyfartaleddau tymhorol drwy gydol y cyfnod clo. Fodd bynnag cododd ymosodiadau gydag anaf yn gyflym ac yn arwyddocaol am wythnos yng nghanol mis Gorffennaf (lefel uchel o droseddau domestig, a ddisgynnodd yn ôl i'r lefelau disgwyliedig yr wythnos wedyn).
- Gwelwyd gostyngiad arwyddocaol mewn trais heb anaf (heb gynnwys stelcian ac aflonyddu) ddiwedd mis Mawrth ond yn ystod mis Gorffennaf cododd yn ôl i lefelau cyn y cyfnod clo.
- Arhosodd lefelau byrgleriaeth yn isel iawn drwy gydol y cyfnod clo. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae byrgleriaethau o'r ddau fath i'w gweld yn dychwelyd i lefelau cyn y cyfnod clo. Roedd byrgleriaeth o adeiladau preswyl yn disgyn cyn y cyfnod clo a gwelwyd gostyngiad pellach wedi hynny, a gostyngodd byrgleriaethau o fusnesau/adeiladau cymunedol ar ddechrau'r cyfnod clo. Mae Heddlu Gogledd Cymru'n rhagweld y bydd troseddau meddiangar ar yn dechrau codi eto wrth i effeithiau'r dirwasgiad gynyddu.
- Gwelwyd gostyngiad mawr mewn lladradau/ysbeiliad sydd yn awr yn codi i'r lefelau blaenorol.
- Gwelwyd gostyngiad cyson mewn Troseddau Cerbyd a Difrod Troseddol/Arson ers dechrau'r cyfnod clo, ac mae nifer y troseddau hyn yn dal yn is na'r cyfartaledd tymhorol arferol.
- Mae troseddau Dwyn a Thrin Eitemau Wedi'i Dwyn wedi bod 28% yn is na'r cyfartaledd tymhorol ac nid ydynt eto wedi codi'n ô i'r lefelau cyn y cyfnod clo.

Mewn gwrthgyferbyniad cododd  y canlynol yn ystod y cyfnod clo:

- Troseddau heb fod yn seiliedig ar ddioddefwr, sydd wedi bod 30% yn uwch na'r cyfartaledd tymhorol (yn digwydd yn sgil troseddau cyffuriau ac anhrefn gyhoeddus).
- Stelcian ac aflonyddu, sydd wedi bod yn codi ers i'r cyfyngiadau ddod i rym ac sydd yn awr 30% yn uwch na'r un cyfnod y llynedd. Mae'n werth nodi yma mai un rheswm dros y cynnydd sylweddol hwn yw newid mewn trefniadau cofnodi a ddaeth i rym yn Ebrill 2020 gan olygu fod ymddygiad cymhellol/rheoli bellach wedi cael ei symud i'w gategori ei hun o dan stelcian ac

aflonyddu yn hytrach na'i fod yn cael ei ddosbarthu fel ymosodiad heb anaf. Rwy'n deall fod y newid hwn yn y trefniadau cofnodi yn cyfrif am rai o'r troseddau stelcian/aflonyddu ychwanegol bob wythnos (a'r gostyngiad cyfatebol ers mis Ebrill mewn trais heb anaf). Serch hynny dim ond am beth o'r cynnydd y mae'r newid hwn yn cyfrif ac nid yw'n egluro'r wythnosau anarferol o uchel yn ystod Mehefin a Gorffennaf (mae gorgyffwrdd rhwng stelcian ac aflonyddu a throseddau domestig a allai egluro rhywfaint o'r cynnydd ar yr adeg hon).

Hefyd i'w nodi:


- Yn dilyn lefelau cymharol isel yn ystod y gaeaf, bu cynnydd cyson mewn troseddau casineb cofnodedig ers mis Rhagfyr ac mae wedi bod yn gymharol uchel ers mis Mai.
- Gwelwyd cynnydd mewn troseddau casineb ym mis Mehefin a sbigyn arwyddocaol yng nghanol mis Gorffennaf. Roedd hyn yn cyd-fynd â chodi cyfyngiadau'r cyfnod clo a chofnodwyd nifer uwch o droseddau ychwanegol yn cynnwys troseddau hanesyddol y gallai'r cyfnod clo fod wedi eu cuddio.

**Blaenoriaeth 1 - Cam-drin Domestig**


Wrth graffu ar berfformiad yr heddlu ym maes Troseddau Casineb fe fydda' i a fy swyddogion yn canolbwyntio ar y cwestiynau canlynol:

- Ydyn ni'n deall lefelau riportio cam-drin domestig a chanlyniadau'r troseddau?
- Ydyn ni'n ymchwilio'n effeithiol i gam-drin domestig?
- A yw'r gwasanaeth a gynigir i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn diwallu eu hanghenion?

Yn flynyddol, mae achosion o Gam-drin Domestig wedi gostwng dros y deuddeng mis diwethaf (hyd ddiwedd mis Gorffennaf 2020) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu gostyngiad cyffredinol o 4.1% mewn digwyddiadau o gam-drin domestig a gostyngiad o 3.5% mewn troseddau cam-drin domestig.



Digwyddodd mwy o droseddau domestig na'r cyfartaledd ym mis Gorffennaf ac roedd yn anarferol o uchel am wythnos yng nghanol y mis. Mae'r Heddlu wedi comisiynu adolygiad ansoddol o Gam-drin Domestig i edrych ar y ffigyrau hyn a bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu â mi maes o law.




Mae'r cynnydd misol diweddar mewn troseddau Cam-drin Domestig yn cyd-fynd â'r cyfnod ers cyflwyniad y cyfyngiadau COVID-19 a'r cyfnod clo. Yn ddiweddar hefyd cwblhawyd gwaith archwilio cysylltiedig â chofnodi troseddau Cam-drin Domestig. Ar hyn o bryd mae digwyddiadau Cam-drin Domestig dyddiol yn cael eu hap samplu i weld a ydynt yn cael eu cofnodi'r gywir.

Mae nifer y dioddefwyr cam-drin domestig dro ar ôl tro wedi bod yn gostwng yn raddol ers dechrau'r cyfnod clo. Yn wir, mae nifer y dioddefwyr cam-drin domestig dro ar ôl tro wedi bod yn gostwng ers dechrau'r flwyddyn er gwaethaf y cynnydd mewn achosion domestig cofnodedig ym mis Mehefin. Yn y 12 mis hyd Awst 2020 roedd 2,355 o ddioddefwyr cam-drin domestig dro ar ôl tro, o gymharu â 2,494 yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

Mae nifer y troseddwyr sydd wedi cyflawni troseddau domestig dro ar ôl tro wedi bod yn cymharol sefydlog drwy gydol yr adeg.

Mae swyddogion o Uned Ddiogelu Pobl Fregus (PVPU) yr heddlu mewn cysylltiad dyddiol â'r Llinell Gymorth Cam-drin Domestig i drafod capasiti llochesi ar draws Gogledd Cymru ac argaeledd cymorth. Maent hefyd yn cynnal trafodaeth wythnosol gyda Gorwel a DASU i adolygu capasiti a gallu gwasanaethau cymorth ar draws Gogledd Cymru.

Mae ymdriniaeth ranbarthol wedi'i sefydlu ar gyfer Cam-drin Domestig a chaiff felly ei drafod yn fanwl yng nghyfarfodydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

Bydd Ditectif Arolygyddion o dair ardal blismona Gogledd Cymru'n cyfarfod â rheolwyr prawf yn aml i drafod y rhai sydd yn y perygl mwyaf o niwed, a'r rhai hynny sydd wedi cyflawni Camdriniaeth Ddomestig y maent yn ymweld â nhw fel rhan o'u dyletswyddau arferol. Caiff ymweliadau ar y cyd eu cynnal o hyd os bernir fod hyn yn ychwanegu gwerth at yr ymdrech i rwystro rhagor o droseddu.

Mae cyfraddau bodlonrwydd dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn cymharu'n ffafriol â rhai dioddefwyr mathau eraill o drosedd. Mae'r Data Arolwg Dioddefwyr Cam-drin Domestig canlynol yn dangos (o'r 474 o bobl a atebodd yr arolwg) bod:

- 89.8% yn fodlon â'r cyswllt cychwynnol
- 90.2% yn fodlon â chamau cychwynnol yr heddlu
- 92.3% yn fodlon â chyswllt y Swyddog Cam-drin Domestig.
- 66.9% yn fodlon â'r cyswllt dilynol
- 84.8% yn fodlon yn gyffredinol

Hefyd roedd...

- 93.2% yn fodlon bod swyddogion wedi gwrando'n ofalus ar yr hyn yr oedd ganddynt i'w ddweud.
- 95.9% yn fodlon bod swyddogion yn credu'r hyn y gwnaethant ei ddweud.
- 91.2% yn fodlon bod swyddogion yn deall y sefyllfa
- 95.6% yn fodlon bod swyddogion yn eu trin â pharch
- 89.7% yn teimlo'n dawelach eu meddwl
- 88.7% yn fodlon â'r modd y cawsant eu trin gan swyddogion
- 87.0% yn teimlo'n hyderus o ran galw'r heddlu eto
- 83.1% yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'r ymateb a gafwyd gan yr heddlu.

Cafodd yr arolygon dioddefwyr eu stopio ym mis Ebrill (oherwydd y cyfyngiadau COVID-19) a'u hail-ddechrau ym mis Awst.

**Caethwasiaeth Fodern:**

Mae achosion o Gaethwasiaeth Fodern wedi gostwng flwyddyn ar flwyddyn ond mae niferoedd yr achosion NRM (Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol - National Referral Mechanism - fframwaith ar gyfer adnabod dioddefwyr masnachu pobl) wedi cynyddu. Rwy'n llwyr gydnabod nad yw troseddau Caethwasiaeth Fodern cofnodedig o reidrwydd yn adlewyrchu faint o bobl sy'n cael eu hadnabod fel dioddefwyr neu gyflawnwyr troseddau CF.

Yn ystod y 12 mis cyfredol dosbarthwyd 75 o droseddau yn rhai Caethwasiaeth Fodern, sydd yn 10.3% o gynnydd o gymharu â'r 12 mis blaenorol

*Troseddau Caethwasiaeth Fodern a Gofnodwyd*

| Disgrifiad | 12 mis cyfredol | 12 mis blaenorol | % newid |
|---|---|---|---|
| Trefnu neu hwyluso teithio ar ran rhywun arall gyda'r bwriad o'u hecsbloetio | 0 | 6 | -100.0% |
| Dal unigolyn mewn caethwasiaeth neu gaethwasanaeth | 65 | 48 | 35.4% |
| Mynnu bod unigolyn yn gwneud gwaith gorfodol | 10 | 14 | -28.6% |
| **Cyfanswm** | **75** | **68** | **10.3%** |

Yn ystod y flwyddyn hyd yma cofnodwyd 35 achos o Gaethwasiaeth Fodern

Mae'r achosion a gofnodwyd wedi'u lledaenu ar draws ardal yr Heddlu, gyda chrynodiad ychydig yn uwch yng ngogledd Sir y Fflint. Mae'r rhai sy'n cyflawni neu yr amheuir eu bod yn gyfrifol am Gaethwasiaeth Fodern yn dueddol o fod yn ddynion o ethnigrwydd gwyn.

Mae’r defnydd o Orchmynion Caethwasiaeth a Masnachu yn dechrau cynyddu ac mae 3 gorchymyn o’r fath wedi’u gweithredu yn ystod y cyfnod 12 mis cyfredol.

Rwy’n parhau i fonitro’r darlun o ran caethwasiaeth fodern yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

Yn genedlaethol rwy'n cael diweddariadau ar waith y Swyddfa Gartref, yr Uned Trawsnewid Caethwasiaeth Fodern, y Comisiynydd Gwrth-Gaethwasiaeth Annibynnol a'r Cyfarfodydd Masnachu Pobl sy'n cael eu cynnal yn chwarterol.

Bydd Grŵp Caethwasiaeth Fodern Gogledd Cymru’n cael ei ailymgynnull yn dilyn yr adolygiad strategol rhanbarthol a gynhaliwyd gan Brif Weithredwyr y chwe awdurdod lleol. Yn dilyn yr adolygiad mae bwriad i gyfuno’r grŵp Caethwasiaeth Fodern Rhanbarthol â’r grŵp Trais yn Erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) rhanbarthol a bydd hwn yn cael ei adnabod fel y “Bwrdd Pobl Agored i Niwed ac Ecsbloetiaeth”. Ar hyn o bryd mae gen i amheuon ynghylch yr adolygiad ac ymarferoldeb delio â chaethwasiaeth fodern a chamdriniaeth ddomestig gan un grŵp. Mae’r pynciau y bydd disgwyl i’r Bwrdd newydd hwn roi sylw iddynt yn eang ac yn wahanol iawn o ran natur a bydd yn her i ddim ond un grŵp ymdrin a hwy. Fodd bynnag fy Mhrif Weithredwr i, Stephen Hughes, fydd Cadeirydd y bwrdd newydd sy’n rhoi tawelwch meddwl i mi y bydd y ddau agenda'n cael eu hystyried a'u gweithredu ac y bydd unrhyw rwystrau neu anawsterau'n cael eu hadnabod ac yn cael sylw yn ôl yr angen.

Rwy’n parhau i weithio gyda’r Heddlu ar eu perfformiad i daclo caethwasiaeth fodern. Rwyf yn ddiweddar wedi cytuno i newid rhai o fesuryddion perfformiad Caethwasiaeth Fodern (fel y byddwch yn ei weld maes o law yn adroddiadau perfformiad y dyfodol). Mae arnom angen model perfformiad sy’n addas ar gyfer monitro sut y mae’r trosedd ym ymddangos ac yna’n cael ei ddelio ag o yng Ngogledd Cymru – gallai fod yn wahanol iawn i'r hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r wlad. Nid cyfrif atgyfeiriadau NRM yw'r dull mwyaf manwl-gywir o weld a yw dioddefwyr yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt a'u bod yn cael eu diogelu rhag bod yn ddioddefwyr eto. I mi y dioddefwr ddylai fod wrth galon ein gwaith bob amser.

Mae ein gwaith yn y maes hwn yn esblygu’n gyson wrth i ni ddod i ddeall mwy am y trosedd hwn a’i effaith ar ddioddefwyr.

**Troseddau Cyfundrefnol**

Pan fyddaf yn craffu ar berfformiad yn erbyn y flaenoriaeth hon byddaf yn gofyn:

- A ydym yn deall proffil troseddau cyfundrefnol yng Ngogledd Cymru?
- Sut ydym ni’n defnyddio ymyraethau targedig i rwystro pobl rhag cael eu tynnu i mewn i wahanol fathau o droseddau cyfundrefnol?
- Ydym ni’n tarfu ar y grwpiau troseddau cyfundrefnol sydd eisoes yn bodoli?
- Ydym ni’n dwyn troseddwyr i gyfiawnder?

Mae Proffiliau Cymunedol yn awr wedi’u cwblhau gan yr adran ddadansoddol ac wedi’u cyflwyno i'r Bwrdd Cymunedau Diogelach. Mae'r pedwar Grŵp Partneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi adnabod blaenoriaethau allweddol a fydd yn helpu i wneud cymunedau'n fwy gwydn o ran gwrthsefyll bygythiadau Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol a byddant yn adrodd yn ôl ar gynnydd i Fwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru.

Mae’r Asesiad o Anghenion Llinellau Sirol a’r Llwybrau i Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol wedi’u cwblhau. Mae’r argymhellion wedi’u hadolygu a’u blaenoriaethu. Bydd Hugh Jones, Aelod Arweiniol dros Gymunedau, Partneriaethau, Diogelu'r Cyhoedd a Diogelwch Cymunedol yn cadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a fydd yn adrodd yn ôl i Fwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru.

Bydd Grwpiau Tasg a Chydlynu Tactegol yr Heddlu a’r Ardal yn defnyddio Dogfen Trosolwg o Flaenoriaethau a Bygythiadau’r Heddlu i ddynodi’r risgiau pennaf ac i asesu’r risgiau ar draws Gogledd Cymru. Mae’r dull hwn yn caniatáu i adnoddau priodol gael eu clustnodi ac i geisiadau gael eu cyflwyno i’r Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol yn ôl yr angen.

Mae niferoedd Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol a Gangiau Llinellau Sirol yn amrywio yn sgil gweithgaredd gweithredol ac adolygiadau o gudd-wybodaeth.

- Ar hyn o bryd mae 15 o Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol gweithredol, sy’n cael eu mapio a’u rheoli gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae’r grwpiau hyn yn gyfrifol am gyflenwi cyffuriau, ecsbloetiaeth droseddol, troseddau caffael a thwyll. Yn ogystal, caiff grwpiau Troseddau Cyfundrefnol wedi’u harchifo eu hadolygu bob 12 mis i weld a oes angen ymateb gweithredol. Cyflenwad cyffuriau cyfundrefnol yw’r prif fygythiad o hyd sy’n cwmpasu’r trais a ddefnyddir gan aelodau’r grwpiau hyn.

- Ar hyn o bryd mae 14 o grwpiau Llinellau Sirol sy’n dylanwadu ar Ogledd Cymru, a heroin a chocên crac yw'r sylweddau y maent yn ymwneud fwyaf â nhw. Mae hyn yn 6 grŵp yn llai nag yr adroddwyd yn eu cylch yn y diweddariad chwarterol diwethaf. Glannau Mersi yw’r ardal sy’n bennaf gysylltiedig â dosbarthiad y cyffuriau hyn. Credir mai’r ffactorau sydd wedi arwain at y gostyngiad yw ymgyrch sydd ar y gweill ar hyn o bryd, y cyfyngiadau teithio cysylltiedig â COVID-19 a’r tactegau tarfu lleol yng Ngogledd Cymru. Mae’r Tîm Tarfu newydd wedi bod yn rhagweithiol dros ben ac yn cyfrannu’n arwyddocaol tuag at darfu ar y defnydd troseddol o'r rhwydwaith ffyrdd.

*Llywodraethu:*

Mae cyfarfodydd craffu misol yn awr yn cael eu cadeirio gan y Pennaeth Trosedd i sicrhau fod rheolaeth troseddau cyfundrefnol yn dal i gael y sylw priodol.

Y Prif Arolygyddion Sirol yw perchnogion y cynlluniau i fynd i'r afael â grwpiau troseddau cyfundrefnol yn dilyn adolygiad diweddar a gweithrediad yr argymhellion. Mae’r cynlluniau hyn yn destun gweithdrefnau sicrhau ansawdd llym a chaiff arfer da ei rannu ar draws y sefydliad.

**Cam-drin Rhywiol**


- Ydyn ni’n deall y lefelau riportio a chanlyniadau’r troseddau?
- Ydyn ni’n diogelu’r dioddefwyr yn effeithiol?
- Ydyn ni’n targedu’r rhai sy’n gyfrifol yn effeithiol ac yn eu dwyn i gyfiawnder?

Mae'r mesuryddion ar gyfer yr amcan hwn yn dangos sefydlogrwydd dros y tymor byr a'r hirdymor.

**Strategic Objective: Deal with Sexual Abuse including CSE**


| Measure | Source | 12 mths to wk 2020/17 | 12 mths to wk 2019/17 | Year on year change | 6 month trend | Short term assessment | Long term assessement |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O8: Repeat victims of sexual offences | RMS via BI Launchpad | 290 | 355 | -18.3% | | Within expected range | Stable |
| O9: Repeat offenders of sexual offences | RMS via BI Launchpad | 38 | 38 | 0.0% | | Within expected range | Stable |

*Siart Wythnosol Pob Trosedd Rhyw:*





Mae cyfradd y gostyngiad mewn Troseddau Rhyw yn uwch nag unrhyw drosedd arall. Yn Wythnos 18 mae Troseddau Rhyw wedi gostwng 20.2% o gymharu a gostyngiad o 15.4% ym mhob trosedd. Mae nifer y Troseddau Rhyw yn is na'r hyn a ragwelwyd.

Yn y cyfnod 12 mis cyfredol mae troseddau Paratoi Rhywiol yn cyfrif am 4.9% o'r holl Droseddau Rhyw, sydd ychydig yn uwch na'r cyfnod 12 mis blaenorol, pan oedd yn 4.3%. Mae'r mwyafrif helaeth o droseddau Paratoi Rhywiol yn cael eu dosbarthu fel *'Ymgymryd â chyfathrebiadau rhywiol gyda phlentyn',* sydd wedi profi gostyngiad o 1.9% flwyddyn ar flwyddyn.





Heddlu Gogledd Cymru sy'n cofnodi'r nifer uchaf o Droseddau Rhyw fesul 1000 o'r boblogaeth o blith heddluoedd Cymru a Lloegr. Er hynny, mae HGC wedi'i raddio'r nawfed gorau o blith yr holl heddluoedd o ran y gostyngiad flwyddyn ar flwyddyn mewn troseddau rhyw. Mae'r data isod yn cyfeirio at y flwyddyn hyd Mai 2020.

*Troseddau Rhyw – 12 mis hyd Mai 2020, yn ôl Heddlu**
**Allwedd – Gwyrdd = HGC, Coch = Heddluoedd Cymru, Oren = Grŵp Heddluoedd Tebycaf, Glas = Pob Heddlu arall yng Nghymru a Lloegr.*




*Troseddau Rhyw, newid flwyddyn ar flwyddyn – 12 mis hyd Mai 2020, yn ôl Heddlu*





‘‘Troseddau Rhyw Eraill cofnodedig' yw'r cyfranwyr pennaf at y sefyllfa hon; o ran Trais, HGC yw'r 27ain o ran y cyfrif fesul 1000 o'r boblogaeth, a'r 6ed o ran gostyngiadau flwyddyn ar flwyddyn. ‘Troseddau Rhyw Eraill cofnodedig' yw'r cyfranwyr pennaf at y sefyllfa hon; o ran Trais, HGC yw'r 42nd o ran y cyfrif fesul 1000 o'r boblogaeth, a'r 14eg o ran gostyngiadau flwyddyn ar flwyddyn. Mae fy swyddogion yn gweithio’n agos â staff Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn yr Heddlu i geisio deall y rheswm pam y mae HGC yn cofnodi’r nifer uchaf o ‘droseddau rhyw eraill’ fesul 1000 o'r boblogaeth o gymharu â Heddluoedd eraill Cymru a Lloegr.  Mae’r Heddlu wedi cynnal dadansoddiad ac ymchwil helaeth i geisio deall y lefelau uchel ac nid yw eto wedi nodi unrhyw feysydd o bryder a fyddai’n arwain at newid yn yr ymateb gweithredol.

*Ydyn ni’n targedu’r rhai sy’n gyfrifol yn effeithiol ac yn eu dwyn i gyfiawnder?*

Ar hyn o bryd (Mai 2020) mae HGC yn y degfed safle  o blith Heddluoedd Cymru a Lloegr o ran canlyniadau cadarnhaol perthnasol i Droseddau Rhyw.

*Cyfradd Ganlyniadau 1-8 Pob Heddlu – Troseddau Rhyw*





Mae cyfradd ganlyniadau HGC ar hyn o bryd 1.4 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr ac wedi bod felly'n gyson ers mis Rhagfyr 2018.

**Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant**

Bu gostyngiad bychan flwyddyn ar flwyddyn yn faint o adroddiadau gwybodaeth am CSE a dderbyniwyd. Ar gyfer y flwyddyn hyd yma (Ebrill – Gorffennaf 2020) derbyniwyd 398 adroddiad o gymharu â 411 y llynedd (gostyngiad o 5.4%). Mae nifer misol y cyflwyniadau wedi bod yn gyson dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

*Gwybodaeth am CSE - Cyflwyniadau Misol*




Mae nifer y digwyddiadau CSE hefyd wedi disgyn, o 26 ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf hyd yma (Ebrill-Gorffennaf) (gostyngiad o 23.1%)

Rydym yn dal i weithio gyda'n partneriaid i geisio sicrhau y sefydlir gwasanaeth cyfweld cyson ac effeithiol ar draws y rhanbarth cysylltiedig â Phobl ar Goll o Gartref.

**Cymdogaethau Diogelach:**


Pan fyddaf yn craffu ar berfformiad yn erbyn y flaenoriaeth hon byddaf yn gofyn:

- A yw'r staff yn defnyddio dulliau datrys problemau effeithiol er mwyn datrys problemau cymunedol?
- A yw problemau'r gymuned leol yn cael eu datrys?
- A yw cymunedau lleol yn ymgysylltiedig mewn plismona?
- A yw cymunedau lleol yn fodlon â'u gwasanaethau plismona cymunedol lleol?


Er mwyn sicrhau cymunedau diogelach dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae Heddlu Gogledd Cymru wedi mabwysiadu dull Datrys Problemau tuag at blismona cymunedau. Mae'r fath ymdriniaeth yn sicrhau fod rheolwyr yr heddlu yn canolbwyntio ar ddatrys problemau'n rhagweithiol, a thrwy hynny atal trosedd ac anhrefn rhag digwydd yn y lle cyntaf, yn hytrach na dim ond ymladd trosedd yn adweithiol.

Un dull a ddefnyddir gan dimau plismona lleol i adnabod a datrys pryderon cymunedol yw creu Cynlluniau Plismona Wedi'u Cyfeirio at Ddatrys Problemau (POP). Cynyddodd nifer y cynlluniau POP yn sylweddol yn ystod mis Gorffennaf oherwydd y nifer uchel a grëwyd yn y rhanbarthau Canolog a Dwyreiniol. Mae hanner y cynlluniau a grëwyd ers mis Mehefin yn gysylltiedig ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac anghydfodau cymdogaethol. Mae cyfran o'r cynlluniau POP hefyd yn ymwneud ag iechyd meddwl (10%).

*Nifer y cynlluniau POP sydd ar y gweill yn ôl  mis*




*Nifer y cynlluniau POP a grëwyd ac a gaewyd yn ôl mis.*




Ac eithrio Gorllewin Conwy (lle agorwyd 15 POP ym mis Mehefin, gan godi cyfanswm y cynlluniau sydd ar y gweill i 36) ac Ynys Môn (sydd wedi bod â niferoedd cyson uchel ar y gweill a dim un wedi'i gau dros y 12 mis diwethaf), mae nifer y cynlluniau POP wedi'u dosbarthu'n gymharol gyfartal ar draws yr ardaloedd eraill.

Mae bron 60% o'r cyhoedd yn teimlo fod yr heddlu'n delio â phryderon lleol ac mae 72.4% yn cytuno fod y cyhoedd yn deall materion/problemau cymunedol.

Mae'r data diweddaraf o Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr yn dangos fod 59.5% o'r rhai hynny a ymatebodd yn cytuno fod yr heddlu yn eu hardal nhw yn delio â'r hyn sydd o bwys i bobl yn eu cymuned.

Yn y mesur hwn dros y 2 flynedd ddiwethaf gwelir tuedd araf o ddirywiad a gostyngiad flwyddyn ar flwyddyn o 4.0 pwynt canran.
Fodd bynnag oherwydd y gwelir tuedd o ddirywiad yn y cyfartaledd cenedlaethol hefyd, HGC sydd â'r canlyniad 5ed gorau'n genedlaethol o hyd, yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd o 53.0%.

**Ymyrraeth Gynnar**

Yn ychwanegol at ddargyfeirio troseddwyr i ffwrdd o'r System Cyfiawnder Troseddol drwy Checkpoint, dros y blynyddoedd diwethaf mae fy nghydweithwyr a minnau wedi bod yn awyddus i ehangu'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr a throseddwyr er mwyn lleihau'r perygl o ragor o droseddu ac erledigaeth.

Un o'r dulliau y mae Heddlu Gogledd Cymru'n ei ddefnyddio i geisio lleihau galw'r dyfodol yw defnyddio ymdriniaeth sy'n seiliedig ar ymyrraeth gynnar a dealltwriaeth o drawma. Byddaf yn craffu'n rheolaidd ar ba mor effeithiol y mae'r Heddlu'n defnyddio ymdriniaeth seiliedig ar ymyrraeth gynnar a dealltwriaeth o drawma.

Ers 1 Ebrill 2020 mae swyddogion wedi adnabod 746 o anghenion Cymorth Cynnar, gyda bron i draean o'r rhain yng Ngorllewin Conwy a Sir Ddinbych Arfordirol.

At ei gilydd mae bron i hanner (46.6%) y rhai a ddynodwyd ag anghenion Cymorth Cynnar yn unigolion sydd wedi cael cysylltiad blaenorol ag Iechyd/Gofal Cymdeithasol, a chytunodd ychydig dros hanner (54.7%) i rannu gwybodaeth a'r gwasanaethau cymorth.

Ers Ebrill 2020 rhoddwyd cyngor i 46.4% o'r unigolion a ddynodwyd a'u cyfeirio at y gwasanaethau priodol, a chwblhawyd e-bost atgyferio am Gymorth Cynnar ar gyfer 19.8%.

Er bod y proffil hwn yn gymharol debyg ar draws y rhanbarthau, o'r anghenion Cymorth Cynnar a ddynodwyd yn Ne Sir y Fflint a Wrecsam Wledig, roedd llai wedi cael ymgysylltiad blaenorol ag Iechyd/Gofal Cymdeithasol, wedi rhoi caniatâd i rannu, wedi cael cyngor a chyfeiriad at wasanaethau priodol neu y cwblhawyd atgyfeiriad e-bost ar eu cyfer.

*Cofnod atgyfeiriadau ar gyfer cefnogaeth i ddatrys problemau drwy Gymorth Cynnar rhwng 01/04/2020 a 31/07/2020*

| 10/08/2020 15:11:51 | Early Help support needs identified | Previous engagement with Health/ Social care | % | Consent to share | % | Advice and signpo sting | % | Early help email referral completed | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Total** | **746** | **348** | **46.6%** | **408** | **54.7%** | **346** | **46.4%** | **148** | **19.8%** |
| DC | 138 | 69 | 50.0% | 80 | 58.0% | 74 | 53.6% | 24 | 17.4% |
| WC | 102 | 47 | 46.1% | 66 | 64.7% | 52 | 51.0% | 32 | 31.4% |
| WX | 95 | 50 | 52.6% | 46 | 48.4% | 43 | 45.3% | 19 | 20.0% |
| FN | 85 | 45 | 52.9% | 54 | 63.5% | 46 | 54.1% | 24 | 28.2% |
| FS | 79 | 26 | 32.9% | 32 | 40.5% | 23 | 29.1% | 6 | 7.6% |
| GS | 52 | 27 | 51.9% | 35 | 67.3% | 24 | 46.2% | 17 | 32.7% |
| WR | 51 | 13 | 25.5% | 21 | 41.2% | 17 | 33.3% | 2 | 3.9% |
| CR | 48 | 25 | 52.1% | 22 | 45.8% | 21 | 43.8% | 2 | 4.2% |
| GN | 44 | 20 | 45.5% | 23 | 52.3% | 21 | 47.7% | 5 | 11.4% |
| YM | 43 | 20 | 46.5% | 24 | 55.8% | 21 | 48.8% | 16 | 37.2% |
| Other | 15 | 9 | 60.0% | 7 | 46.7% | 4 | 26.7% | 1 | 6.7% |

**Rhan 2: Diweddariad Cyffredinol**

Fel arfer yn yr adran hon rwy'n rhoi crynodeb byr i'r Panel o'r prif bethau yr wyf wedi bod yn eu gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel. Fodd bynnag bydd aelodau'r Panel yn gwerthfawrogi na fu bron ddim cyfarfodydd wyneb yn wyneb nac ymweliadau cymunedol. Serch hynny dylai'r aelodau fod yn dawel eu meddwl fy mod wedi parhau i ymgysylltu ag amrywiol unigolion/sefydliadau/cymunedau/gwleidyddion a chomisiynwyr drwy gydol y cyfnod clo ac mae fy nyddiadur mor llawn ag erioed.

Fel tîm rydym wedi gorfod bod yn arloesol er mwyn galluogi'r gymuned i ymgysylltu mewn plismona.

O 1 Mehefin 2020 hyd fis Medi mynychais y digwyddiadau/cyfarfodydd canlynol (y mwyafrif ohonynt ar-lein):

<u>Mehefin</u>

- Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru;
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru;
- Wyth Cyfarfod Corfforaeth Undyn
- Cyfarfod CHTh y Gogledd Orllewin
- Cyfarfod Bwrdd Masnachol Bluelight
- Cyfarfod Plismona yng Nghymru
- Cyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Plismona
- Cyfarfod Adfywio'r Weledigaeth Blismona

Gorffennaf

- Cyfarfodydd Briffio gydag AS/AC Lleol
- Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru
- Bwrdd a Chyfarfod Cyffredinol CCHTh
- Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Cyfarfod PACT
- Diweddariad ar Gaethwasiaeth Fodern
- Arddangosiad Drôn

Awst

- Cyfarfod Iaith Gymraeg gyda Heddlu Gogledd Cymru
- Diweddariad Cyllid Chwarterol
- Cyfarfod o Gymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ynglŷn â'r Adolygiad Comisiynwyr Heddlu a Throsedd.
- Cyfarfod gyda Phrif Weithredwr SCHTh De Cymru am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg
- Cyfarfod â'r Gymdeithas Masnach Canabis
- Cyfarfod â Martin Blakeborough
- Cyfarfod â chynrychiolydd o Arts and Business Cymru.

Ers cyfarfod diwethaf y Panel, yn ogystal â chwrdd â chynrychiolwyr cymunedol, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, rydw i a fy Nirprwy wedi siarad ar sawl mater allweddol yn y cyfryngau. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Fears more vulnerable victims will be exploited by vicious slavers because of recession**

**Inspirational Sam gets life back on track after battling booze**

**Ex-carer Caroline speaks movingly about how her life was ripped apart by fatal crash**

**Police boss launches trial of life-saving spray for drug overdoses**

**Farmers urged to be vigilant as thieves emerge from lockdown**

**High tech crime crackdown**

**Child abuse victim speaks movingly about how charity saved her life**

**MP who blocked police boss blasted for 'dehumanizing' comments**

**Comisiynu**

Mae'r paragraff isod yn nodi pa weithgareddau comisiynu sydd wedi digwydd gyda'm Cronfeydd yn ystod y pandemig, yn rhoi trosolwg o sut y mae gwasanaethau a gomisiynir ar draws Gogledd Cymru wedi'u haddasu yn ystod y cyfnod hwn a sut yr ydym wedi ceisio cefnogi'r gwasanaethau hyn.

Bydd Aelodau'r Panel yn ymwybodol fy mod yn gyfrifol am reoli darpariaeth a pherfformiad y Gronfa Trosedd ac Anhrefn, cyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Gronfa Cefnogi Dioddefwyr Trais

Rhywiol ac yn fwy diweddar cyllid COVID-19 brys. Mae hyn yn ychwanegol at fod yn awdurdod ardystio cyllid VAWDASV Rhanbarthol a ddarperir drwy Lywodraeth Cymru.

Mae dyraniadau ariannol 2020-21 wedi'u manylu isod:

| Ffynhonnell y Cyllid | Dyraniad | Yn ychwanegol |
|---|---|---|
| **Cronfa trosedd ac Anhrefn SCHTh** | **£1,557.938.00** | |
| **Cronfa Ddioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder** | **£816,354.00** | |
| **Cronfa Argyfwng COV-19 y Weinyddiaeth Gyfiawnder** | | **£238,000.00** |
| **Cyllid cefnogi dioddefwyr trais rhywiol** | | **£33,296.00** |
| **VAWDASV** | **£419,200.00** | **£46,489.28** |
| **Cefnogi Pobl** | **£60,000.00** | |
| **Cyfalaf VAWDASC – Covid-19** | | **£308,000.00** |
| **Arian ychwanegol VAWDASV** | | **£295,000.00*** ***yn disgwyl am gymeradwyaeth*** |
| **STRYDOEDD SAFFACH – Wrecsam/Rhyl** | | **£1,067.000.00** |
| **HMPPS** | **£478,140.00** | |
| **CYFANSWM** | **£1,773,694.00** | **£1,987,785.28** |

Mae'r holl wasanaethau ar gyfer 2020 wedi'u comisiynu'n llawn ac yn cael eu darparu'n brydlon gan gadw at y gyllideb a'r proffil. Fodd bynnag mae'n bwysig amlygu y bu cynnydd sylweddol yn y gyllideb gomisiynu gan Lywodraeth Ganolog y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn darparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer gwasanaethau ar draws y rhanbarth. Mae'r tîm comisiynu wedi bod yn cydweithio â phartneriaid ar draws Gogledd Cymru er mwyn sicrhau y caiff pob gwasanaeth ei gefnogi'n llawn yn ystod y cyfnod hwn ac maent wedi gorfod gweithio o fewn terfynau amser tynn dros ben. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn adrodd i'r ddwy lywodraeth ar ran y tîm er mwyn sicrhau bod cynlluniau parhad busnes gan wasanaethau sy'n cynnwys y risgiau allweddol yn cael eu hadrodd ar sail wythnosol/misol.

Mae’r contract Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) a ddyfarnwyd i Gorwel a DASU wedi bod yn perfformio’n dda a chynhaliwyd cyfarfodydd i drafod perfformiad gyda’r ddau wasanaeth. Mae’r contractau yn rhai 2 – 5 mlynedd sy’n golygu bod modd i'r ddau sefydliad gynllunio’n effeithiol a bod ganddynt sefydlogrwydd o safbwynt staffio'r dyfodol.

Mae dau o’n gwasanaethau a gomisiynwyd wedi ennill gwobrau cenedlaethol, sef y SARC (Canolfan Atgyfeirio Dioddefwyr Ymosodiadau Rhywiol) am eu prosiect Ffilm a Phodlediad Rhannu Straeon, a DASU sydd wedi ennill gwobr Gwasanaeth Gorau gan Fusnes Micro a Bychan (Sefydliad Trydydd Sector) yn y gwobrau GO cenedlaethol. Rwy'n hynod o falch o'r ddau sefydliad am eu llwyddiannau.

Byddaf yn cynnal digwyddiad trydydd sector rhithwir ar 19 Tachwedd. Mae nodyn ‘neilltuwch y dyddiad’ wedi’i ddosbarthu i sefydliadau trydydd sector ar gyfer y digwyddiad rhithwir a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei hanfon ym mis Medi.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn mae pob prosiect wedi bod yn gweithredu o fewn ei gyllideb. Fodd bynnag mae’n bwysig nod y bydd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar berfformiad a monitro perfformiad tan fis Rhagfyr oherwydd yr amserlenni tynn a bennwyd o ganlyniad i gyllid ychwanegol COVID-19.

Bydd craffu cyson, rheoli perfformiad a sicrhau y caiff cofrestri risg eu monitro yn sicrhau ein bod yn gwbl barod i gefnogi ein cymunedau yn ystod y pandemig hwn. Cefais sicrwydd fod y tîm comisiynu wedi cadw mewn cyswllt rheolaiddâa phob gwasanaeth er mwyn gofalu eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn yn ystod y cyfnod anodd hwn.

**HMICFRS:**

**Adroddiad ‘State of Policing 2019’**

Mae tair rhan i’r adroddiad, y cyntaf yw'r trosolwg, mae'r ail yn canolbwyntio ar yr arolygon a'r trydydd ar yr adroddiadau. Mae’r wybodaeth a roddir yn ail a thrydydd rhan yr adroddiad yn ymwneud â meysydd sy’n hysbys i bob un o’r heddluoedd yn dilyn eu harolwg yn 2019. Nid yw Heddlu Gogledd Cymru’n cael sylw yng nghorff yr adroddiad ac yn cael ei grybwyll dim ond fel rhan o'r tabl canlyniadau yn rhan 2 o’r adroddiad.

Mae rhan gyntaf yr adroddiad fodd bynnag yn dilyn yn thema gyffredinol o’r angen i ddiwygio plismona.

Mae’r meysydd sy’n cael sylw o fewn y thema hon yn cynnwys:

- Gwneud defnydd da o 20,000 o swyddogion yn ychwanegol;
- Noddi’r gwasanaeth;
- Dethol a datblygu prif swyddogion;
- Cydweithio ac integreiddio rhwng heddluoedd a gwasanaethau cyhoeddus eraill; a
- Dylunio a defnyddio ymdriniaethau seiliedig ar dystiolaeth a chynaliadwy i ddatrys problemau plismona.

**Plismona'r ffyrdd: Ddim yn ddewisol**

Edrychodd Tîm Archwilio Plimona'r Ffyrdd Cenedlaethol HMICFRS ar ba mor effeithiol y mae'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru a Lloegr yn cael ei phlismona. Rhoddodd yr adroddiad sylw i bedwar maes:

1. A yw strategaethau plismona'r ffyrdd cenedlaethol a lleol yn effeithiol?
2. A yw gallu a chapasiti'n cyd-fynd â'r galw?
3. A yw'r heddlu'n ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd a phartneriaid?
4. Pa mor dda mae swyddogion wedi'u hyfforddi i fynd i'r afael â materion plismona'r ffyrdd?

Roedd yr adroddiad yn gwneud wyth argymhelliad i Brif Gwnstabliaid roi sylw iddynt. Bydd f'ymateb i i'r adroddiad a'i argymhellion yn cael ei rannu gyda'r panel yn y cyfarfod nesaf.

**Ymgynghori**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y llynedd eu bod yn bwriadu gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth ffyrdd bresennol yng Nghymru gyda'r disgwyliad y bydd heddluoedd yn gorfodi'r newidiadau hyn. Byddai hyn yn golygu galw a chostau ychwanegol i heddluoedd sydd eisoes yn gweithredu i'w llawn gapasiti. Y newidiadau arfaethedig yw:

1. Gwneud pob ardal 30mya yn 20 mya
2. Gostwng cyflymder mewn ardaloedd lle mae allyriadau uchel i 50mya
3. Dileu dosbarthiad parcio ar lwybrau troed fel trosedd – byddai hynny'n rhoi grym i Awdurdodau Lleol gymryd camau gweithredu yn erbyn gyrwyr sy'n parcio'u cerbydau ar balmentydd.

O ganlyniad i'r cynnig hwn ymgynghorydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd â phobl Gogledd Cymru er mwyn cael eu barn ar gynnig Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymgynghoriad ar ffurf arolwg ar-lein a oedd hefyd ar gael ar ffurf papur ar gais. Roedd yr arolwg ar agor rhwng 15 Gorffennaf ac 14 Awst 2020 a chafwyd cyfanswm o 1371 o ymatebion, 24 yn Gymraeg a 1347 yn Saesneg.

Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei rannu gyda'r panel yn y cyfarfod nesaf.

**Cyffuriau**

**Cynhadledd Lleisiau Coll Bywydau Coll**

Mae fy nghynhadledd 'Lleisiau Coll Bywydau Coll' wedi'i threfnu ar gyfer 2 Tachwedd 2020. Nod y gynhadledd yw codi ymwybyddiaeth o, ac ennill cefnogaeth ar gyfer rhaglen beilot 'Triniaeth â Chymorth Heroin' yng Ngogledd Cymru.

Bydd y siaradwyr yn y gynhadledd yn rhoi trosolwg eang o fanteision y fath driniaeth, profiadau personol a manylion am y wyddoniaeth y tu ôl i'r rhaglen. Mae'r prif siaradwyr yn cynnwys:

- Yr Athro Sir John Strang – Cyfarwyddwr y Ganolfan Ddibyniaeth ar Gyffuriau Genedlaethol a Phennaeth yr Adran Ddibyniaeth yn King's College, Llundain.
- Daniel Ahmed – Partner Clinigol, Foundations – canolfan Meddygon Teulu arbenigol sy'n rhoi cymorth i ddefnyddwyr cyffuriau.
- George Charlton – sefydlydd George Charlton Training and Consultancy, sy'n arbenigo mewn rhaglenni atal niwed cyffuriau ac alcohol arloesol a dynamig.

Byddaf hefyd yn lansio fy Mholisi Cyffuriau ar gyfer Gogledd Cymru yn y digwyddiad a fydd yn amlinellu fy nghynlluniau presennol ac ar gyfer y dyfodol cysylltiedig â diwygio a chefnogi.

Oherwydd yr ansicrwydd parhaus cysylltiedig â Covid-19, penderfynwyd y bydd y gynhadledd yn awr yn digwydd ar-lein er mwyn sicrhau diogelwch y siaradwyr a'r cyfranogwyr.

Bydd gwahoddiad yn cael ei anfon at y Panel unwaith y bydd y manylion wedi'u cadarnhau.

**Cronfa Strydoedd Diogelach**

Mae'r Gronfa Strydoedd Diogelach yn gronfa gwerth £25m sydd ar gael i CHTh yng Nghymru a Lloegr yn 2020/21. Gofynnwyd i CHTh weithio gyda phartneriaid i ddylunio a darparu cynlluniau atal trosedd lleol, gyda'r bwriad o leihau troseddau meddiangar drwy atal trosedd sefyllfaol. Amcanion y Gronfa yw:

- Lleihau troseddau meddiangar mewn ardaloedd sy'n derbyn y cyllid – gwneud trigolion yn fwy diogel a lleihau'r galw ar yr heddlu er mwyn canolbwyntio ar droseddau mwy cymhleth.
- Casglu tystiolaeth am effaith buddsoddiad targedig mewn ataliaeth sefyllfaol mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o droseddu er mwyn cryfhau'r achos dros fuddsoddiad yn y dyfodol ar lefel leol a chenedlaethol.
- Cynyddu'r gallu'n lleol i ymgymryd â datrys problemau ar sail data a chael gafael ar dystiolaeth a dysgu'n ymarferol am sut orau i weithredi ymyraethau sefyllfaol i atal trosedd.

Cafodd CHTh gyfle i gyflwyno hyd at dri chais wedi'u blaenoriaethu, pob un ar gyfer ardal leol ddiffiniedig yn eu hardal ddaearyddol sy'n cael ei heffeithio'n barhaus ac yn anghymesur gan droseddau meddiangar, gyda grant o hyd at £550k ar gael ar gyfer pob cais llwyddiannus.

Wrth ddewis ardal darged leol, roedd angen i CHTh sicrhau bod yr ardal yn diwallu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cyllid. Y meini prawf allweddol oedd (i) bod gan yr ardaloedd ddearyddiaeth ddiffiniedig, (ii) bod main poblogaeth yr ardaloedd hyn yn addas, (iii) bod yr ardaloedd hyn wedi'u heffeithio'n barhaus ac yn anghymesur gan droseddau meddiangar a (iv) bod yr ardaloedd hyn yn rhai preswyl gan mwyaf.

Yn eu ceisiadau mae'n rhaid i CHTh hefyd brofi bod maint y boblogaeth yn galluogi targedu digonol i wneud effaith arwyddocaol ar droseddau meddiangar yn eu hardal ddethol, ar yr un pryd a bod o ddigon o faint i gyfiawnhau'r swm y gwneir cais amdano. I wireddu hyn gofynnir yn gyffredinol bod ardaloedd yn cynnwys rhwng 500 a 3,500 o aelwydydd (neu rhwng 1,000 a 9,000 o breswylwyr).

Rhoddodd dadansoddwyr Heddlu Gogledd Cymru sylw manwl i'r data ar gyfer pob ardal yng Ngogledd Cymru a dim ond dwy ardal benodol, Gorllewin y Rhyl a Pharc Cais yn Wrecsam oedd yn diwallu'r meini prawf. Hyd yn oed wedyn, roedd y mesurau atal trosedd oedd ar gael yn benodol dros ben ac roedd yn cymryd gwaith aruthrol ar ran y timau partneriaeth i'w trosi'n atebion cyraeddadwy ac ystyrlon ar gyfer cymunedau yn ogystal ag i ddiwallu meini prawf y Swyddfa Gartref.

Roedd Gogledd Cymru'n llwyddiannus mewn ennill cyllid ar gyfer y ceisiadau sylfaenol ac eilaidd a gyflwynwyd:

**Cais Queensway - Dyfarnwyd £550,000**

Mae’r partneriaid canlynol wedi bod yn rhan o’r cais:

CHTh, Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Wrecsam a Phartneriaeth Parc Caia.

Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio ar y canlynol:

- Bydd cronfa amgylcheddol a weinyddir gan y CHTh a’r Bwrdd Prosiect yn cael ei sefydlu i roi sylw i faterion fel graffiti, torri llwyni, tynnu coed a thirlunio gerddi mewn ardaloedd cymunedol.
- Cynyddu nifer/cwmpas CTCC er mwyn sicrhau diogelwch pob preswylydd.
- Defnyddio technoleg ANPR (adnabod rhifau cerbyd yn awtomatig) i dargedu troseddwyr teithiol a grwpiau troseddau cyfundrefnol.
- Gwella gwyliadwriaeth naturiol ardaloedd drwy osod goleuadau newydd ac uwchraddio’r goleuadau sydd eisoes yno.
- Rhoi gatiau ar saith o alïau er mwyn gallu rheoli mynediad a rhoi dwy giât newydd yn lle hen rai nad ydynt o safon ddigon da.
- Dymchwel tri bloc o garejys a chreu lle parcio yn eu lle (yn amodol ar ganiatâd cynllunio).
- Codi 200 metr o ffens ychwanegol y tu allan i’r strydoedd sy’n cael eu cyllido ar hyn o bryd gan y Fwrdeistref Sirol.
- Darparu a gosod 1,000 o becynnau atal byrgleriaeth yn eiddo'r preswylwyr hynny y mae eu heiddo'n arbennig o agored i fynediad diawdurdod o'r cefn.
- Hyfforddiant ar gyfer wardeiniaid cymunedol a gwirfoddolwyr gwarchod y gymdogaeth er mwyn galluogi preswylwyr i gymryd camau drostynt eu hunain i atal trosedd.

**Cais Gorllewin y Rhyl – Dyfarnwyd £517,000**

Mae’r partneriaid canlynol wedi bod yn rhan o’r cais:

CHTh, Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych, Prosiect Rheoli Cymdogaethau Gorllewin y Rhyl a Thai Clwyd Alyn.

Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio ar y canlynol :

- Bydd cronfa ar gyfer gwella'r amgylchedd yn y cymunedau a fydd yn cael ei gweinyddu gan y CHTh a Bwrdd Prosiect yn cael ei sefydlu. Gydag arian o'r gronfa bydd y strydoedd yn cael eu glanhau'n drylwyr, arwyddion newydd yn cael eu codi, waliau cymunedol yn cael eu paentio, graffiti’n cael ei lanhau, biniau newydd yn cael eu gosod a bydd mannau cymunedol hefyd yn cael eu creu.
- Cynyddu nifer/cwmpas CTCC er mwyn sicrhau diogelwch pob preswylydd.

- Defnyddio technoleg ANPR ar y brif ffordd i mewn i Orllewin y Rhyl i dargedu troseddwyr teithiol a grwpiau trosedd cyfundrefnol, sydd yn ffactorau allweddol perthnasol i droseddau meddiangar.

- Gwella gwyliadwriaeth naturiol ardaloedd drwy osod goleuadau newydd a rhoi goleuadau newydd mewn dwy ali nad ydynt erioed wedi bod â golau.

- Darparu a gosod 626 o becynnau atal byrgleriaeth ar gyfer y cartrefi hynny yn y parthau dynodedig sydd naill ai wedi dioddef trosedd neu sy'n agos iawn at eiddo sydd wedi dioddef trosedd (ffigwr wedi'i gyfrifo ar sail data'r 3 blynedd ddiwethaf).

- Hyfforddiant ar gyfer Pencampwyr Cymunedol er mwyn galluogi preswylwyr i gymryd camau drostynt eu hunain i atal trosedd.

Rydym wrth ein bodd â llwyddiant y ddau gais partneriaeth ac rwy'n ymrwymedig o hyd i ddarparu cymdogaethau diogelach ar gyfer pob un o gymunedau Gogledd Cymru

**Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru**

Yn dilyn cwblhad a chyhoeddiad adroddiad y Comisiwn Ieuenctid (gweler y dolenni isod), rwyf wedi dwyn yr adroddiad i sylw'r partneriaid statudol sy'n aelodau o'r Bwrdd Cymunedau Diogelach.

Cymraeg: https://www.northwales-pcc.gov.uk/Document-Library/Working-in-Partnership/North-Wales-Youth-Commission-Final-Report-to-the-Police-and-Crime-Commissioner-for-North-Wales-CY-April-2020.pdf

Saesneg: https://www.northwales-pcc.gov.uk/Document-Library/Working-in-Partnership/North-Wales-Youth-Commission-Final-Report-to-the-Police-and-Crime-Commissioner-for-North-Wales-ENGLISH-April-2020.pdf

Yn dilyn fy niweddariad blaenorol, mae'r Panel Heddlu a Throsedd wedi cael cyfle i ddarllen ac ystyried argymhellion y Comisiwn Ieuenctid. Byddwch wedi nodi bod i lawer o'r argymhellion oblygiadau llawer ehangach na phlismona yn unig. Mae'r argymhellion cysylltiedig â materion troseddu a phlismona'n aml yn amodol ar wasanaethau eraill. Er enghraifft mae'r heddlu'n aml yn dod i gysylltiad â phobl ifanc sy'n profi argyfwng iechyd meddwl. Fel gydag oedolion, materion iechyd yn hytrach na throseddol yw digwyddiadau o'r fath. Mae arnom angen cyfranogiad gweithredol y gwasanaethau iechyd i gefnogi pobl ifanc er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd argyfwng yn digwydd yn y lle cyntaf.

Rwy'n gwerthfawrogi nad yw'r materion a godir gan y Comisiwn Ieuenctid bob amser yn hawdd mynd i'r afael â nhw, fodd bynnag dylai'r heddlu a'n partneriaid fod yn gweithio gyda'i gilydd i geisio gwella gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc a byddaf yn parhau i godi ymwybyddiaeth cydweithwyr a gwasanaethau statudol eraill o anghenion a diogelwch pobl ifanc.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi dechrau edrych ar y materion y gellir eu symud yn eu blaen (ac mae nifer ohonynt eisoes yn digwydd). Rhan bwysig o'r gwaith hwn yw sefydlu trefniant parhaol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â phobl ifanc. Mae fy swyddfa'n gweithio gyda'r Heddlu ar hyn, yn ogystal a monitro a chefnogi rhagor o weithredu er mwyn diwallu a/neu gyfrannu tuag at yr argymhellion a wnaed.

Byddaf yn parhau i roi diweddariadau ar gynnydd i'r Panel.

**Checkpoint**


Aeth y rhaglen yn fyw ar 9 Rhagfyr 2019 ac ers hynny, hyd 30 Mehefin, roedd 303 o atgyfeiriadau i Checkpoint.

- 135 wedi cwblhau'n llwyddiannus hyd 30 Mehefin.
- 21 yn aflwyddiannus
- 147 yn dal ar y rhaglen ac yn gweithio tuag at eu contract/cynllun gofal ac yn rhoi sylw i'w problemau gwaelodol

Mae 28 o ddigwyddiadau wedi'u neilltuo i Checkpoint Cymru HGC ers 1 Ebrill.

Mae 3 digwyddiad yr wythnos ar gyfartaledd yn cael eu cyfeirio at Checkpoint Cymru, gyda dros hanner yn dod o'r ardal Ganolog a 60% o'r rhain yn gysylltiedig â throseddau cyffuriau.

*Nifer y digwyddiadau wythnosol sy'n cael eu cyfeirio i Checkpoint Cymru*




O ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19 addaswyd y Rhaglen Addysg Cyffuriau i'w darparu dros y ffôn mewn 3 sesiwn, ochr yn ochr â llenwi llyfr gwaith yn ymwneud â chanabis.

Gweithiodd y 9 Llywiwr o'u cartrefi hyd ddiwedd mis Gorffennaf ac ers hynny maent wedi ailafael yn raddol ar weithio o'r gorsafoedd er mwyn galluogi rhywfaint o gyswllt wyneb yn wyneb, yn benodol ar gyfer asesiadau newydd a'r rhai mwyaf bregus.

Mae gwaith yn awr ar y gweill i ddod o hyd i ystafelloedd cyfarfod / cynadledda sydd wedi'u hasesu fel bod yn addas ar gyfer dal grŵp bach o bobl yn ddiogel yn unol ag amodau diogelwch COVID-19 er mwyn darparu'r Rhaglen Addysg Cyffuriau wreiddiol sydd wedi'i dylunio i'w chyflwyno mewn dosbarth.

**Penderfyniadau:**

Mae gen i Bolisi Penderfyniadau sy'n gofyn fod swyddogion a staff yn cyflwyno achosion busnes ar gyfer prosiectau a gwariant arfaethedig er f'ystyriaeth a'm cymeradwyaeth, mae'r achosion busnes hyn wedi eu crynhoi mewn Hysbysiad Penderfyniadau a gyhoeddir ar fy ngwefan. Fe welwch isod y penderfyniadau allweddol a wnes i rhwng 1 Ebrill a 31 Gorffennaf 2020.

| Crynodeb o'm **Penderfyniadau** |
|---|
| **Cyfraniad i'r Rhwydwaith Genedlaethol Gwrth Fasnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern**<br><br>Gofynnwyd i bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu wneud cyfraniad o £10,000 i gefnogi Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern y Rhwydwaith Genedlaethol Gwrth Fasnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern.<br><br>O ystyried fod Heddlu Gogledd Cymru yn fach, yn cynrychioli ychydig dros 1% o boblogaeth y DU, penderfynais gyfrannu £2,500, i'w ariannu o'r Gronfa Trosedd ac Anhrefn. Rwyf wedi cymeradwyo'r cyfraniad ar gyfer 2020/21 yn unig. |
| **Dirprwyo Awdurdod**<br><br>Fi yw'r Awdurdod Priodol ar gyfer ystyried cwynion am y Prif Gwnstabl a hefyd y Corff Adolygu Priodol i ystyried rhai cwynion sydd wedi cael sylw gan Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu. Gyda rhai mathau penodol o achosion, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yw'r corff adolygu priodol.<br><br>Er mwyn sicrhau gwydnwch wrth ddelio â'r achosion hyn, rwyf wedi awdurdodi fy Mhrif Weithredwr/Swyddog Monitro i gynorthwyo yn ôl yr angen â'r cwynion a'r adolygiadau hyn. |
| **Cynnwys y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn y Llawlyfr Llywodraethu.**<br><br>Cynhaliwyd adolygiad o lywodraethiad corfforaethol fy swyddfa i a Heddlu Gogledd Cymru y llynedd.<br><br>Un o ganlyniadau'r adolygiad oedd ychwanegiad y Cod Llywodraethu Corfforaethol at y Llawlyfr Llywodraethu.<br><br>Mae hyn wedi'i gwblhau ac wedi cael fy nghymeradwyaeth; mae'r Llawlyfr Llywodraethu ar gael ar fy ngwefan |
| **Grant Dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2020/21**<br><br>Bob blwyddyn rwy'n cael arian gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gomisiynu gwasanaethau lleol a fydd yn helpu dioddefwyr, tystion neu bobl eraill y mae troseddau neu ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi effeithio arnynt.<br><br>Yn seiliedig ar yr achosion busnes a gyflwynwyd i mi rwyf wedi rhannu cyfanswm o **£802,260.25** fel y nodir isod: |

| **Derbynnydd** | **Cyfanswm £:** | **Gwasanaeth a Phwrpas** |
|---|---:|---|
| Cymorth i Ddioddefwyr | 361,602.00 | Ar gyfer comisiynu Canolfan Cymorth Dioddefwyr i ddarparu cymorth ar gyfer dioddefwyr trosedd. |
| Grŵp Cynefin | 84,886.00 | Ar gyfer cefnogi'r Gwasanaeth Cam-drin Domestig Rhanbarthol Annibynnol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. |
| Uned Diogelwch Cam-drin Domestig | 196,772.25 | Ar gyfer cefnogi'r Gwasanaeth Cam-drin Domestig Rhanbarthol Annibynnol yn Sir Ddinbych, Conwy, Sir y Fflint a Wrecsam. |
| Canolfan Atgyfeirio Dioddefwyr Troseddau Rhyw, BIPBC | 120,000.00 | I gyflogi 2 Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol (SVA) llawn amser. Bydd y cyfraniad hwn yn cefnogi darpariaeth Ymgynghorydd Trais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc dyrchafedig. |

| | | |
|---|---|---|
| Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhyw | 39,000.00 | I ddarparu cefnogaeth a chwnsela ar gyfer dioddefwyr ifand trais rhywiol a cham-drin plant yn rhywiol. |
| | | |

**Plant Sydd Wedi'u  Heffeithio gan Garchariad Rhiant (CAPI)**

Rwyf wedi penderfynu parhau i gyfrannu'n ariannol at y Prosiect Plant Sydd Wedi'u Heffeithio gan Garchariad Rhiant. Mae £9,500 ar gael o'r Grant Lleihau Troseddau ac Anhrefn i gefnogi'r gwaith arloesol hwn.  Mae'r cyfraniad hwn yn cefnogi dwy swydd, Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol a Swyddog Rhaglen.

Pwrpas y prosiect amlasiantaeth hwn yw gwella dealltwriaeth o sefyllfa bresennol plant a theuluoedd a effeithir gan garchariad yng Ngogledd Cymru, adnabod y plant hynny a chynyddu mynediad at gymorth.

**Prosiect mentrau atal trosedd Crimestoppers yng Ngogledd Cymru.**

Mae cyfraniad o £15,000 wedi'i gymeradwyo o'm Cronfa Trosedd ac Anhrefn i gefnogi swydd Rheolwr Rhanbarthol Crimestoppers ar gyfer rhanbarth y Gogledd Orllewin.

Pwrpas y prosiect hwn yw cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth gymunedol yn unol â'r blaenoriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.  Mae'n anelu at rymuso unigolion a phlant diamddiffyn a'r gymuned drwy ennyn eu hyder i roi gwybodaeth i'r elusen yn ddienw. Gall annog cymunedau i riportio troseddau yn gynnar wneud gwahaniaeth o ran lleihau trosedd ac anhrefn mewn ardal.

**Corff Atebol Gogledd Cymru ar Drais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywio (VAWDASV).**

Yn dilyn cynnig yng nghyfarfod Bwrdd VAWDASV Gogledd Cymru, penderfynwyd mai Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (OPCC) ddylai fod yn gorff atebol (Bancwr Rhanbarthol) ar gyfer darparu gwasanaethau Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) ar draws yr ardal.  Mae'r cyllid ar y cyd ar gyfer 2020/21 yn cynnwys y cyllid cyfredol gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r grant VAWDASV (a dalwyd gynt i'r Awdurdodau Lleol) sydd i'w cyfuno i un pot i warchod yr IDVA, ISVA, CSA, a rhaglenni troseddwyr yn y chwe awdurdod lleol.

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r trefniant hwn; bydd y gwaith yn cael ei wneud gan fy staff cyllid a chomisiynu.

**Cymorth i Ddioddefwyr – Gweithiwr Achos Twyll**

Mae cyfraniad o £15,479 wedi'i wneud o Gronfa Lleihau Trosedd ac Anhrefn 2019/20 a chyfraniad arall o £27,862 o Gronfa Trosedd ac Anhrefn 2020/21 i gefnogi rôl y Gweithiwr Achos Twyll yn y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr.

Pwrpas y rôl yma yw darparu gwasanaeth rheng flaen i ddioddefwyr twyll yng Ngogledd Cymru, gan roi cefnogaeth o safon uchel, hygyrch a pherthnasol ar gyfer dioddefwyr twyll drwy sgwrs ffôn neu Sgwrs Fyw . Bydd y rôl hefyd yn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad at ragor o gefnogaeth a gwybodaeth, yn unol â'u hanghenion a'u hoffterau.  Bydd y gweithiwr achos twyll yn gweithio'n agos a'r tîm twyll ariannol  yn Heddlu Gogledd Cymru er mwyn rhoi diweddariadau amserol, effeithiol a bod yn gyswllt rhwng y gwasanaethau cymorth a'r ymchwiliad.

Y rôl hon yw'r cyntaf o'i math o fewn gwasanaethau  dioddefwyr ar draws  DU a bydd yn rhoi cefnogaeth annibynnol i ddioddefwr twyll gan ddarparu pwynt cyswllt penodol ar eu cyfer ynghyd â rheolaeth achos o'r dechrau i'r diwedd.

**Checkpoint Cymru**

| |
|---|
| Cynllun dargyfeirio gwirfoddol ar gyfer oedolion sydd wedi troseddu yw CheckPoint Cymru. Mae'n targedu mân droseddwyr sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol ac yn rhoi dewis arall yn lle erlyniad troseddol iddynt. Y dewis amgen yw rhaglen 4 mis sy'n ceisio adnabod a delio â'r hyn a achosodd yr ymddygiad troseddol. Os nad yw'r troseddwr yn cwblhau'r rhaglen, neu os yw'n methu bodloni'r gofynion, bydd yn dychwelyd i'r system cyfiawnder troseddol ac yn wynebu erlyniad.<br><br>Mae'n rhaglen amlasiantaeth sy'n gwella ymwybyddiaeth a mynediad unigolion yn nalfeydd yr heddlu, neu sy'n cyflwyno eu hunain yn wirfoddol, at wasanaethau iechyd gyda'r nod o wella iechyd y cyhoedd, cyfleoedd bywyd a lles unigolion a chymunedau. Bydd hefyd yn darparu mynediad at wasanaethau sy'n cynnig cefnogaeth ymarferol. Mae gan y rhaglen y potensial i leihau derbyniadau i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, drwy godi ymwybyddiaeth o, a mynediad at ddarpariaethau seiliedig ar iechyd.<br><br>Rwyf wedi cymeradwyo cyllid gwerth £343,086.50 o Gronfa Trosedd ac Anhrefn 2020/21 i gefnogi'r gwaith arloesol hwn.<br><br>Bydd y gwaith hwn yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Craffu Checkpoint lle bydd diweddariadau ar berfformiad yn cael eu cyflwyno. |
| **Canolfan Cymorth Dioddefwyr – Gweithiwr Achos Caethwasiaeth Fodern**<br><br>Rwyf wedi cymeradwyo cais am gyllid gwerth £38,376.00 o Grant Trosedd ac Anhrefn 2020/21 i gefnogi swydd Gweithiwr Achos Caethwasiaeth Fodern yn y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr. Pwrpas y rôl hon yw rheoli cyswllt â dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern yng Ngogledd Cymru. Bydd y Gweithiwr Achos yn gweithio ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru a BAWSO - sefydliad annibynnol ar y llywodraeth (NGO). Bydd y swydd yn adnabod ac yn rheoli anghenion gwasanaeth uniongyrchol y dioddefwr ac yn cyfrannu at y broses asesu risg.<br><br>Y rôl hon yw'r cyntaf o'i math mewn gwasanaethau dioddefwyr ar draws DU a bydd yn rhoi cefnogaeth annibynnol i ddioddefwr Caethwasiaeth Fodern gan ddarparu pwynt cyswllt penodol ynghyd â rheolaeth achos o'r dechrau i'r diwedd.<br><br>Bydd y rôl hon a'i heffaith yn cael eu monitro drwy ddata perfformiad chwarterol, arolygon bodlonrwydd defnyddwyr, astudiaethau achos a gwybodaeth reoli ac yn cael ei monitro drwy gyfarfodydd adolygu contractau'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr. |
| **Brake, yr elusen diogelwch y ffyrdd**<br><br>Mae taliad o £2,500 wedi'i gymeradwyo ar gyfer Brake yn 2020/21. Bydd hyn yn cefnogi'r Elusen i ddarparu gwasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer y rhai hynny sydd mewn profedigaeth oherwydd gwrthdrawiadau ar y ffyrdd yng Ngogledd Cymru. Defnyddir y gwasanaeth hwn yn rheolaidd gan Heddlu Gogledd Cymru sy'n rhoi adborth cadarnhaol am y gwasanaethau y mae Brake yn eu cynnig ac yn gweld gwerth mawr ynddynt.<br><br>Cynhyrchir a dosberthir pecynnau profedigaeth o ganlyniad i wrthdrawiadau ar y ffordd i Swyddogion Cyswllt Teuluol i'w defnyddio i gefnogi teuluoedd. Mae Brake hefyd yn cynnig cefnogaeth, hyfforddiant ymwybyddiaeth ac arweiniad i Swyddogion Cyswllt Teuluoedd. |
| **Prosiect Pathfinder i Ferched 2020/21**<br><br>Mae'r cynllun Pathfinder i Ferched yn gynllun dargyfeirio a gomisiynwyd i helpu a chefnogi merched i leihau aildroseddu. Drwy ddeall y rhesymau sylfaenol dros eu hymddygiad troseddol bydd Pathfinder yn dargyfeirio merched rhag troseddu drwy ddarparu cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad.<br><br>Bydd y Prosiect Pathfinder i Ferched yn darparu ymyraethau ar gyfer merched sy'n cael eu cyfeirio iddo drwy'r gwasanaeth Checkpoint Cymru mewn dalfeydd fel dewis arall yn lle cyhuddiad o drosedd lefel isel. Mae'r gwasanaeth hefyd yn derbyn merched sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r system Cyfiawnder Troseddol a gellir atgyfeirio merched drwy rai asiantau neu gallant hunan-atgyfeirio mewn rhai amgylchiadau. |

Mae taliad o  £178,249.50 wedi'i gymeradwyo o Grant Lleihau Troseddau ac Anhrefn 20/21 i gefnogi'r gwaith arloesol hwn.

**Relate – Rhaglen Dewis Newid Cyflawnwyr Trosedd**

Rwyf wedi cymeradwyo cyfraniad o £6,150,00 i'r Rhaglen Dewis Newid Cyflawnwyr Troseddau. Mae'r Rhaglen yn darparu ymyraethau sydd wedi'u hachredu gan RESPECT i roi sylw i gamdriniaeth ddomestig. Mae'r prosiect yn darparu rhaglen gwaith grŵp i roi cyfle i ddynion sydd wedi cam-drin eu partneriaid mewn perthynas agos i newid, yn ogystal â gwasanaeth cymorth ar gyfer cyn bartneriaid y dynion hyn.

Amcanion y gwasanaeth yw cynyddu diogelwch merched a phlant drwy leihau lefel y gamdriniaeth ddomestig y maent yn ei phrofi, lleihau nifer yr achosion o gamdriniaeth ddomestig, niferoedd dioddefwyr dro ar ôl tro a dioddefwyr newydd.

Mae dwy elfen y gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd i ennill dealltwriaeth lawn o'r risgiau ym mhob achos a sefydlu cynlluniau rheoli risg grymus. Mae'r gwasanaeth yn chwarae rhan weithredol yn yr ymateb amlasiantaeth i gamdriniaeth ddomestig gan roi gwybodaeth am risg y cyflawnwyr a'u hymgysylltiad â MARAC, ADAPT, VAWDASV ac arenâu Diogelu

**Gwasanaeth Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol**

Cymeradwyo £60,037.25 o'r Gronfa Trosedd ac Anhrefn i DASU Gogledd Cymru Cyf i ddarparu'r gwasanaeth ar draws Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae IDVA yn gweithio i helpu pobl sydd mewn perygl uchel o drais a chamdriniaeth domestig gan eu partneriaid agos, cyn bartneriaid neu aelodau o'u teulu a cheisio sicrhau eu diogelwch nhw a diogelwch eu plant. Byd y gwasanaeth ar gael ar gyfer pob cleient sydd wedi'u heffeithio gan gamdriniaeth ddomestig beth bynnag eu rhyw, rhywioldeb, ethnigrwydd neu anabledd.

Bydd DASU Gogledd Cymru Cyf yn gweithio mewn partneriaeth agos â gwasanaethau perthnasol eraill i gefnogi darpariaeth hollgynhwysfawr er mwyn siapio cyfeiriad VAWDASV Gogledd Cymru wrth symud tua'r dyfodol.

**Cyllid Covid y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2020/21**

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gwneud dyraniad ychwanegol o £238,000.000 i gefnogi gwasanaethau yn ystod y pandemig COVID 19. Bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y costau ychwanegol y mae elusennau cofrestredig neu fentrau cymdeithasol wedi eu cael neu y byddant yn eu cael yn ystod y pandemig ac i ymdopi a'r cynnydd mewn galw yn deillio o hynny.

Rwyf wedi cymeradwyo rhannu'r cyllid canlynol:

| Derbynnydd | Swm | Gwasanaeth a Phwrpas |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cam-drin Domestig a gomisiynwyd eisoes | | |
| Grŵp Cynefin | £47,600.00 | I barhau i gefnogi dioddefwyr Cam-drin Domestig yn ystod COVID 19 |
| Uned Diogelwch Cam-drin Domestig Gogledd Cymru | £71,400.00 | |
| Gwasanaethau Trais Domestig sydd eisoes wedi'u comisiynu a'r rhai hynny nad ydynt wedi'u hariannu gan y swyddfa hon ar hyn o bryd. | | |
| Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol – RASAC | £29,750.00 | I barhau i gefnogi dioddefwyr Cam-drin Domestig yn ystod COVID 19 |
| Meini Hirion | £29,750.00 | |
| Gwasanaethau Cam-drin Rhywiol nad ydynt wedi'u comisiynu gan y CGTh ar hyn o bryd. | | |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cam-drin Domestig Aberconwy | £15,960.60 | I barhau i ddarparu / dod o hyd i lety brys, cymorth a gwybodaeth cwnsela ar gyfer dioddefwyr Camdriniaeth Ddomestig yn ystod COVID 19. |
| Cymorth i Ferched Cymdeithas Tai Clwyd Alyn | £28,697.40 | |
| Canolfan Merched Gogledd Cymru | £14,842.00 | I barhau i ddarparu ymyraethau arbenigol, arweiniad a chyngor ar gyfer merched sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig neu drais rhywiol yn ystod COVID-19. |

**Ad-daliad o £201,219.63 i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Roedd gan Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gytundeb i gydweithio ar weithrediad System Rheoli Cyfathrebiadau Integredig (SRhCI), a thalodd y Gwasanaeth Tân £244,444.65 i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i'r diben hwnnw.

Wedi hynny penderfynodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wneud ei drefniadau ei hun ar gyfer gweithrediad y system a gofynnodd am yr arian yn ôl.

Ar ôl tynnu'r treuliau a gafodd Heddlu Gogledd Cymru am gostau sy'n uniongyrchol briodoledig i'r Gwasanaeth Tân, byddaf yn ad-dalu £201,219.63.

**Canolfan Atgyfeirio Dioddefwyf Ymosodiadau Rhyw**

Cafwyd cyllid ychwanegol o £76,824.00 o'r Grant Cymorth i Ddioddefwyr a ddarperir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) wedi'i leoli yn y Ganolfan Atgyfeirio Dioddefwyr Ymosodiadau Rhyw (SARC) am gyfnod o ddwy flynedd. Mae'r SARC yn darparu cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol, yn blant ac oedolion, eu teuluoedd ac eraill arwyddocaol. Mae'r gwasanaeth ISVA wedi sefydlu llwybrau ar gyfer rhyng-gyfeirio gyda llawer o asiantaethau ac mae'n gweithio'n gyson i ddarparu gwasanaethau effeithiol ar gyfer unigolion a'u teuluoedd.

I gael rhagor o wybodaeth am y penderfyniadau a wnaed a'r polisi sy'n cefnogi'r broses hon ewch i fy ngwefan.

**TRAFODION CYFREITHIOL**

Yn ychwanegol at y penderfyniadau a restrir uchod mae'n ofynnol i mi hefyd gymeradwyo Contractau, Trafodion Eiddo a Hepgor Rheolau Sefydlog. Rhoddwyd y wybodaeth hon gerbron y Cyd-bwyllgor Archwilio yn eu cyfarfod diwethaf ar 30 Gorffennaf 2020.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad diweddaraf ar gyfer y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2020 yma.

**CWYNION A PHRYDERON**

Fi yw'r awdurdod priodol ar gyfer ymdrin â chwynion am y prif gwnstabl, ac ers 1 Chwefror 2020 y corff priodol ar gyfer adolygu rhai cwynion a ymdrinnir â nhw gan Heddlu Gogledd Cymru. Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu sy'n goruchwylio'r holl ddyletswyddau statudol hyn. Ni chodwyd unrhyw bryderon.

Rwy'n parhau i graffu ar yr Adran Safonau Proffesiynol i sicrhau bod gan yr Heddlu strwythur rheoli effeithiol ac effeithlon yn ei le. Mae'r craffu hwn yn cael ei wneud drwy gyfrwng y Bwrdd Safonau Proffesiynol sy'n cael ei gadeirio gan fy Mhrif Weithredwr.

**YMWELD Â DALFEYDD**

Mae arnaf ddyletswydd statudol i fod â chynllun yn ei le i alluogi aelodau annibynnol o'r gymuned i wirio lles unigolion sydd yn nalfeydd yr heddlu.

Yn ystod y flwyddyn berfformiad ddiwethaf rhwng 1 Ebrill a 30 Mawrth 2020, cynhaliwyd cyfanswm o 121 o ymweliadau annibynnol a siaradwyd â 305 o garcharorion.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn roedd yn rhaid gohirio'r holl ymweliadau corfforol â dalfeydd oherwydd COVID-19 a bu'n rhaid cynnal gwiriadau lles dros y ffôn yn unig. Ni chodwyd unrhyw bryderon yn ystod y cyfnod hwn. Ers 1 Awst, mae cyfweliadau corfforol â'r dalfeydd wedi dechrau eto. Mae'r asesiadau risg a'r gwiriadau perthnasol wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod modd cynnal yr ymweliadau â dalfeydd yn ddiogel.

**Gohebiaeth:**

Gohebiaeth o 1 Ebrill 2020 tan 31 Gorffennaf 2020:

| **Categori'r Ohebiaeth** | **Nifer** |
|---|---|
| Gohebiaeth yn benodol i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd | *187* |
| Ceisiadau am wybodaeth berthnasol i Covid-19 | 237 |
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 19 |
| Gohebiaeth gyffredinol - gan gynnwys papurau ar gyfer cyfarfodydd a gwybodaeth gyffredinol | 321 |
| Gwahoddiadau | 55 |
| Cwynion yn cynnwys eu hadolygu* | 56 |
| Cyfeiriwyd at Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Cyfeiriwyd at yr Adran Safonau Proffesiynol | 65<br><br>38 |

(*sawl e-bost gan yr un bobl)

**1 Medi 2020**

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

EITEM RHAGLEN 9b

# Adroddiad Blynyddol

# 2019/20






# Cynnwys

3 Cyflwyniad

5 Gweithio mewn partneriaeth effeithiol

10 Gwneud gwahaniaeth

16 Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

22 Blwyddyn o ymgysylltu

27 Blaenoriaethau Strategol y Cynllun Heddlu a Throsedd – Adroddiad Cynnydd 2019/20

34 Crynodeb o Ganlyniadau

46 Ariannu a Chyllid

# Cyflwyniad

Croeso i fy Adroddiad Blynyddol 2019-20, sy'n edrych ar y cyfnod o fis Ebrill 2019 tan fis Mawrth 2020[1].

Hwn oedd i fod fy adroddiad blynyddol olaf cyn etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CHTh) ym mis Mai 2020. Gohiriwyd yr etholiadau hyn am 12 mis oherwydd pandemig y coronafeirws.

Gorfodwyd cyfyngiadau symud ar y DU ar 23 Mawrth 2020. Am fanylion pellach ar fy ymateb i, ac ymateb Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) a Heddlu Gogledd Cymru i'r coronafeirws, darllenwch fy nghynllun ymateb yma.

Cymaint yw graddfa'r her a berir gan y pandemig, ar ddechrau'r adroddiad blynyddol hwn rwyf eisiau mynegi fy niolch cywiraf a thalu teyrnged i holl swyddogion, staff, swyddogion gwirfoddol a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru sydd wedi ymateb mor gadarnhaol i'r amgylchiadau hynod hyn. Rwyf hefyd yn dymuno estyn fy niolch i gymunedau Gogledd Cymru am lynu at y rheoliadau a osodwyd yn eu lle ac am eu cefnogaeth i ymateb yr Heddlu i'r argyfwng.

Mae'r adroddiad blynyddol unwaith eto yn rhoi diweddariad ar gynnydd cyffredinol yn erbyn cyflawni blaenoriaethau strategol fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Cafodd fy nghynllun ei lunio ar ystod eang o wybodaeth sy'n cael ei adlewyrchu mewn pum maes blaenoriaeth allweddol:

- **Cam-drin Domestig**
- **Caethwasiaeth Fodern**
- **Troseddau Rhywiol**
- **Trosedd Difrifol a Threfnedig**
- **Cyflawni Cymdogaethau Diogelach**

Tra fy mod yn rhoi'r un cymaint o bwys ar y pum blaenoriaeth strategol, mae'r thema gyffredinol o ***'leihau camfanteisio troseddol ar bobl fregus'*** yn cael ei amlygu unwaith eto drwy gydol yr adroddiad hwn. Bydd y blaenoriaethau hyn yn aros am y flwyddyn i ddod cyn yr etholiadau sydd wedi'u haildrefnu ym mis Mai 2021. Roedd 2019/20 yn flwyddyn lwyddiannus arall i Heddlu Gogledd Cymru sy'n parhau i gyflawni gwasanaeth plismona rhagorol i'n cymunedau yn ystod amseroedd heriol. Mae sawl enghraifft o'i lwyddiant wedi'u cynnwys o fewn yr adroddiad hwn, gan gynnwys Ymgyrch Tide. Ymgyrch Tide oedd yr enw a roddwyd i ymgyrch Trosedd Difrifol a Threfnedig a welodd 24 gwarant yn cael eu gweithredu ledled ardaloedd Gogledd Cymru, Glannau Mersi a'r Alban (Police Scotland) ym mis Medi 2019. Roedd yr ymgyrch hon yn cynnwys dros 300 o swyddogion a staff. Roedd yn benllanw bron i 12 mis o waith. Roedd y Grŵp Trosedd Trefnedig a gafodd ei drechu drwy'r ymgyrch hwn yn gyfrifol am gyflenwi Heroin a Chocên yn ardal Glannau Dyfrdwy o'r heddlu drwy Linell Gyffuriau. Ymgyrch Tide oedd yr ymgyrch fwyaf o'i bath a ymgymerwyd erioed gan Heddlu Gogledd Cymru. Rwyf yn cymeradwyo'r holl swyddogion a staff a oedd yn ymwneud â hi.




**Arfon Jones**, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Roedd 2019/20 hefyd yn flwyddyn arbennig o lwyddiannus i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Roedd lansio ein cynllun atgyfeirio sef Checkpoint Cymru, diwygio'r gwasanaeth Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol ledled Gogledd Cymru, comisiynu gwasanaeth cymorth cyffuriau ac alcohol newydd a sefydlu Comisiwn Ieuenctid cyntaf Gogledd Cymru ond yn rhai o'r cyflawniadau nodedig eleni.

[1]Gall digwyddiadau o bwys sydd wedi digwydd rhwng 1 Ebrill 2020 a phryd yr ysgrifennwyd hwn gael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Yn adroddiad blynyddol y llynedd, fe ysgrifennais “Mae’r hinsawdd ariannol yn parhau i fod yn heriol iawn wrth gwrs, er wrth ysgrifennu hwn rwyf yn eithaf hyderus bod y llanw yn troi a bod y Llywodraeth yn cydnabod bod y toriadau ariannol i blismona ers dros ddegawd wedi mynd yn rhy bell ac yn rhy ddwfn”. Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Ymgyrch Uplift. Addewid oedd hwn i recriwtio 20,000 o swyddogion ychwanegol yn genedlaethol ar gyfer y rheng flaen dros y 3 blynedd nesaf. Fel rhan o’r cymhelliant hwn, bydd Heddlu Gogledd Cymru yn gweld hyd at 250 o swyddogion ychwanegol yn cael eu recriwtio dros y cyfnod hwn. Mae hyn yn ychwanegol at y niferoedd rhagamcanol sydd eu hangen i gymryd lle swyddogion sy’n gadael (mae’r ffigwr presennol eto i’w gadarnhau pan ysgrifennwyd hwn). Yn nhon gyntaf y cynnydd cenedlaethol, derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru nawdd am 62 swyddog heddlu ychwanegol. Roedd gan Heddlu Gogledd Cymru eisoes ffenest recriwtio arfaethedig ar gyfer mis Hydref 2019 sydd wedi galluogi recriwtio’r swyddogion ychwanegol hyn yn sydyn. Mae disgwyl i’r holl swyddogion fod yn eu swyddi erbyn diwedd mis Mehefin 2020.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwelwyd newidiadau yn nhîm prif swyddogion Heddlu Gogledd Cymru. Penodwyd Sacha Hatchett fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol newydd Heddlu Gogledd Cymru ar 23 Ebrill 2019. Sacha yw’r Prif Swyddog benywaidd cyntaf i gael ei phenodi yng Ngogledd Cymru. Dychwelodd i’w heddlu cartref lle’r oedd wedi rhoi dros 20 mlynedd o wasanaeth yr wythnos ganlynol, ar ôl gweithio dros dro fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn Swydd Gaer ers mis Rhagfyr 2017. Mae Sacha wedi bod yn y swydd ers blwyddyn bellach ac mae’n gyfrifol am drosedd a’r gwaith gweithredol. Penodwyd Seb Phillips yn Gyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau newydd Heddlu Gogledd Cymru ym mis Tachwedd 2019.

Fe wnaeth fy Nirprwy, Ann Griffith, adael y rôl yn ddiweddar hefyd wedi i’w chytundeb tymor penodol ddod i ben. Hoffwn ddiolch i Ann am ei gwaith a’i chefnogaeth ers cael ei phenodi yn 2016. Dymunaf yn dda iddi yn y dyfodol.

Hoffwn hefyd ddiolch i’r Panel Heddlu a Throsedd am eu cyfraniad parhaus wrth lywodraethu plismona yng Ngogledd Cymru. Mae bod yn ddidwyll, yn dryloyw ac yn atebol yn parhau i fod yn bwysig iawn i mi. Wrth i mi ysgrifennu hwn, rwyf yn dal i ddisgwyl cadarnhad fy mod unwaith eto wedi cael fy nghydnabod gan CoPACC gyda’u Gwobr Tryloywder ar gyfer 2019. Pe byddai ein cais yn llwyddiannus, ac rwyf yn llwyr ddisgwyl y bydd, hon fydd y 4edd flwyddyn yn olynol. Bydd hwn yn gyflawniad aruthrol y bydd fy swyddfa a minnau yn falch iawn ohono. Fy mwriad yw parhau i gynnal y lefel uchel hon o atebolrwydd ac mae’r adroddiad hwn yn adlewyrchu’r ymrwymiad hwnnw.

Y flwyddyn sydd i ddod (2020/21) fydd fy mlwyddyn olaf i yn y cyfnod swydd hwn cyn yr etholiadau sydd wedi’u haildrefnu ym mis Mai 2021. Mae fy llwyddiannau hyd yn hyn wedi eu gosod yn yr adroddiad hwn, ond mae hyn i raddau helaeth oherwydd cefnogaeth ardderchog holl swyddogion, staff a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru a’r tîm bach sy’n gweithio yn fy swyddfa.



**Arfon Jones,** Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru



# Gweithio mewn partneriaeth effeithiol

Mae llawer o'r heriau rwyf yn eu hwynebu fel CHTh yn rhai na all yr heddlu ymdrin â nhw ar ei ben ei hun ac felly mae gofyn am bartneriaeth ddyfeisgar ac effeithiol i wneud gwir wahaniaeth.

Mae gennyf **dîm bach o staff ymroddedig** sy'n gweithio gyda mi a'r Heddlu i sicrhau bod y Cynllun Heddlu a Throsedd yn cael ei gyflawni a bod fy holl ofynion statudol yn cael eu bodloni. Mae'r tîm yn cynnwys dau swyddog statudol, sef y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Cyllid, a staff cymorth sy'n arbenigo mewn ymchwil, polisi, llywodraethu, cyllido, comisiynu a chyfathrebu. Mae llawer o ddyletswyddau nad ydynt yn cael eu hadrodd amdanynt yn rheolaidd. Er enghraifft ymateb i adroddiadau AHEM, Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, trefnu tribiwnlysoedd apeliadau'r heddlu, hwyluso cynadleddau, recriwtio a chynnal Pwyllgor Archwilio yn ogystal â recriwtio Aseswyr Annibynnol ac Ymwelwyr y Ddalfa. Ceir manylion llawn o'r strwythur staffio ar fy ngwefan.

Mae Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol yn parhau'n flaenoriaethau allweddol o fewn fy Nghynllun. Mae gwaith y Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA) a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) yn parhau'n allweddol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod dioddefwyr y troseddau ffiaidd hyn yn derbyn y gefnogaeth maent yn eu haeddu drwy'r system cyfiawnder troseddol.

Rheolir y gwasanaeth hwnnw, a'n dull o ymdrin â Thrais Domestig a Cham-drin Rhywiol yn ehangach, drwy'r **Bwrdd Strategol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** sy'n cael ei gadeirio gan fy Mhrif Weithredwr. Yn ogystal â'r cyllid sydd ar gael gen i ar gyfer y gwasanaethau hanfodol hyn, derbynnir cyllid hefyd gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau nad oedd y grant yn cael ei wario ar gostau comisiynu ac yn cael ei wario ar y rheng flaen lle mae ei angen fwyaf, rwyf yn



parhau i fod y corff atebol ar gyfer y grant a'i wariant.

Cyn mis Ebrill 2020, darparwyd y gwasanaeth IDVA[2] yng Ngogledd Cymru gan nifer o ddarparwyr gwasanaeth arbenigol gwahanol. Arweiniodd hyn at anghysonderau o ran darpariaeth, gan gynnwys prosesau gweithredu ac amseroedd pryd y gellid cael mynediad at y gwasanaeth. Yn 2019 fe wnaeth Bwrdd Strategol VAWDASV Gogledd Cymru gomisiynu gwasanaeth mwy cyson a chydlynol wrth barhau i gynnal arbenigedd lleol. Arweiniodd hyn at broses gomisiynu, gyda'r rhanbarth wedi'i rannu i dri isranbarth ar wahân. Gwahoddwyd darparwyr i ymgeisio am un, dau neu bob un o'r tri isranbarth.

Mae'r gwasanaeth newydd a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2020 yn cael ei gynnig ledled y chwe ardal awdurdod lleol. Mae'n cael ei ddarparu gan Gorwel yng Ngwynedd a Môn ac Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU) Gogledd Cymru yn siroedd Wrecsam, Y Fflint, Dinbych a Chonwy. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ddydd a nos (24/7), gyda'r IDVA yn gweithio ar rota ranbarthol i gyflenwi gyda'r nosau a phenwythnosau. Mae'r rota hon wedi'i datblygu gyda Heddlu Gogledd Cymru er mwyn sicrhau fod holl Swyddogion Cam-drin Domestig yn ymwybodol o ba IDVA sy'n gweithredu a phryd. Mae hyn yn galluogi gwasanaeth esmwyth a chyson i'r dioddefwr, waeth bynnag eu lleoliad daearyddol.

Yn fy adroddiad blynyddol 2018/19 mi wnes i amlygu'r gwaith eithriadol a ymgymerwyd ledled Cymru wrth ymdrin â **Phrofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE)**. Gwnaeth Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd (RhCCGG) Gogledd Cymru drawsnewid y ffordd y mae bregusrwydd yn cael ei blismona.

[2] Mae IDVA yn gweithio i fynd i'r afael a diogelwch pobl sydd mewn perygl uchel o drais domestig gan bartneriaid agos, cyn bartneriaid ac aelodau'r teulu i sicrhau eu diogelwch a diogelwch eu plant. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda dynion a merched.

Gan ddefnyddio dull iechyd cyhoeddus, gweithiodd y Rhaglen gyda nifer o asiantaethau o'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus i roi gwell dealltwriaeth o gylch trosedd drwy'r cenedlaethau i'r heddlu a phartneriaid a mynd i'r afael â diffyg ymyrraeth gynnar. Roedd rhai o'r canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd yn cynnwys

- **Gostyngiad mewn atgyfeiriadau diogelu amhriodol**
- **Gwelliant yn ansawdd atgyfeiriadau diogelu**
- **Cynnydd mewn atgyfeiriadau at Hyb Cymorth Cynnar**
- **Gwelliant mewn datrys problemau Cymorth Cynnar gan swyddogion heddlu**
- **Gwelliant mewn cyfathrebu a chydweithrediad ymysg yr heddlu a phartneriaid**
- **Pwysigrwydd a pherthnasedd gwella gwybodaeth am ACE, trawma a**
- **Sefydlu gwytnwch ymysg y cyhoedd**

Roedd felly'n siom fawr clywed am benderfyniad y Swyddfa Gartref i ddarfod y cyllid ym mis Mawrth 2020. Mae'r Prif Gwnstabl a finnau'n parhau'n ymroddedig i'r rhaglen hon a gwnawn sicrhau y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i gael gweithlu heddlu mwy gwybodus a sgilgar, wedi grymuso i ymateb gan ddefnyddio lens ACE.

Mae'r **Cydbwyllgor Archwilio** yn bwyllgor sy'n cynnwys pedwar aelod annibynnol ac mae'n gydran allweddol o lywodraethu corfforaethol Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) a Phrif Gwnstabl (PG) Gogledd Cymru. Diben y Cydbwyllgor Archwilio yw rhoi cyngor annibynnol a sicrwydd i mi a'r Prif Gwnstabl ar ddigonoldeb y fframweithiau llywodraethu a rheoli risgiau, yr amgylchedd rheoli mewnol, ac adrodd ariannol. Cynorthwyir felly i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithlon ac effeithiol yn eu lle. I'r perwyl hwn, mae'r Cydbwyllgor wedi'i alluogi i, ac mae gofyn iddo gael trosolwg o, darparu adolygiad annibynnol ar effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, moeseg, rheoli risgiau a rheolaeth Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) a'r Heddlu, yr adrodd ariannol a'r broses lywodraethu flynyddol, ac archwilio mewnol ac allanol. Rwyf yn ddiolchgar am waith a chymorth parhaus y Cydbwyllgor a'r sicrwydd a roddwyd. Lle nad yw'r Cydbwyllgor wedi gallu rhoi sicrwydd, rwyf yn fodlon fod gan yr Heddlu a'm swyddfa gynlluniau yn eu lle fel bod y Cydbwyllgor mewn sefyllfa i roi'r sicrwydd hwnnw yn y flwyddyn i ddod.

Mae'r **Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol (PSSB)** yn monitro ac yn craffu ar y modd y mae cwynion a chyhuddiadau camymddwyn yn cael eu trin gan Heddlu Gogledd Cymru, er mwyn sicrhau y gallaf fod yn fodlon bod y trefniadau a'r prosesau yn eu lle yn briodol ac yn effeithiol. Yn ystod 2019/20 cadeiriwyd y PSSB gan fy Nirprwy, Ann Griffith gyda chyngor proffesiynol gan fy Mhrif Weithredwr, y Dirprwy Brif Gwnstabl a Phennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol. Bydd y PSSB yn awr yn cael ei gadeirio gan fy Mhrif Weithredwr.



Yn Adroddiad Blynyddol y llynedd fe wnes eich hysbysu o'r **diwygiadau i gwynion am yr heddlu** sydd ar ddod a sut oeddwn yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau gweithredu'r newidiadau hyn yn esmwyth ac yn effeithiol. Yn dilyn ymgynghoriad helaeth, mae pecyn o ddiwygiadau i system cwynion a chamymddwyn yr heddlu wedi'i ddatblygu gan y Swyddfa Gartref a Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Fel rhan o'r gwaith hwn, ers 1 Chwefror 2020, mae gen i rôl newydd fwy grymus yn system cwynion yr heddlu.

Rwyf yn awr yn gyfrifol am adolygiadau o gwynion yr heddlu (a adwaenid yn flaenorol fel apeliadau). Y corff apelio blaenorol oedd yr Heddlu ei hun. Ynghyd â Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd Dyfed Powys a Gwent, rwyf wedi penodi cwmni o ymgynghorwyr sef Sancus sy'n arbenigwyr wrth ymdrin â chwynion yr heddlu i ystyried yr adolygiadau ar fy rhan. Ond bydd y penderfyniad olaf yn cael ei gwneud gennyf i neu fy Mhrif Weithredwr. Mae'r diwygiad cwynion newydd yn caniatáu i mi wneud argymhellion ffurfiol i Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu ar sut maent yn ymdrin â chwynion.

Mae'r diwygiadau wedi cyflwyno dull llai biwrocrataidd ac yn arfer mwy myfyriol. Canolbwyntir ar ganlyniadau dysgu i swyddogion a staff heddlu unigol a'r Heddlu. Mae'r system newydd yn fwy hyblyg ac wrth gwrs yn llawer mwy annibynnol gyda mi fel y Corff Adolygu Perthnasol.

Beirniadaeth arall o'r hen system oedd bod y trothwy camymddwyn yn rhy isel gan greu system lle treuliwyd cyfnodau sylweddol o amser yn ymchwilio swyddogion am doriadau lefel isel o safonau proffesiynol. Yn flaenorol, gwnaeth rhai ymchwiliadau gymryd sawl mis, ac weithiau sawl blwyddyn, i'w cwblhau. Gallai hyn arwain at straen i'r achwynydd a'r swyddogion o dan sylw, effaith andwyol ar effeithiolrwydd gweithredol yr Heddlu, y cyhoedd â llai o hyder yn yr Heddlu, ynghyd â gwariant cynyddol i'r pwrs cyhoeddus.

Mae gennyf gyfrifoldeb hefyd am roi annibyniaeth yn yr achosion mwy difrifol o dorri safonau'r heddlu. Rwyf yn darparu Cadeirydd Cymwys yn y Gyfraith ac Aelod Annibynnol i eistedd ar Wrandawiadau Camymddwyn yr Heddlu a Thribiwnlysoedd Apeliadau'r Heddlu. Mae'r diwygiadau hyn yn sicrhau fod annibyniaeth yn system cwynion yr heddlu i gyd, o'r anfodlonrwydd llai difrifol i achosion o gamymddwyn difrifol.

Mae gen i ddyletswydd statudol i sicrhau bod y maes plismona yn cynnig system gyfiawnder troseddol effeithiol ac effeithlon. Un o'm mecanweithiau allweddol i gyflawni hyn yw bod yn Gadeirydd **Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru (NWCJB)**. Mae aelodau'r bwrdd yn cynnwys y Prif Gwnstabl, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a Llysoedd Ei Mawrhydi, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid. Nod cyffredinol y Bwrdd yw "Darparu fforwm amlasiantaeth ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, rhoi arweinyddiaeth a llywodraethu, a nodi a goresgyn rhwystrau er mwyn cyflawni Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol mwy effeithlon ac effeithiol yng Ngogledd Cymru sy'n rhoi anghenion dioddefwyr a phobl fregus (gan gynnwys defnyddwyr cyffuriau) wrth ei galon".

Ar yr adeg yr ysgrifennwyd hwn, mae'r System Cyfiawnder Troseddol wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan argyfwng COVID-19 ac mae llwyth sylweddol o achosion wrth gefn yn disgwyl cael eu clywed yn y llysoedd troseddol yng Ngogledd Cymru.

Yn unol â hynny, mae cynrychiolwyr o'm swyddfa wedi bod yn cyfarfod yn gyson â'r Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol. Mae hyn er mwyn trafod materion fel ailagor y llysoedd a'r her o gadw Dioddefwyr a Thystion yn ymgysylltiedig wrth i amseroedd llys barhau i gael eu hymestyn. Mae comisiynwyr wedi galw am asesiad effaith ynghylch beth mae hynny yn ei olygu i ddioddefwyr a thystion yn genedlaethol ac am ddata cynhwysfawr a fyddai'n ein galluogi i asesu maint y broblem o'r llwyth achosion wrth gefn sy'n aros.

Rwyf yn gweithio gyda phartneriaid, yng Ngogledd Cymru ac ar sail Cymru-gyfan, er mwyn datblygu cynlluniau i sicrhau bod y System Cyfiawnder Troseddol yn lleol ac yn genedlaethol yn gallu adfer o effaith argyfwng COVID-19. Cytunwyd yn gynnar y dylai camau gael eu cymryd i ganolbwyntio ar gynllunio adferiad ar gyfer y system cyfiawnder troseddol lleol fel ffordd o liniaru rhai o'r risgiau strategol sy'n dod i'r amlwg.

Rwyf hefyd yn ymgysylltu â phartneriaid i sicrhau bod protocolau newydd fel y Protocol Cyhuddo newydd, y protocol Cyfweliadau Dalfeydd Heddlu newydd, y Cynllun Rhyddhau Carcharorion yn Gynnar a'r protocol Cyfyngiad Amser Dalfeydd newydd, yn weithredol yng Ngogledd Cymru ac yn genedlaethol.

Rwyf yn aelod ac yn eistedd ar Fwrdd **Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CCHTh)**. Mae'r **CCHTh** yn gorff cenedlaethol sy'n cynorthwyo'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i wneud y gorau o'u gallu i ddylanwadu ar lefel genedlaethol a chyflawni eu dyletswyddau statudol a blaenoriaethau plismona. Drwy rannu arfer da a nodi cyfleoedd i gydweithio, a thalu am wasanaethau ar y cyd, mae'r **CCHTh** yn cynorthwyo'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol.

2019/20 oedd seithfed flwyddyn 'Eich Cymuned Eich Dewis' sy'n parhau i ddenu ceisiadau grant o ansawdd uchel ledled Gogledd Cymru. Rheolir 'Eich Cymuned Eich Dewis' gan **PACT (Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned)** ac fe'i hariennir gyda £30,000 o Gronfa'r Comisiynydd ac £20,000 o arian Deddf Elw Troseddau. Yn ogystal, yn 2019/20 mi roddais £5,126 ychwanegol o Gronfa'r Comisiynydd er mwyn cynorthwyo prosiectau llawr gwlad teilwng ychwanegol.

Y thema gyffredinol eleni i ymgeiswyr ei hystyried oedd 'Creu Cymunedau Gwydn', a oedd yn cynnwys cynigion sy'n ymdrin â phroblemau fel Llinellau Cyffuriau.

Bu ugain (20) o grwpiau cymunedol yn llwyddiannus y llynedd gyda chyfanswm ceisiadau grant yn £45,126. Roedd hyn yn cynnwys Digartref yng Nghaergybi sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi'u dadrithio; Banc Bwyd Llanfairfechan a'u cymorth i deuluoedd bregus sydd wedi dod yn bwysicach fyth yn yr amseroedd hyn; Youth Shedz Cymru i sefydlu menter newydd ym Mlaenau Ffestiniog; gweithdai diogelwch ffyrdd i yrwyr ifanc drwy Weithdy Dinbych; cymorth i oedolion a phobl ifanc sy'n byw gydag awtistiaeth yng Ngwynedd/Môn a Wrecsam; a gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi'u dadrithio yn y Rhyl gyda'r prosiect All Afloat.


Yn ogystal mae PACT hefyd yn rheoli Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu sydd â chysylltiad parhaus y Bwrdd Ymddiriedolwyr rwyf i'n aelod ohono. Mae'r gronfa hon yn parhau i gynorthwyo llawer o grwpiau cymunedol eraill ledled chwe sir Gogledd Cymru drwy'r Brif Gronfa Grantiau a Chronfa Grantiau Bach Timau Cymdogaethau Diogelach. Cyhoeddir manylion llawn y prosiectau hyn yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol PACT. Mae rheoli'r cronfeydd hyn wedi golygu hefyd fod PACT wedi gallu dylanwadu ar arian allanol arall i gynorthwyo eu gwaith. Mae hyn ynghyd â'r brif raglen addysg ysgolion 'Cyfiawnder mewn Diwrnod' sydd bellach yn ei degfed flwyddyn lwyddiannus gyda'n partneriaid yn Theatr Clwyd. Penodwyd ein cadeirydd ymddiriedolwyr newydd yn 2019/20 sef Ashley Rogers, Cyfarwyddwr Masnachol Cyngor Busnes Gogledd Cymru. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at weithio gydag Ashley a defnyddio ei sgiliau, ei wybodaeth a'i brofiad i ddatblygu ein gwaith.

O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 mae gan holl Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd ddyletswydd statudol i sefydlu a chynnal Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol. Mae'r Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol yng Ngogledd Cymru yn galluogi cynrychiolwyr penodedig o'r gymuned leol i arsylwi, gwneud sylwadau ac adrodd ar amodau unigolion sy'n cael eu cadw mewn dalfeydd. Yn ogystal, mae'n cynnig lefel ychwanegol o warchodaeth gilyddol i garcharorion a swyddogion heddlu drwy graffu'n annibynnol ar sut mae carcharorion yn cael eu trin a'r amodau y cedwir nhw ynddynt.


Fy Mhrif Weithredwr a'i dîm sy'n ymgymryd â rheoli'r cynllun o ddydd i ddydd, gan gynnwys recriwtio a threfnu hyfforddiant i ymwelwyr dalfeydd. Darperir yr hyfforddiant cynefino a diweddaru gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae ymwelwyr y dalfeydd i gyd yn wirfoddolwyr. Maent yn gweithio fel rhan o dîm i fodloni targedau'r rhaglen ymweld. Ar hyn o bryd mae 21 o ymwelwyr dalfeydd yng Ngogledd Cymru, sy'n ymweld â 3 o ddalfeydd dynodedig. Mae'r rhain yn y Dwyrain (Llai), yr Ardal Ganolog (Llanelwy), a'r Gorllewin (Caernarfon). Mae'r ymweliadau ond yn cael eu cyflawni yn Nolgellau, yr Wyddgrug a Chaergybi pan ddefnyddir y Dalfeydd. Gwnaed cyfanswm o 121 o ymweliadau gan Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol ledled Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.

Gofynnir i Gydlynwyr ac Ymwelwyr amrywio eu hymweliadau cymaint â phosibl. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd ymweliadau ar ddyddiau amrywiol o'r wythnos ac ar adegau amrywiol. Mae'r siartiau isod yn dangos y cynhelir ymweliadau bob dydd o'r wythnos ac ar adegau amrywiol. Mae'r holl ymweliadau'n ddirybudd.

## Graff 1 – Adegau ymweliadau ym mhob ardal




## Graff 2 – ymweliadau ym mhob ardal



Yn ystod y cyfnod adrodd cadwyd cyfanswm o 10,784 o garcharorion yn y Ddalfa yng Ngogledd Cymru a 467 yn ystod yr ymweliadau. O'r 467 o garcharorion yn y ddalfa yn ystod yr ymweliadau roedd 332 ar gael i'w gweld ac nid oedd 135 ar gael. O'r 332 o garcharorion a oedd ar gael i'w gweld, gwnaeth 305 ganiatáu ymweliad (92%) a gwnaeth 27 wrthod (8%). Mae'r nifer uchel o garcharorion sy'n gofyn am gael ymweliad gan ymwelwyr y dalfeydd yn profi effeithiolrwydd y cynllun. Mae materion sy'n cael eu codi gan ymwelwyr dalfeydd yn ystod eu hymweliadau'n cael eu datrys gan y rhingyll dalfeydd ar unwaith. O dro i dro ni all rhai materion gael eu datrys ond cânt eu cyfeirio at yr arolygydd dalfeydd er mwyn iddynt weithredu.

Yn ychwanegol i'r ymweliadau annibynnol hyn â phobl a gedwir yn nalfeydd yr heddlu, mae Swyddfa'r Comisiynydd, Arolygyddion Dalfeydd ac Arolygydd Polisi'r Dalfeydd yn hapsamplo cofnodion dalfeydd ac yn eu craffu. Rwyf yn ddiolchgar am waith caled a chymorth parhaus ein gwirfoddolwyr.

# Ymgysylltiad Ieuenctid Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru

Roedd Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru yn brosiect y gwnes i ei gomisiynu ym mis Awst 2019. Dan arweiniad y Dirprwy CHTh, roedd yn ymgymryd ag ymgynghoriad ac ymgysylltiad gyda phobl ifanc yng Ngogledd Cymru ar drosedd a materion plismona.

Cafodd 25 o bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed eu recriwtio i fod ar y Comisiwn Ieuenctid. Roeddent yn dod o bob rhan o Ogledd Cymru ac o gefndiroedd a demograffeg wahanol gan gynnwys cymunedau gwledig a threfol a'r rhai hynny gyda'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Roedd gan rai brofiad o'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol ac roedd eraill yn blant sy'n derbyn gofal. Roedd rhai o gefndir lleiafrif ethnig ac roedd rhai yn bobl ifanc anabl. Gwnaed ymdrech fawr i sicrhau bod amrywiaeth eang o gefndiroedd a phrofiadau'n cael eu cynrychioli gan y rhai hynny ar y Comisiwn Ieuenctid.

Gwnaeth y Comisiwn Ieuenctid gyfarfod nifer o weithiau rhwng mis Awst 2019 a mis Chwefror 2020. Yn eu cyfarfod cychwynnol gwnaethant drafod yr hyn yr oeddent yn eu hystyried oedd yn flaenoriaethau o ran trosedd a phlismona yng Ngogledd Cymru. Dros y 6 mis nesaf gwnaeth y grŵp gynnal ymgynghoriad ac ymgysylltiad helaeth gyda'u cyfoedion. Gwnaeth y prosiect hoelio barn dros **1,200** o bobl ifanc sy'n byw yng Ngogledd Cymru.

Ym mis Chwefror 2020, gwnaeth y Comisiwn Ieuenctid gyflwyno eu canfyddiadau i gynhadledd o gynadleddwyr allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys uwch aelodau o'r gwasanaeth heddlu, aelodau etholedig o awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n cynorthwyo a chynrychioli pobl ifanc. Dilynwyd y gynhadledd hefyd gan adroddiad yn manylu'r prif ganfyddiadau a chamau a argymhellwyd.

Mae Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ymgymryd i edrych ar y materion a godwyd gan y prosiect a sut y gall y rhain gael eu taclo yn effeithiol gan yr heddlu a phartneriaid. Byddwn hefyd yn ymchwilio ar sut i barhau gyda model effeithiol o ymgysylltu ieuenctid wrth symud ymlaen o'r prosiect hwn.



# Gwneud gwahaniaeth

Rwyf yn hynod falch o waith a chyflawniadau fy swyddfa, Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid yn ystod 2019/20. Rwyf wedi rhestru isod enghreifftiau o rai o'n llwyddiannau yn ein hymdrech i wneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y DU.

## Newidiadau i Dîm y Prif Swyddogion

Penodwyd Sacha Hatchett fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol newydd Heddlu Gogledd Cymru ar 23 Ebrill 2019. Sacha yw'r Prif Swyddog benywaidd cyntaf i gael ei phenodi yng Ngogledd Cymru ar ôl gweithio dros dro fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn Swydd Gaer ers mis Rhagfyr 2017. Mae Sacha wedi bod yn y swydd ers blwyddyn bellach ac mae'n gyfrifol am drosedd a'r gwaith gweithredol. Penodwyd Seb Phillips yn Gyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau newydd Heddlu Gogledd Cymru ym mis Tachwedd 2019.



## Checkpoint Cymru

Cyflwynwyd Checkpoint Cymru, fy nghynllun dargyfeirio troseddwyr sy'n oedolion, ym mis Rhagfyr 2019.

Mae Checkpoint Cymru yn gynllun dargyfeirio gwirfoddol i droseddwyr sy'n oedolion ac mae'n seiliedig ar y model llwyddiannus sydd wedi bod ar waith yn Durham ers 2015. Mae'r rhaglen yn ceisio cefnogi troseddwyr lefel isel sy'n dod i'r system cyfiawnder troseddol drwy roi opsiwn arall iddynt yn hytrach nag erlyniad troseddol. Ceir gwybodaeth bellach am y rhaglen yn yr adroddiad hwn.

## Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol (PRP) – Blwyddyn gyntaf

Ym mis Mehefin 2019, dechreuodd Heddlu Gogledd Cymru ei gylch cynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cefnogi gweledigaeth y Prif Gwnstabl ac yn cyflawni fy mlaenoriaethau strategol, datblygwyd cynlluniau busnes gan ddefnyddio Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol er mwyn dyrannu adnoddau i'r meysydd o niwed mwyaf a gwella'r gwasanaethau sydd bwysicaf i gymunedau Gogledd Cymru. Dyma'r flwyddyn gyntaf mae Heddlu Gogledd Cymru wedi dyrannu ei gyllideb gyda'r dechneg gydnabyddedig hon.

Cynhaliwyd paneli amrywiol drwy gydol y broses i benderfynu pa lefelau o wasanaethau fyddai'n gweddu orau i'r sefydliad wrth symud ymlaen. Arweiniwyd hyn gan y Dirprwy Brif Gwnstabl gyda chymorth gan y cymdeithasau staff a'm Prif Swyddog Cyllid. Roedd yn cynnwys gwneud penderfyniadau er mwyn symud adnoddau o feysydd blaenoriaeth is i rai uwch er mwyn cyfrannu i wella effeithlonrwydd y sefydliad.

## Lansio Brysbennu Iechyd Meddwl Canolfan Gyfathrebiadau'r Heddlu

Ar 20 Rhagfyr 2019, lansiodd Heddlu Gogledd Cymru ei Gyfleuster Brysbennu Iechyd Meddwl yn Ystafell Reoli'r Heddlu. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyngor iechyd meddwl i swyddogion sy'n ymateb i achosion ac yn gwella'r mynediad at wybodaeth am gleifion rhwng yr heddlu a'r bwrdd iechyd lleol.

Mae'r cyfleuster yn cynnwys chwe Ymarferydd Iechyd Meddwl sydd i gyd yn aelodau o'r bwrdd iechyd lleol. Mae'r tîm yn gweithredu 16 awr y diwrnod, 7 diwrnod yr wythnos. Gall yr ymarferwyr roi argymhellion i swyddogion ar ofal cleifion, gan gynnwys cyngor Adran 136, cysylltu gydag Unedau Iechyd Meddwl a gwneud atgyfeiriadau at wasanaethau eraill. Mae mynediad at wybodaeth cleifion yn gwella prosesau blaenorol yn fawr ac yn gymorth mawr wrth ymateb i ddigwyddiadau iechyd meddwl fel unigolion ar goll sy'n risg uchel.

Dros y blynyddoedd mae'r heddlu wedi dod ar draws nifer o broblemau gyda darpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl gan gynnwys cyfyngiadau adnoddau a safleoedd Damweiniau ac Achosion Brys, diffyg cludiant GIG sydd ar gael i bobl sydd angen asesiad iechyd meddwl ac argaeledd anghyson cyfleusterau asesiad iechyd meddwl diogel. Mae'r tîm newydd hwn yn

caniatáu swyddogion i gymryd camau diogelu a chyfeirio priodol gyda chleifion yn y fan a'r lle. Bydd hyn yn lleihau'r nifer o achosion cludo cleifion a defnydd o Adran 136 ac felly'n rhyddhau adnoddau'r heddlu mewn modd llawer cynt ac effeithlon.

## Asesiad Anghenion Llinellau Cyffuriau

Gwnaeth Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru gomisiynu prosiect partneriaeth i greu dealltwriaeth ranbarthol o'r cysylltiad rhwng bregusrwydd, camfanteisio'n droseddol ar blant ac oedolion a'r maes gwerthu cyffuriau, gangiau a thrais ar draws Gogledd Cymru.

Yn dilyn ymarfer rhannu data agored a thryloyw, crëwyd Asesiad Anghenion Llinellau Cyffuriau. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn caniatáu i ni ddeall yn llawn ar y cyd y galw a'r risg o ddigwyddiadau yn ymwneud â thrais cysylltiedig, gan greu ymyriadau datrys problemau cynaliadwy er mwyn bodloni anghenion bob cymuned yn ogystal â mynd ati i weithio'n rhagweithiol gyda'n partneriaid sydd ar hyn o bryd yn gweithio i atal y niwed difrifol hwn.

Roeddwn i'n bersonol yn gwbl gefnogol o'r gwaith. Fe wnes i ariannu digwyddiad ymgysylltu partneriaethau er mwyn caniatáu i'r holl bartneriaid sydd ynghlwm drafod y canfyddiadau a chreu argymhellion ystyrlon ar y cyd. Fe wnes i hefyd ariannu cynhadledd llinellau cyffuriau rhanbarthol. Nid yn unig y gwnaeth gyflwyno'r adroddiad terfynol a'i argymhellion canlyniadol i dros 100 o bartneriaid o Ogledd Cymru a'r Gogledd Orllewin, ond rhoddodd gyfle hefyd i bobl yn ein cymunedau sydd wedi cael eu heffeithio gan y farchnad llinellau cyffuriau/cyffuriau gael llais a hefyd y cyfle i egluro'n union sut maen nhw, neu'r bobl maent yn eu cefnogi, wedi cael eu heffeithio gan y trosedd difrifol hwn. Y gwaith arloesol hwn yw'r cyntaf o'i fath yn y DU.

## Gwers Llinellau Cyffuriau

Gan gydnabod yr angen i gynorthwyo ymyrraeth gynnar ac atal pobl ifanc rhag dod i gysylltiad â llinellau cyffuriau, fe wnes i ariannu datblygu gwers llinellau cyffuriau i ysgolion drwy'r gronfa 'Eich Cymuned Eich Dewis' a grant gan Heddlu Gogledd Cymru.

Mae'r wers wedi'i chreu gan Gydlynydd Cyswllt Ysgolion Heddlu Gogledd Cymru a'r Centre for Sign, Sight and Sound ym Mae Colwyn. Mae'r wers yn cael ei chefnogi'n llwyr gan Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan a adwaenir fel Schoolbeat.

Mae'r wers 'Cwlwm Twyll – A ydych yn gwybod ei fod yn digwydd?' wedi'i hanelu at ddisgyblion blwyddyn 8. Bydd yn cael ei chyflwyno ledled Cymru gan Swyddogion Heddlu Cyswllt Ysgolion o fis Medi 2020.

Bydd canlyniadau dysgu ar gyfer bob disgybl wedi'r mewnbwn yn sicrhau y bydd bob disgybl yn:

- Gwybod beth yw camfanteisio ar blant
- Gallu adnabod arwyddion camfanteisio troseddol
- Gwybod am yr effaith ar y plentyn
- Gwybod fod y Gyfraith yn gwarchod plant ac ni all yr un plentyn gytuno â chamfanteisio ac nid yw byth yn fai arnyn nhw
- Deall a gwrthsefyll camfanteisio ar blant
- Gwybod lle i gael cymorth a chefnogaeth

Amlygir Hawliau'r Plentyn drwy gydol y wers gyda'r disgyblion yn cwblhau eu 'Haddewid Disgybl' er mwyn diogelu eu hunain. Atgoffir disgyblion hefyd am oedolion dibynadwy ac asiantaethau arbenigol sydd o hyd ar gael i'w cynorthwyo.

Mae'r wers hon o ddiddordeb arbennig i'r Ganolfan Genedlaethol Cydlynu Llinellau Cyffuriau sy'n lledaenu a hyrwyddo arloesedd ac arfer gorau drwy'r DU.



## Ymgyrch Encompass

Encompass yw prosiect sydd wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref sy'n cael ei gynnal ar y cyd rhwng ysgolion a Heddlu Gogledd Cymru. Aeth y prosiect yn fyw yn siroedd Wrecsam a'r Fflint ar 20 Ionawr 2020. Tra ei fod tu allan i gyfnod adrodd yr adroddiad hwn, rwyf yn falch o gadarnhau bod Môn, Gwynedd a Sir Ddinbych wedi mynd yn fyw ar 27 Ebrill 2020 a Sir Conwy ar 4 Mai 2020. Menter genedlaethol yw Encompass ar gyfer gallu rhannu gwybodaeth rhwng heddluoedd ac addysg mewn ymgais i gynorthwyo plant sydd wedi bod yn dyst i gam-drin domestig. Ei nod yn bennaf yw i ysgol gael ei rhybuddio am blentyn sydd wedi profi cam-drin domestig mor gynnar â phosibl er mwyn galluogi cymorth ar unwaith. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod y gall holl achosion o gam-drin domestig fod yn niweidiol i blant a phobl ifanc.

Mae Oedolion Allweddol Hyfforddedig wedi'u lleoli ym mhob ysgol er mwyn caniatáu iddynt gysylltu gyda'r heddlu a defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i rhannu, yn gyfrinachol, i sicrhau fod yr ysgol yn darparu ar gyfer anawsterau posibl a brofir gan blant neu eu teuluoedd.

## Prosiect Atal Trais Difrifol

Cafodd SCHTh £60,000 mewn cyllid gan Gronfa Ieuenctid Ymyrraeth Gynnar yn ystod 2019/20. Gwnaeth yr arian hwn gynorthwyo Ymddiriedolaeth St Giles i weithio mewn ysgol uwchradd leol er mwyn darparu gwaith ymyrraeth uniongyrchol gyda phobl ifanc sydd ar fin dod ynghlwm â thrais difrifol.

Gwnaeth yr arian hefyd ganiatáu parhau 'Cyfiawnder mewn Diwrnod' sef prosiect arobryn unigryw (yn awr yn ei ddegfed flwyddyn) sy'n defnyddio actorion proffesiynol, i edrych ar faterion allweddol am y system cyfiawnder troseddol a phobl ifanc mewn drama drawiadol a realistig.

Gwnaeth yr arian hefyd gynorthwyo'r Fenter Gwrthsefyll Trais/The Stand Against Violence Initiative (SAVI). Mae'r prosiect peilot cydweithredol hwn yn nodi ac yn ymestyn at bobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu heffeithio gan drosedd treisgar yn y Rhyl. Mae'n cydnabod deuoliaeth profiad lle gall pobl ifanc fod mewn perygl o ddod yn ddioddefwyr a throseddwyr posibl. Mae SAVI yn dod â sefydliadau'r 3ydd sector a grwpiau cymunedol gyda gwasanaethau statudol – gan gynnwys yr heddlu, cyfiawnder ieuenctid ac ysgolion – at ei gilydd. Gwneir hyn er mwyn rhannu gwybodaeth, syniadau ac adnoddau wrth ddatblygu a chyflawni datrysiadau lleol creadigol gydag ymdriniaeth holistaidd ar sut i fynd i'r afael â chymhellwyr trais difrifol.

## Gwobrau'r Heddlu

Gwnaeth y Prif Gwnstabl Carl Foulkes gynnal ei seremoni Gwobrau'r Heddlu gyntaf ar 5 Mawrth 2020. Roedd y gwobrau'n cydnabod swyddogion heddlu, staff a gwirfoddolwyr am eu cyfraniad eithriadol i blismona gyda chyfanswm o un wobr ar bymtheg yn cael eu cyflwyno yng nghwmni gwesteion nodedig, uwch swyddogion, teulu a ffrindiau.

Ymysg yr enillwyr oedd swyddogion a oedd yn cael eu cydnabod am eu dewrder, ymchwiliadau'n gysylltiedig â masnachu pobl a throseddau rhywiol difrifol, gwobr arloesedd a gwirfoddolwyr yn cael eu cydnabod am eu hymroddiad a'u dyletswydd i'r heddlu.



## Lansio'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhywedd

Gwnaeth Heddlu Gogledd Cymru lansio'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhywedd yn swyddogol ar 11 Tachwedd 2019. Roedd hwn yn drosglwyddiad o'r Gymdeithas Merched gyda'r nod o ddarparu rhwydwaith mwy cynhwysol sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n effeithio holl aelodau'r sefydliad. Mae swyddog gwrywaidd ac aelod o staff wedi cael eu penodi fel is-gadeiryddion.

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd – 2019/2023

Cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd yr Heddlu a'r CHTh ym mis Ebrill 2019 ac fe ellir ei weld ar fy ngwefan. Yn unol â gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 buom yn ymgynghori â rhanddeiliaid, partneriaid a staff i sefydlu'r blaenoriaethau newydd ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb 2019-2023. Fel bob amser mae rhai o'n blaenoriaethau yn parhau o'n cynllun blaenorol fel ymdrin â throsedd casineb a sicrhau defnydd effeithiol a theg o bwerau (e.e. stopio a chwilio). Serch hynny, yn y cynllun newydd mae cynnydd dramatig wedi bod mewn gweithgarwch er mwyn sicrhau cynrychiolaeth briodol yn y gweithlu yn ymwneud â'r Gymraeg, rhywedd, hil a nodweddion gwarchodedig eraill.

Nid yw'r Heddlu ar hyn o bryd yn adlewyrchu cymunedau Gogledd Cymru. Mae Ymgyrch Uplift, a gyfeiriwyd ati yn yr adroddiad hwn, yn rhoi cyfle da i wella cynrychiolaeth ar draws y nodweddion gwarchodedig. Felly mae adnoddau sylweddol yn awr wedi'u hymroi i Ymgyrch Uplift ac ar gyfer cynyddu ceisiadau gan gymunedau lleiafrifol. Mae sawl menter wedi'i lansio i annog a gwella ceisiadau a hyrwyddo Heddlu Gogledd Cymru fel cyflogwr o ddewis i bawb. Mae'r Heddlu a SCHTh yn parhau i weithio gyda'i gilydd ar gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb. Mae'n cael ei fonitro a'i graffu'n chwarterol drwy'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd bellach yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl.

## Lansio Pwyllgor Moeseg Mewnol

Gwnaeth Heddlu Gogledd Cymru lansio ei Bwyllgor Moeseg ym mis Ebrill 2019. Crëwyd y pwyllgor i alluogi fforwm priodol tu allan i'r Adran Safonau Proffesiynol, er mwyn i ddilemâu moesegol gael eu trafod gyda grŵp o swyddogion a staff, o rengoedd amrywiol ledled y sefydliad ynghyd ag aelodau allanol. Mae strwythur pwysigrwydd y grŵp yn un o gyfartaledd, gan nad yw statws swydd yn cyfrif; mae'r holl aelodau â'r un statws teg a chyfartal. Mae gweithrediad y pwyllgor hwn yn galluogi'r heddlu i gynnal ei ymdriniaeth foesegol i broblem gwneud penderfyniadau rhwng dau reidrwydd moesol posibl heb i'r naill na'r llall gael eu hystyried yn fwy derbyniol nac yn well. Cynrychiolir fy swyddfa yn y Pwyllgor hwn.

Gwahoddir gweithwyr i gyflwyno unrhyw ddilemâu moesegol sydd ganddynt neu a ddônt ar eu traws; gallent eu cyflwyno'n ddienw. Gall hyn fod yn bolisi, yn arferion, yn foesol neu'n 'ardal lwyd'. Wedi i ddilema gael ei gyflwyno a'i drafod yn y pwyllgor, bydd unrhyw gyngor neu benderfyniad yn cael ei gyflwyno i dîm y Prif Swyddogion. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi drwy fewnrwyd fewnol yr heddlu a rhoddir adborth i'r aelod o staff sy'n cyflwyno'r dilema.

## Canlyniadau Ymgyrch Tide

Ymgyrch Tide oedd yr enw a roddwyd i ymgyrch Trosedd Trefnedig Difrifol a welodd 24 gwarant yn cael eu gweithredu ledled ardaloedd Gogledd Cymru, Glannau Mersi a'r Alban (Police Scotland) ym mis Medi 2019. Roedd 300 o swyddogion a staff yn rhan o'r ymgyrch hon ac fe gafodd gryn sylw gan y wasg yn lleol ac yn genedlaethol.

Ymgyrch Tide yw penllanw bron i 12 mis o waith. Roedd y grŵp Trosedd Trefnedig a gafodd ei drechu gan yr ymgyrch hwn yn gyfrifol am gyflenwi Heroin a Chocên yn ardal Glannau Dyfrdwy drwy Linell Gyffuriau a elwid yn 'Echo Line'. Roedd y grŵp nid yn unig yn fygythiol o ran cyflenwi cyffuriau niweidiol, ond roedd hefyd yn gyfrifol am drais difrifol, treisio, bygythiadau i ladd a brawychu pobl fregus.

Arweiniwyd yr ymgyrch gan yr Uned Trosedd Trefnedig Difrifol gyda llawer o asedau cudd Heddlu Gogledd Cymru'n gorfod treulio amser maith yn ardal Glannau Mersi. Roedd yr ymgyrch angen cefnogaeth ddadansoddol anferth, yr ymgyrch fwyaf o'i bath yng nghyswllt dadansoddi data i alluogi i'r tîm wneud cysylltiad â'r gweithgarwch troseddol.

Roedd y cam gweithredol a oedd yn cynnwys strwythur gorchymyn llawn yng Ngogledd Cymru a Glannau Mersi yn llwyddiant. Arweiniodd at 16 arestiad a 15 remand yn y ddalfa am droseddau cyflenwi a chynllwynio i wneud Niwed Corfforol Difrifol. Arweiniodd y mwyafrif o remandiau'r heddlu at remandiau llys sy'n foddhaol iawn bob amser. Gan gydnabod bod ffordd bell i fynd i gael euogfarnau, rydym yn ffyddiog y bydd nifer o'r bobl hyn yn treulio amser sylweddol yn y carchar.

## Canlyniadau Ymgyrch Blue Fulgent

Ar 19 Ebrill 2019, saethwyd Gerald Corrigan yn farw gyda bollt bwa croes tu allan i'w gartref ar Ynys Môn. Cynhaliwyd achos pum wythnos o hyd yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror 2020 a wnaeth gyflwyno dyfarniadau euog unfrydol. Canfuwyd Terence Michael Whall yn euog o lofruddio ac o gynllwynio i wyrdroi cwrs cyfiawnder. Cafodd ei ddedfrydu i dri deg un o flynyddoedd o garchar. Euogfarnwyd y cyd-ddiffynnydd Gavin Jones am gynllwynio i wyrdroi cwrs cyfiawnder ac fe gafodd ei garcharu am bum mlynedd. Dedfrydwyd Darren Jones i ddwy flynedd a 10 mis am losgi bwriadol, a charcharwyd Martin Roberts, 35, am ddwy flynedd a phedwar mis am losgi bwriadol.

Y canlyniad yw penllanw misoedd o waith caled gan dîm ymchwilio ymroddedig ac ni ellir gorbwysleisio cymhlethdod yr ymchwiliad. Nid oedd tystiolaeth fforensig, dim tystiolaeth llygaid dystion uniongyrchol i'r saethu ac ni welwyd ef yn mynd na'n dod o'r fan a'r lle. Roedd hwn yn achos a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth amgylchiadol. Cynorthwywyd yr ymchwiliad gyda dros 300 o swyddogion a staff pellach ynghyd ag asiantaethau partner.

## Cadetiaid yr Heddlu

Mae Cadetiaid yr Heddlu wedi bod yn rhan o nifer o ddigwyddiadau ledled yr heddlu dros y flwyddyn ddiwethaf ac wedi cynorthwyo yn y meysydd plismona canlynol;

- Sul y Cofio, gan roi cymorth i'r TPC lleol yn cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru mewn digwyddiadau lleol
- Cynnig cyngor Lleihau Trosedd fel rhan o'r ymgyrch #MaeMorHawdd i gymdogaethau lleol
- Cynorthwyo gyda 'Cymru yn ei Blodau' gyda phlannu a gofalu am welyau blodau
- Ymchwiliadau Profi Prynu gan weithio gyda'n hasiantaeth partner sef Safonau Masnach, gan arwain at safleoedd yn derbyn rhybudd ffurfiol am werthiannau torri oedran
- Ymgyrch Sceptre, ymgyrch genedlaethol wedi ei hanelu at leihau trosedd cyllyll, lle mae Cadetiaid wedi bod yn rhoi cymorth gyda digwyddiadau rhagweithiol

## Ymgyrch Uplift

Ymgyrch Uplift yw addewid Llywodraeth y DU i recriwtio 20,000 o swyddogion ychwanegol yn genedlaethol ar gyfer y rheng flaen dros y 3 blynedd nesaf. Cyhoeddwyd hyn ym mis Hydref 2019. Fel rhan o'r cymhelliant hwn, bydd Heddlu Gogledd Cymru yn gweld hyd at 250 o swyddogion yn cael eu recriwtio dros y cyfnod hwn yn ychwanegol at y niferoedd rhagamcanol sydd eu hangen i gymryd lle swyddogion sy'n gadael (eto i'w gadarnhau pan ysgrifennwyd hwn). Yn nhon gyntaf y recriwtio cenedlaethol, derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru gyllid am 62 swyddog heddlu ychwanegol. Roedd gan Heddlu Gogledd Cymru eisoes ffenest recriwtio arfaethedig ar gyfer mis Hydref 2019 sydd wedi galluogi recriwtio'r swyddogion ychwanegol hyn yn sydyn. Mae disgwyl i'r holl swyddogion hyn fod yn eu swyddi erbyn diwedd mis Mehefin 2020.

## Lansiad swyddogol gweledigaeth newydd y Prif Gwnstabl

Lansiodd y Prif Gwnstabl ei weledigaeth newydd ar gyfer y sefydliad ym mis Mai 2019 sef y dyhead o wneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y DU. Mae'r weledigaeth hon wedi'i chyfathrebu'n dda yn fewnol ac yn allanol i'r cyhoedd, gan eu hysbysu mai'r prif feysydd ffocws yw mynd ati i atal trosedd, yn rhagweithiol, gwarchod cymunedau ac ymlid troseddwyr. Rwyf yn gwbl gefnogol o'r weledigaeth uchelgeisiol hon.



## Ymgyrch Yfed a Gyrru'r Nadolig




Dosbarthwyd citiau prawf anadl tafladwy i westai ledled y rhanbarth fel rhan o ymgyrch Nadolig 2019/20 er mwyn lleihau'r nifer o achosion yfed a gyrru. Cytunodd nifer o westai i ddosbarthu'r citiau 'arwydd yn unig' i westeion a oedd eisiau gwirio lefelau alcohol y 'bore wedyn' ar ôl noson o yfed. Daliodd y fenter newydd sylw ITV Cymru gyda chyfweliadau'n cael eu cynnal gyda'r Uned Plismona'r Ffyrdd ac un o'r gwestai a oedd ynghlwm â'r cynllun. Nodwyd y lleoliadau allweddol fel rhan o'r broses hon er mwyn targedu 'prif lecynnau' arestiadau yfed a gyrru.

Cafodd y citiau profi anadl groeso cynnes, gyda nifer o'r gwestywyr yn dymuno parhau gyda'r cynllun. Dosbarthwyd cyfanswm o 2600 cit prawf anadl i 12 o westai a nodwyd eu bod o fewn llecynnau troseddau yfed a gyrru. Yn ogystal fe ddosbarthwyd nifer o gitiau i orsafoedd heddlu allweddol fel Wrecsam, y Rhyl, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaergybi.

# Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Fy nghyfrifoldebau craidd fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw:

1. **Sicrhau cynnal heddlu effeithlon ac effeithiol i Ogledd Cymru**
2. **Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am weithredu ei swyddogaethau**
3. **Dod â phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol at ei gilydd**
4. **Cydweithredu gyda chomisiynwyr heddlu a throsedd eraill a ffurfio a gweithredu strategaethau ledled ardaloedd heddluoedd**

## 1. Heddlu effeithlon ac effeithiol

Ers cael fy ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn 2016, rwyf wedi ceisio sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol drwy'r strategaeth a osodwyd yng Nghynllun Heddlu a Throsedd 2017 – 2021 ac, yn benodol, drwy fy mhum blaenoriaeth heddlu a throsedd strategol:

- Cam-drin Domestig
- Caethwasiaeth Fodern
- Trosedd Trefnedig
- Cam-drin Rhywiol (sy'n cynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant)
- Cyflawni Cymdogaethau Diogelach

Er y gellir ond gwneud asesiad ynghylch a wyf wedi cyflawni'r swyddogaeth hon yn gywir ar ddiwedd fy nhymor, arolygir effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Heddlu yn flynyddol gan **HMICFRS** yn asesiad PEEL.




## Arolwg PEEL

Gwnaeth Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) Ei Mawrhydi gynnal arolwg integredig PEEL (Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb) Heddlu Gogledd Cymru ym misoedd Ebrill a Mai 2019.

Roedd hwn yn arolwg pythefnos yn edrych ar bob agwedd o blismona Gogledd Cymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 6 Chwefror 2020 ac arweiniodd at radd 'Da' ym mhob categori ac yn gyffredinol.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i gael ei gydnabod fel bod yn dda ar leihau trosedd a chadw pobl yn ddiogel. Canfu'r arolwg fod gan yr heddlu ddealltwriaeth gyffredinol dda o natur a maint bregusrwydd yn yr ardal a bod ei swyddogion a'i staff yn dda am warchod pobl fregus o'r cyswllt cychwynnol hyd nes i achosion gyrraedd y llysoedd. Canmolwyd Heddlu Gogledd Cymru am gyhoeddi Hysbysiadau Gwarchod Trais Domestig (DVPN) er mwyn atal troseddwyr cam-drin domestig rhag cyflawni troseddau pellach. Dyma'r nifer uchaf fesul pob pen o'r boblogaeth yn 2018/19 allan o 43 heddlu Cymru a Lloegr. Ers i ganfyddiadau'r arolwg gael eu cyflwyno i'r heddlu, mae llawer iawn o waith ar wella'r meysydd hynny a nodwyd wedi dechrau, gan gynnwys rheoli troseddwyr rhyw cofrestredig.

Nodwyd y Gynghrair Drylliau Tanio rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Swydd Gaer fel trefniant gweithio ar y cyd effeithiol i ddarparu lleoli, hyfforddiant a rheolaeth sicr ar ymgyrchoedd arfog yn y ddau heddlu.

Cafodd agwedd newydd Heddlu Gogledd Cymru at gyllidebu (PRP) ei gydnabod fel un sy'n galluogi'r heddlu i fodloni galw a'r blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer plismona yn well. Ond argymhellodd yr arolygaeth yr angen am ddata ychwanegol i wella'r asesiad ar gyfer galw yn y dyfodol ar gyfer rhagweld cywir.

## Arolwg Amddiffyn Plant Gogledd Cymru HMICFRS

Gwnaeth HMICFRS gynnal arolwg Amddiffyn Plant Heddlu Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2019. Roedd hyn yn rhan o'r rhaglen dreiglol o arolygon y mae HMICFRS yn ei chynnal o holl heddluoedd Cymru a Lloegr. Digwyddodd yr arolwg dros gyfnod o bythefnos ac roedd yn arolygu sut mae'r heddlu'n amddiffyn plant ac yn ymchwilio i adroddiadau o gam-drin plant. Canfu HMICFRS fod yr heddlu'n cyflawni i safon dda'n gyffredinol o ran amddiffyn a diogelu plant.

Profodd Heddlu Gogledd Cymru fod ganddo arfer cadarnhaol a threfniadau gweithio effeithiol gydag asiantaethau partner.

Mae staff ein hystafell reoli yn drwyadl wrth rannu gwybodaeth gyda swyddogion ymateb rheng flaen i'w cynorthwyo i wneud gwell penderfyniadau ynghylch y ffordd orau i amddiffyn plant. Profodd Heddlu Gogledd Cymru hefyd fod ymchwiliadau a arweinir gan swyddogion arbenigol yn dda, gyda phenderfyniadau ar y cyd a gweithgarwch ymchwiliol sy'n cael ei gofnodi'n glir.

Mae'r meysydd sy'n peri pryder a nodwyd gan yr arolygaeth wedi'u derbyn. Mae gwaith wedi'i gwblhau ac mae'n parhau i fod er mwyn unioni'r rhai hynny sydd angen gwelliant. Roedd HMICFRS i fod i ailymweld â'r heddlu ym mis Ebrill 2020 er mwyn arolygu cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn. Ond oherwydd COVID19, mae hyn wedi'i oedi. Rwyf yn hyderus fod cynnydd wedi'i wneud mewn meysydd a nodwyd ac rwyf yn edrych ymlaen i HMICFRS ddychwelyd i adolygu ei gynnydd unwaith mae eu gwaith arolygu'n ailddechrau.

Rwyf yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref yn dilyn holl arolygon sy'n benodol i Heddlu Gogledd Cymru. Ceir holl lythyrau at arolygon HMCFRS ar fy ngwefan yma.

## 2. Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif

Y prif ddull rwyf yn parhau i'w ddefnyddio i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yw drwy'r Bwrdd Strategol Gweithredol rwyf yn ei Gadeirio ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn aelodau.

Mae'r Bwrdd hwn yn cyfarfod yn rheolaidd ac rwyf yn derbyn adroddiadau ar nifer o agweddau o swyddogaethau'r Prif Gwnstabl. Mae'r rhain yn cynnwys ystadegau troseddau ar gyfer y cyfnod cyn y cyfarfod, crynodeb perfformiad misol (yn cynnwys gwybodaeth perfformiad lleol), adroddiadau ariannol, canlyniadau arolygon swyddogion a staff a bodlondeb y cyhoedd. Rwyf hefyd wedi gofyn am ddiweddariadau cyson ar y Defnydd o Rym, Gofal nid y Ddalfa, Adnoddau Dynol a datblygiad cynaliadwy i'w ystyried ar y Bwrdd hwn.

Mae craffu pellach ar yr Heddlu yn cael ei wneud gan fy Mwrdd Craffu Safonau Proffesiynol, fy Mhanel Craffu Amlasiantaeth, fy Mwrdd Cyd Lywodraethu, fy Mhanel Ymwelwyr Annibynnol y Ddalfa ac ymarferion hapsamplo ymchwiliadau cwynion Safonau Proffesiynol a galwadau at y system 101. Rwyf wedi rhoi mwy o wybodaeth am fy rôl craffu a'r gefnogaeth sydd gen i yn eu lle ar fy ngwefan.




## Craffu'r Ystafell Reoli – Hapsamplo 101

Mae hapsamplo 101 yn cael ei gynnal bob chwarter gyda 20 o alwadau'n cael eu hadolygu ar ddiwrnod sydd wedi'i ddewis ar hap o fewn y chwarter blaenorol. Mae'r system hon bellach wedi bod yn ei le am flwyddyn ac mae'n gweithio'n dda. Rydym wedi nodi meysydd i'w gwella fel defnyddio cyfarchiad dwyieithog ar ddechrau unrhyw alwad. Yn dilyn adborth mae'r Heddlu wedi rhoi mwy o arweiniad ac mae gwelliant wedi bod.

Mae hefyd enghreifftiau ardderchog o wasanaeth cyhoeddus da wedi'u nodi yn ystod yr hapsamplo gydag unigolion wedi mynd tu hwnt i'w rolau ac wedi arddangos tosturi ac amynedd yn ystod galwadau anodd. Rhoddir holl adborth i'r trinwyr galwadau a'u goruchwylwyr.

Mae nifer o drafodaethau, ymweliadau a heriau yn digwydd bob dydd i sicrhau bod yr Heddlu a phartneriaid eraill yn canolbwyntio ar amcanion plismona allweddol ac yn cael eu nodi yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

## 3. Dod â phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol at ei gilydd

Mae'n amlwg i mi er mwyn cyflwyno'r blaenoriaethau strategol sydd wedi eu hamlinellu'n fy Nghynllun, mae cefnogaeth ein partneriaid yn hanfodol - ni all yr heddlu ymdrin â bregusrwydd a chamfanteisio ar ei ben ei hunain.

Rwyf i'n aelod o'r pwyllgorau a'r byrddau rhanbarthol a Chymru Gyfan canlynol:

- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan
- Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru
- Bwrdd Cynllunio Ardal
- Bwrdd Arweiniad Rhanbarthol
- Bwrdd Rhanbarthol Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).
- Bwrdd Cenedlaethol Camau Cynnar Gyda'n Gilydd (Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod)
- Grŵp Plismona Cymru Gyfan
- Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru
- Cydbwyllgor Goruchwylio'r Gogledd Orllewin

Mae gen i ddyletswydd i sicrhau bod y "cyrff cyfiawnder troseddol sy'n ymarfer swyddogaethau fel cyrff cyfiawnder troseddol yn yr ardal blismona honno plismona hwnnw", yn darparu system cyfiawnder troseddol effeithlon ac effeithiol. Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, rwyf yn Gadeirydd **Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru** (NWCJB). Mae'r NWCJB yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n cael ei weinyddu gan fy swyddfa.

Mae aelodau'r NWCJB yn cynnwys y Prif Gwnstabl, Pennaeth Adran Gwasanaethau Cyfiawnder, a chynrychiolwyr o Wasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, CEM Berwyn, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid.

Nod cyffredinol y Bwrdd yw "Darparu fforwm amlasiantaeth ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, rhoi arweinyddiaeth a llywodraethu, a nodi a goresgyn rhwystrau er mwyn cyflawni Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol mwy effeithlon ac effeithiol yng Ngogledd Cymru sy'n rhoi anghenion dioddefwyr a phobl fregus (gan gynnwys defnyddwyr cyffuriau) wrth ei galon".




## Checkpoint Cymru

Cyflwynwyd Checkpoint Cymru, fy nghynllun dargyfeirio troseddwyr sy'n oedolion, ym mis Rhagfyr 2019.

Mae Checkpoint Cymru yn brosiect dargyfeirio gwirfoddol i droseddwyr sy'n oedolion ac yn seiliedig ar y model llwyddiannus sydd wedi bod ar waith yn Durham ers 2015. Mae'r rhaglen yn ceisio cynorthwyo troseddwyr lefel isel sy'n dod i'r system cyfiawnder troseddol drwy roi opsiwn arall iddynt yn hytrach nag erlyniad troseddol.

Mae'r dewis hwn yn rhaglen pedwar mis (fel arfer, ond gall gael ei deilwra ar gyfer amgylchiadau unigol) sy'n nodi ac yn ymdrin ag achosion sylfaenol eu hymddygiad troseddol. Os yw'r troseddwr yn methu cwblhau neu gydymffurfio gyda'r rhaglen, byddant yn dychwelyd i'r system cyfiawnder troseddol ac yn wynebu erlyniad.

Yn yr adroddiad hwn, rwyf yn cyfeirio at fy safbwyntiau ar bolisi cyffuriau ac y dylai defnyddwyr cyffuriau gael eu trin fel problem iechyd yn hytrach na mater troseddol. Mae Checkpoint Cymru yn adeiladu ar yr ethos hwnnw ac ar ddyhead am fwy o ffocws ar achosion sylfaenol ymddygiad troseddol.

Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ystod 2019/20 i ddod â'm gweledigaeth i realiti. Penodwyd Rheolwr Checkpoint Cymru ym mis Gorffennaf 2019 a dechreuodd y broses gyfweld ar gyfer y tîm o naw Llywiwr sy'n gweithio'n agos gyda'r cleientiaid.

Tra fy mod yn ariannu'r rhaglen yn ei chyfanrwydd, cyflogir y Llywiwr gan Heddlu Gogledd Cymru. Pan gawsant eu penodi fe aethant drwy becyn hyfforddiant dwys a oedd yn cynnwys:

- **Iechyd Meddwl**
- **Ffiniau Proffesiynol**
- **Ymwybyddiaeth o Gamddefnyddio Sylweddau**
- **Rhaglen Addysg Cyffuriau Hyfforddi'r Hyfforddwr**
- **Hyfforddiant "GRYM" Merched mewn Cyfiawnder**
- **Hyfforddiant Pecyn Cymorth Adfer ACE**
- **Cyfiawnder Adferol**
- **RhDDC**

Ers i'r rhaglen fynd yn fyw ym mis Rhagfyr 2019 rydym wedi cael nifer cyson a chynyddol o atgyfeiriadau bob mis. Ar yr adeg yr ysgrifennwyd hwn, mae atgyfeiriadau'n 40-60 y mis sydd wedi cynnwys troseddau fel lladrata o siopau, troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a meddu cyffuriau. Drwy'r Rhaglen Addysg Cyffuriau rydym wedi llwyddo i ddargyfeirio bron i **200** o bobl i ffwrdd o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol a oedd â meddiant personol o gyffuriau. Mae'n parhau i fod yn ddyddiau cynnar i Checkpoint Cymru. Ond mae'r arwyddion hyd yma yn galonogol gyda llawer o ganlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni. Rwyf yn hynod falch o weld y rhaglen hon yn dwyn ffrwyth ac rwyf yn edrych ymlaen at ei datblygiad dros y misoedd nesaf.

## 4. Cydweithredu gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill

Mae cydweithredu gyda chomisiynwyr heddlu a throsedd eraill i ffurfio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd heddluoedd yn swyddogaeth bwysig ac mae'n cyfrannu tuag at gyflawni'r Gofyniad Plismona Strategol. Rwyf wedi ceisio cyflawni'r swyddogaeth hon drwy gael cyfarfodydd cyson gyda fy nghyd Gomisiynwyr a'u Prif Gwnstabliaid yng Nghymru a Gogledd Orllewin Lloegr.

Mae'r cydweithredu rhwng Heddlu Gogledd Cymru a heddluoedd Gogledd Orllewin Lloegr o bwysigrwydd arbennig i blismona Gogledd Cymru. Mae'r ffaith ei fod yn agos yn ddaearyddol yn golygu fod gennym flaenoriaethau a rennir ar gyfer ymdrin â throsedd trefnedig a difrifol, yn ogystal â chynnig cydweithredu gweithredol ar gyfer y gwasanaeth heddlu. Rwyf yn parhau i edmygu'r canlyniadau a gyflawnir gan yr Uned Trosedd Trefnedig Rhanbarthol (Titan). Mae'n enghraifft ardderchog o weithio ar y cyd yn cyflawni canlyniadau gwirioneddol sy'n cadw cymunedau Gogledd Cymru yn ddiogel.

Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ystod y cyfnod adrodd hwn ar nifer o **brosiectau cydweithredu** rhwng pedwar heddlu Cymru, rhai'r Gogledd Orllewin a phrosiectau cenedlaethol. Mae cynnydd penodol o bwys yn cynnwys:

### Lansio e-recriwtio (OLEEO) ym mis Gorffennaf 2019

- Mae pedwar heddlu Cymru yn awr yn fyw gyda E-recriwtio ar y llwyfan Oleeo yn sicrhau bod holl recriwtio swyddogion ledled Cymru yn gwbl awtomatig ac yn gyson ledled yr heddluoedd.
- Mae Heddluoedd Dyfed Powys a De Cymru bellach wedi ymuno â Heddluoedd Gogledd Cymru a Gwent drwy lansio recriwtio Staff yr Heddlu ar-lein.

### Rhaglen Alluogi Genedlaethol (NEP)

Cafodd y **Rhaglenni Galluogi Cenedlaethol** neu NEP – eu creu i gyflwyno llwyfan diogel a safonau cenedlaethol sy'n galluogi ffyrdd newydd o weithio a chydweithredu ar gyfer y 43 heddlu sy'n cwmpasu plismona ledled Cymru a Lloegr. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gwneud cynnydd da yn ystod y cyfnod hwn gyda gwaith yn y cefndir. Hyd yma mae HGC wedi;

- Cymeradwyo 50 o Ddefnyddwyr ar gyfer peilot technegol yn genedlaethol
- Cymeradwyo Cyflymu gwyro o'r cynllun cenedlaethol i gynllunio lliniaru COVID19 yn genedlaethol
- Seilwaith TGCh NEP ar waith i gynorthwyo gweithio o'r cartref

Gwnaeth yr heddlu adrodd bod ychydig o dan 1,000 o staff yn gweithio o'r cartref yn llwyddiannus ym mis Ebrill o ganlyniad i COVID-19. Mae hyn wedi elwa o'r gwaith a gwblhawyd eisoes ar gyfer y NEP.

## Hafan Ar-lein Unigol (SOH)

Mae Hafan Ar-lein Unigol (SOH) yn wasanaeth cownter blaen cenedlaethol a digidol sy'n cynnig ystod o wasanaethau plismona (mwy na 40 i gyd) o ansawdd uchel a chyson. Mae'r rhain yn cynnwys riportio am droseddau ar-lein, ymgeisio am drwydded dryll tanio neu ofyn am wybodaeth am achosion trais domestig o'r gorffennol (o dan Gyfraith Clare).

Mae gwaith paratoi HGC ar gyfer SOH wedi symud ymlaen yn ystod y cyfnod hwn gyda'r prosiect yn symud at ddechrau'r cyfnod gweithredu. Fodd bynnag, nodwyd nifer o broblemau gyda'r system, a oedd yn cynnwys pryderon ynghylch y Gymraeg, tudalennau Ein Hardal a'r system ar brawf.

Mae Hafan Ar-lein Unigol yn rhoi cyfle aruthrol i blismona leihau'r galw a roddir ar y system ffôn 101. Mae hon yn broblem sy'n parhau i gael ei chodi gyda mi'n aml yn uniongyrchol gan aelodau o'r cyhoedd a'r rhai hynny sy'n cysylltu â'm swyddfa i gwyno am wasanaeth gwael. Gyda hynny mewn golwg, edrychaf ymlaen at gynnydd pellach yn 2020/21.

## Trawsnewid Gwaith Fforensig/ Gwaith Fforensig Digidol/ Ymchwiliadau Gwrthdrawiadau Fforensig

Mae Gwaith Fforensig yn rhan hanfodol o blismona sy'n wynebu heriau byd sy'n mynd yn fwy a mwy digidol. Mae ein gwasanaeth fforensig angen moderneiddio, mae hefyd angen dod yn fwy effeithlon ac effeithiol, gan fanteisio ar dechnoleg ac arloesedd sydd ar flaen y gad. Gwneir hyn mewn ymateb i alwadau presennol ac yn y dyfodol.

Mae Trawsnewid Fforensig yn rhaglen a wnaiff:

- Lunio a chreu gwasanaethau fforensig a fydd yn cynnig gwell gwarchodaeth i'r cymunedau a wasanaethwn a'r gwasanaeth gorau posibl i ddioddefwyr trosedd;
- Ystyried gwasanaethau modern, effeithlon, cynaliadwy a phennaf y byd gan sicrhau cyflawniad, arloesedd, hyfforddiant a chymorth cyson ac o ansawdd uchel ledled y DU;
- Cynorthwyo gwyddorau fforensig ledled gorfodi'r gyfraith er mwyn bodloni heriau'r dyfodol a chyflawni newid trawsnewidiol parhaol.

Gwnaeth Heddlu Gogledd Cymru weithredu newidiadau ar unwaith er mwyn sicrhau a chynnal gallu a chapasiti fforensig gweithrediadol wrth fodloni cyfyngiadau COVID-19. Mae mesurau wedi cynnwys pellhau corfforol timau lle mae'n bosibl a darparu Cyfarpar Diogelu Personol i staff. Sicrheir hefyd fod gweithdrefnau ar gyfer trin arddangosion sydd o bosib wedi'u heintio.

## Ymchwiliadau Gwrthdrawiadau Fforensig

Cydnabyddir Heddlu Gogledd Cymru fel y prif Heddlu yng Nghymru a Lloegr am ymchwiliadau gwrthdrawiadau fforensig. Felly, bydd y Rhwydwaith Ymchwiliadau Gwrthdrawiadau Fforensig (FCIN) yn cael ei chynnal gan Heddlu Gogledd Cymru gyda'r PGC Sacha Hatchett yn arweinydd CCPSH ymchwiliadau gwrthdrawiadau fforensig.

Mae'r Rheoleiddiwr Gwyddorau Fforensig wedi cyfarwyddo fod rhaid i holl swyddogaethau Ymchwiliadau Gwrthdrawiadau Fforensig gydymffurfio gyda safonau llym erbyn mis Hydref 2020 (wedi'i ymestyn tan fis Hydref 2021 oherwydd COVID-19). Bydd gan heddluoedd sy'n ymuno â'r Rhwydwaith estyniad pellach tan fis Hydref 2022.

Y disgwyliad yw y bydd holl Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn ymuno â'r rhwydwaith ac edrychaf ymlaen at gynnydd parhaol dros y 12 mis nesaf.

## Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN)

Mae dyfodiad COVID-19 wedi ailddatgan chwant traws-Lywodraethol i wthio ymlaen gyda phrosiectau mawr sy'n dod â budd economaidd. Mae'r ESN yn eu mysg tra mae'r Swyddfa Gartref wedi dweud fod yr ESN yn parhau ar frig eu blaenoriaethau.

Mae'r heddluoedd yng Nghymru wedi parhau i symud gwaith ymlaen yn barod ar gyfer yr ESN.

Mae hyn yn cynnwys mapio systemau sydd wedi'u cytundebu ar hyn o bryd ac unrhyw estyniadau cytundebau i systemau lleol sy'n rhyngweithiol neu'n rhyngddibynnol gyda'r rhaglen ESN.

Rwyf yn parhau i bryderu am yr oedi parhaus sy'n cael ei achosi o fewn y rhaglen hon. Rwyf wedi codi fy mhryderon gyda Llywodraeth y DU ynghylch y costau ychwanegol sy'n cael eu cronni gan Heddlu Gogledd Cymru o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r dechnoleg ar gael. Mae hyn o ran cymryd cyfran o grantiau'r llywodraeth i ariannu'r cynllun, a hefyd y gost gynyddol o barhau gydag Airwave.




## Cydweithrediad Tri Heddlu

Mae cyfeiriad a gwaith y Rhaglen Tri Heddlu (Gogledd Cymru, Glannau Mersi a Swydd Gaer) yn y dyfodol o dan adolygiad ar hyn o bryd. Y bwriad gwreiddiol oedd creu achosion busnes ar gyfer cydweithredu o ran:

- **Niche RMS**

  RMS yw'r system rheoli cofnodion a ddefnyddir gan y 3 Heddlu. Aeth llwyfan cyfunol Glannau Mersi a Gogledd Cymru yn fyw ar 14 Hydref 2018. Ers hynny, ac yn enwedig yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwireddwyd y canlyniadau bwriadol o gael data a rennir bron ar unwaith. Ers mynd yn fyw, oherwydd y wybodaeth gyfoethocach sydd ar gael i staff, mae llawer o arestiadau a phenderfyniadau mwy gwybodus wedi cael eu gwneud sydd yn ddiamau wedi gwella'n gallu i gadw'r cyhoedd yn ddiogel yn sylweddol.

- **Cudd-wybodaeth**

  Mae gwaith cydweithredol yn parhau rhwng y tair adran cudd-wybodaeth.

- **Cyfiawnder Troseddol**

  Mae gwaith cydweithredol wedi'i ohirio yn y maes hwn pan yr ysgrifennwyd hwn oherwydd COVID-19.

- **Y Dalfeydd**

  Rhoddir ystyriaeth ragarweiniol i'r posibilrwydd o gydweithredu gyda hyfforddiant dalfeydd.

# Blwyddyn o ymgysylltu

Rwyf yn cynrychioli ein holl gymunedau ar draws Gogledd Cymru yn sicrhau bod eu gwasanaeth plismona mor effeithiol ac effeithlon â phosib. Rwyf felly yn rhoi pwysigrwydd mawr ar fynd allan o'r swyddfa a chwrdd â phobl ar bob cyfle. Ni allaf gasglu gwybodaeth heb fynd i ddigwyddiadau, cyfarfodydd, cynadleddau a chyfarfod ag aelodau o gymunedau bywiog ac amrywiol Gogledd Cymru. Yma rwyf ond yn rhoi crynodeb bach o rai o'r digwyddiadau y mae fy Nirprwy a minnau wedi eu cynnal neu eu mynychu yn ystod 2019/20.



## Gwynedd

- Ymweld â Phrosiect Rhwyd Arall, Caernarfon
- Digwyddiad Uchel Siryf Gwynedd
- Ymweld â Mantell Gwynedd, Caernarfon
- Sioe Nefyn
- Ymweld â'r Prosiect Wisdom, Caernarfon
- Cymhorthfa Stryd gyda Chynghorwyr Lleol yng Nghaernarfon
- Gŵyl Jam Portmeirion
- Cymhorthfa Stryd gyda Chynghorwyr Lleol yn Harlech
- Cymhorthfa Stryd gyda Chynghorwyr Lleol yn y Bermo
- Cymhorthfa Stryd gyda Chynghorwyr Lleol o Neuadd Dyfi
- Cymhorthfa Stryd gyda Chynghorwyr Lleol o Ddinas Mawddwy



Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn y Bermo





## Conwy

- Gweithdy Pencampwyr Iaith Gymraeg, Parc Eirias
- Grŵp Llywio Llinellau Cyffuriau, Parc Eirias
- Lansiad Iechyd a Llesiant, Conwy
- Digwyddiad Windrush, Bae Colwyn
- Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid 2019, Deganwy Quay
- Ymweld ag Achubwyr Mynydd, Betws y Coed
- Eisteddfod Genedlaethol, Llanrwst
- Gwobrau Partneriaethau Datrys Problemau, Deganwy Quay
- Grŵp Amlasiantaethau Asesiad Anghenion Llinellau Cyffuriau, Llandudno
- Digwyddiad Comisiwn Ieuenctid, Bae Colwyn
- Lansiad Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhywedd, Llandudno



Cynhadledd Comisiwn Ieuenctid

## Wrecsam

- Agor Pencadlys Rhanbarthol yr Heddlu yn Llai yn swyddogol
- Lansio'r Heddlu Bach
- Lansio ymgyrch Llinellau Cyffuriau Crime Stoppers
- Cystadleuaeth logos Ysgol Gynradd Gwersyllt
- Digwyddiad Bawso
- Digwyddiad Priodasau Gorfodol, Trais ar Sail Anrhydedd, Llurgunio Organau Cenhedlu Merched a Chaethwasiaeth Fodern
- Siaradwr Gwadd i 90 o ddisgyblion Blwyddyn 5/6, Wrecsam



Heddlu Bach





## Sir Ddinbych

- Siaradwr Gwadd yn Age Connects Canol Gogledd Cymru, Dinbych
- Eisteddfod Ryngwladol Llangollen
- Lansiad Torri'r Distawrwydd Cam-drin Domestig, y Rhyl
- Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin Y Rhyl
- Lansio ADAPT a chloi'r digwyddiad, Llanelwy
- Ymweld â'r Ganolfan Merched, y Rhyl
- Cyfarfod blynyddol gyda Chadeiryddion y ddau Fwrdd Diogelu
- Digwyddiad Undeb Amaethwyr Cymru, Corwen
- Cynhadledd Ymwybyddiaeth Caethwasiaeth Fodern yn benodol i Ddiwydiannau, Llanelwy



Canolfan Merched y Rhyl

## Ynys Môn

- Cymhorthfa Stryd gyda Chynghorwyr Lleol yn Llangefni
- Sioe Môn
- Digwyddiad Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, Llangefni



Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymweld â Gorwel

## Sir y Fflint

- Siaradwr Gwadd yng Nghlwb Rotari'r Wyddgrug
- Seremoni Gwobrau'r Comisiynydd, yr Wyddgrug
- Cwrdd â Gwarchod y Gymdogaeth Brychdyn
- Gwobrau Gwirfoddolwyr ac Arddangosfa PACT Cymru, yr Wyddgrug
- Lansiad y Wasg Arddangosfa Trosedd Cyllyll Pentref Peryglon, Talacre
- Sioe Dinbych a Fflint



Clwb Pysgota Cei Connah a'r Cylch

## Digwyddiadau Cenedlaethol

Yn ychwanegol at gyfarfodydd a digwyddiadau ledled Gogledd Cymru, fe wnaeth fy Nirprwy a minnau hefyd fynychu nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau ledled y DU i greu partneriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol ac i gynrychioli cymunedau Gogledd Cymru. Mae'r isod ond ychydig a fynychwyd yn ystod y cyfnod hwn.

- Agor Cynhadledd Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru, Casnewydd
- Digwyddiad Trais Difrifol, Caerdydd
- Cyfarfod Llinellau Cyffuriau, Caerdydd
- Cynhadledd LHDT CCPSH 'Newid Gweithleoedd Gyda'n Gilydd, Creu Cytgord', Caerdydd
- Cynhadledd Gyntaf Cam-drin Domestig dan Arweiniad Goroeswyr i Oroeswyr yng Nghymru, Casnewydd
- Gwasanaeth Diwrnod Cenedlaethol Cofio'r Heddlu, Glasgow
- Cynhadledd Flynyddol Merched Arweiniol, Casnewydd
- Digwyddiad Dysgu Nalocson, Birmingham
- Gwobrau'r Arglwydd Ferrers 2019, Llundain
- 5ed Gynhadledd Ryngwladol ar Orfodi'r Gyfraith ac Iechyd Cyhoeddus, Caeredin
- Gwobrau Plismona'r Byd 2019, Llundain

## Sioeau Amaethyddol a Chenedlaethol

Rhoddodd misoedd yr haf y cyfle i mi fynd allan a siarad â'm cymuned leol yn y sioeau amaethyddol a chenedlaethol. Maent yn rhoi cyfle gwych i glywed am faterion lleol, gofidiau'r cyhoedd a dod i adnabod pobl ar draws Gogledd Cymru.

## Digwyddiadau Ymgynghori

Er mwyn ysgrifennu neu adolygu fy Nghynllun Heddlu a Throsedd ac er mwyn hysbysu cynigion fy mhraesept bob blwyddyn, rhaid i mi ymgynghori gyda phobl Gogledd Cymru i glywed eu safbwyntiau. Mi wnes i gynnal nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ar y cyd gyda'r Prif Gwnstabl er mwyn gwrando ar eich safbwyntiau ar fy amcanion heddlu a throsedd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn bwysig iawn oherwydd eu bod yn caniatáu i mi ddeall problemau a chlywed barn cymunedau Gogledd Cymru.

Roedd yr Arolwg Ymgynghorol Praeseptau yn agored rhwng 2 Rhagfyr 2019 a 17 Ionawr 2020. Roedd cyfanswm o 489 o ymatebion i'r arolwg gyda 44 yn Gymraeg a 445 yn Saesneg. Roedd cyfanswm nifer yr ymatebion yn sylweddol is na'r nifer a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gwnaeth yr Etholiad Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2019 atal hyrwyddo'r arolwg yn helaeth oherwydd y cyfyngiadau o fewn y canllaw cyn etholiad.

Yn dilyn adborth o arolygon blaenorol, fe wnes i sicrhau eleni fod yr arolwg yn hygyrch mewn nifer o fformatau. Roedd yr arolwg ar gael ar-lein, ar bapur ac mewn fformat Darllen Hawdd. Roedd 15 o gopïau papur wedi'u derbyn a derbyniwyd pump o arolygon Darllen Hawdd. Yn ogystal, fe wnaeth y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd fynychu nifer o grwpiau i Bobl Hŷn er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad ac yn cael y cyfle i'w gwblhau un ai ar-lein neu ar bapur.

## Y Trydydd Sector

Mae'n bwysig iawn i mi ymweld ag asiantaethau trydydd sector i weld eu cyfraniad ardderchog i'n cymunedau. Maent yn darparu ystod eang o wasanaethau i'r gymdeithas i gyd ac yn rhan allweddol o weithio mewn partneriaeth.

Ar 21 Tachwedd 2019 fe wnes i gynnal fy Nigwyddiad Ymgysylltu â'r Trydydd Sector blynyddol i ymgysylltu ar y cyd gyda sefydliadau o'r sector gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol (a adwaenir hefyd fel y trydydd sector). Prif ddiben y digwyddiadau hyn yw ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a cheisio eu hadborth ar y blaenoriaethau plismona. Gwnaeth 95% o'r rhai hynny a oedd yn bresennol gytuno neu gytuno'n gryf gyda'r blaenoriaethau presennol. Ceir adroddiad llawn ar ddigwyddiad 2019 ar fy ngwefan yma.

## Grwpiau Cymunedol

Yn ogystal ag asiantaethau'r trydydd sector rwyf wedi cael y fraint o fynychu nifer o grwpiau cymunedol o Ynys Môn i Wrecsam. Rwyf yn teimlo ei bod hi'n hanfodol i ddangos fy nghefnogaeth i'r grwpiau hynny sy'n cyfrannu mewn rhyw ffordd at bob oed yn ein cymdeithas.



## Noson Gwobrau Cymunedol y CHTh – 3 Hydref 2019 – Theatr Clwyd, yr Wyddgrug

Cynhaliwyd noson gwobrau cymunedol blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar 3 Hydref 2019 yn Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug. Mae'r digwyddiad yn symud ledled Gogledd Cymru bob blwyddyn i wahanol leoliad o fewn tri rhanbarth gwahanol yr Heddlu.

Cyflwynwyd deg gwobr yn y seremoni. Roeddent i gyd yn enillwyr teilwng iawn. Mae'r categorïau ar gyfer y gwobrau'n adlewyrchu fy mlaenoriaethau plismona a gaiff eu hamlinellu yn y cynllun heddlu a throsedd.  Eleni roedd ffocws cryf ar fentrau "Camau Cynnar". Cafwyd casgliad o wobrau i sefydliadau sy'n cymryd camau ataliol i ymdrin â'r problemau sy'n codi o ran Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod neu broblemau cymunedol eraill sy'n creu bregusrwydd ac angen a all ddarfod mewn argyfwng.

Mae Cobra Life CIC, Medrwn Môn a Rhwyd Arall i gyd yn sefydliadau sydd wedi cynorthwyo pobl sy'n fregus ac sydd efallai wedi profi trawma. Mae'r gwaith a gyflawnir gan y cyrff hyn yn allweddol i atal bregusrwydd a throseddau a phroblemau cymunedol pellach a mwy cymhleth.

Fel erioed, cafodd adsefydlu a chyflawniad da gan wasanaethau cam-drin domestig eu hamlygu a'u cydnabod, fel yr oedd cydraddoldeb ac amrywiaeth a gweithio da mewn partneriaeth.

# Blaenoriaethau Strategol y Cynllun Heddlu a Throsedd – Adroddiad Cynnydd 2019/20:

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rwyf yn gyfrifol am gyfeiriad strategol plismona yng Ngogledd Cymru  Mae'r cyfeiriad strategol wedi ei osod allan yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am bob mater gweithredol ac am gyflawni fy Nghynllun.

Bydd yr adran hon o'r adroddiad blynyddol yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed yn 2019/20 yn erbyn fy mlaenoriaethau strategol a amlinellir yn fy Nghynllun.

Mae fy amcanion heddlu a throsedd wedi cael eu datblygu mewn ymateb i'r meysydd bygythiad, risg neu niwed mwyaf sy'n wynebu cymunedau Gogledd Cymru. Maent hefyd wedi elwa o broses ymgynghorol ddwys. Rwyf yn anghytuno gyda chael gormod o flaenoriaethau. Yn ôl ei natur, ni all popeth fod yn flaenoriaeth.

Rwyf wedi nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.

- **Cam-drin Domestig**
- **Cam-drin Rhywiol (yn cynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant)**
- **Caethwasiaeth Fodern**
- **Trosedd Trefnedig**
- **Cyflawni Cymdogaethau Diogelach**

Yn ychwanegol, yn 2018/19 cyflwynais nod cyffredinol o 'leihau camfanteisio'n droseddol ar bobl fregus'. Mae Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl yn amlinellu gweithrediadau penodol y gwnaiff Heddlu Gogledd Cymru eu cymryd wrth gyflawni'r blaenoriaethau hyn. O bwys yw'r pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth i ymdrin â nhw. Mae holl feysydd blaenoriaeth yn cyflwyno problemau sydd tu hwnt i blismona a gellir ond cyflwyno ymateb effeithiol mewn partneriaeth.

## Cam-drin Domestig

### Ymgyrch Encompass

Encompass yw prosiect sydd wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref sy'n cael ei gynnal ar y cyd rhwng ysgolion a Heddlu Gogledd Cymru. Aeth y prosiect yn fyw yn siroedd Wrecsam a'r Fflint ar 20 Ionawr 2020. Tra ei fod tu allan i gyfnod adrodd yr adroddiad hwn, rwyf yn falch o gadarnhau fod Môn, Gwynedd a Sir Ddinbych wedi mynd yn fyw ar 27 Ebrill 2020 a Sir Conwy ar 4 Mai 2020. Menter genedlaethol yw Encompass ar gyfer gallu rhannu gwybodaeth rhwng heddluoedd ac addysg mewn ymgais i gynorthwyo plant sydd wedi bod yn dyst i gam-drin domestig. Ei nod yn bennaf yw i ysgol gael ei rhybuddio am blentyn sydd wedi profi cam-drin domestig mor gynnar â phosibl er mwyn rhoi cymorth ar unwaith. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod y gall holl achosion o gam-drin domestig fod yn niweidiol i blant a phobl ifanc.

Mae Oedolion Allweddol Hyfforddedig wedi'u lleoli ym mhob ysgol er mwyn caniatáu iddynt gysylltu â'r heddlu. Maent yn gallu defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i rhannu, yn gyfrinachol, i sicrhau fod yr ysgol yn darparu ar gyfer anawsterau posibl a brofir gan blant neu eu teuluoedd.

### Darpariaeth IDVA rhanbarthol

Cyn mis Ebrill 2020, darparwyd y gwasanaeth IDVA yng Ngogledd Cymru gan nifer o wahanol ddarparwyr gwasanaeth arbenigol gwahanol. Arweiniodd hyn at anghysonderau o ran darpariaeth, gan gynnwys prosesau gweithredu ac amseroedd pryd y gellid cael mynediad at y gwasanaeth. Yn 2019 fe wnaeth Bwrdd Strategol VAWDASV Gogledd Cymru gomisiynu gwasanaeth mwy cyson a chydlynol wrth barhau i gynnal arbenigedd lleol. Arweiniodd hyn at broses gomisiynu, gyda'r rhanbarth wedi'i rannu i dri isranbarth ar wahân. Gwahoddwyd darparwyr i ymgeisio am un, dau neu bob un o'r isranbarthau.

[3] Mae IDVA yn gweithio i fynd i'r afael â diogelwch pobl sydd mewn perygl uchel o drais domestig gan bartneriaid agos, cyn bartneriaid ac aelodau'r teulu i sicrhau eu diogelwch a diogelwch eu plant. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda dynion a merched.

Mae'r gwasanaeth newydd a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2020 yn cael ei gynnig ledled chwe ardal awdurdod lleol. Mae'n cael ei ddarparu gan Gorwel yng Ngwynedd a Môn ac Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU) Gogledd Cymru yn siroedd Wrecsam, y Fflint, Dinbych a Chonwy. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ddydd a nos (24/7), gyda'r IDVA yn gweithio ar rota ranbarthol i gyflenwi gyda'r nosau a phenwythnosau. Mae'r rota hon wedi'i datblygu gyda Heddlu Gogledd Cymru er mwyn sicrhau fod holl Swyddogion Cam-drin Domestig yn ymwybodol o ba IDVA sy'n gweithredu a phryd. Mae hyn yn galluogi gwasanaeth esmwyth a chyson i'r dioddefwr, waeth bynnag eu lleoliad daearyddol.

## Gorchmynion Gwarchod Trais Domestig (DVPO) a Hysbysiadau Gwarchod Trais Domestig (DVPN)

Nod **Hysbysiad (DVPN)** a **Gorchymyn (DVPO)** yw rhoi gwarchodaeth ar unwaith i ddioddefwyr yn dilyn achos o drais domestig a rhoi'r amser iddynt ystyried yr hyn i'w wneud nesaf.

## BETH YW DVPN?

**Hysbysiad Gwarchod Trais Domestig (DVPN)** yw hysbysiad a roddir gan yr heddlu yn erbyn rhywun sydd dros 18 oed, lle mae'r **heddlu'n credu'n rhesymol eu bod wedi bod yn dreisgar neu wedi bygwth trais a bod dioddefwr** angen cael ei warchod rhagddynt.

**Mae'r gyfraith yn caniatáu'r heddlu i roi DVPN ar yr unigolyn hwn hyd yn oed os nad yw'r dioddefwr yn cytuno.**

## BETH MAE DVPN YN EI WNEUD?

Mae Hysbysiad yn gosod amodau penodol ar yr unigolyn a all gynnwys:

- eu rhwystro rhag dod i mewn i, a'u rhwystro rhag bod o fewn pellter penodol, o gartref y dioddefwr;
- eu rhwystro rhag gwneud i'r dioddefwr adael neu eu heithrio o'u cartref;
- gofyn iddynt adael eu cartref.

Mae defnyddio a chymhwyso Hysbysiad yn parhau'n gryf iawn yng Ngogledd Cymru. Rydym yn parhau i weld ceisiadau sylweddol i'r llysoedd sy'n cael eu cefnogi. Mae adborth dioddefwyr yn gadarnhaol ac mae'n cefnogi defnyddio Hysbysiad. Ystyrir y dacteg hon fel mecanwaith yn y gostyngiad cyffredinol mewn troseddwyr mynych Cam-drin Domestig.

Yn eu harolwg PEEL, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, gwnaeth HMICFRS ddweud: "Roedd y nifer o hysbysiadau gwarchod trais domestig (DVPN) a ddefnyddiwyd yn 2018/19 gan yr Heddlu er mwyn atal troseddwyr cam-drin domestig rhag troseddu ymhellach yr uchaf am bob pen o'r boblogaeth ledled bob heddlu yng Nghymru a Lloegr. Plennir pwysigrwydd defnyddio Hysbysiadau i warchod dioddefwyr ym mhob lefel o'r heddlu."

### Arolwg boddhad a hyder dioddefwyr (data deg mis tan fis Medi 2019)

| Mesur | Canlyniad | Mesur | Canlyniad | Mesur | Canlyniad | Mesur | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyswllt Cychwynnol | **90.2%** | Dilyniad | **67.4%** | Gwnaeth swyddogion gredu'r hyn wnaethoch ei ddweud | **94.9%** | Gwnaeth swyddogion dawelu eich meddwl | **90.1%** |
| Camau Cychwynnol yr Heddlu | **90.3%** | Rwy'n teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'r ymateb a dderbyniais gan yr heddlu. | **82.6%** | Roedd swyddogion yn deall eich sefyllfa | **90.3%** | Bodlon gyda'r driniaeth | **86.5%** |
| Cyswllt Swyddog Cam-drin Domestig | **95.2%** | Gwnaeth swyddogion wrando'n ofalus | **91.5%** | Gwnaeth swyddogion eich trin â pharch | **94.5%** | Rwy'n teimlo'n hyderus wrth ffonio'r heddlu eto. | **88.2%** |
| **Boddhad cyffredinol 84.2%** | | | | | | | |

# Cam-drin Rhywiol

## Tîm Ymchwiliadau Ar-lein yr Heddlu (POLIT)

Yn 2019 fe wnaeth POLIT ymchwilio 100 o atgyfeiriadau yn berthnasol i gam-drin plant yn rhywiol. Roedd y rhain yn cynnwys 2 drosedd gyswllt a 17 o atgyfeiriadau a gafodd asesiad risg Uchel Iawn/Uchel, ac a oedd angen gweithredu ar unwaith. Gwnaeth lleoli Ar-lein Cudd drwy Titan (Uned Trosedd Trefnedig y Gogledd Orllewin) nodi troseddwr risg uchel a thad i bump a oedd yn ymgysylltu mewn cyfathrebiad rhywiol ac yn annog proffil plentyn i ymgysylltu mewn gweithgarwch rhywiol. Arweiniodd ymgyrch ar y cyd gyda Titan a POLIT at yr un o dan amheuaeth yn cael eu harestio, a'r plant yn cael eu diogelu tra bod ymchwiliad pellach.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaeth lleoliadau POLIT o atgyfeiriadau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol o dan Ymgyrch Habitance II (Gwe dywyll) hefyd arwain at arestio dyn o'r Rhyl yn ddiweddar. Roedd wedi bod yn cael mynediad at y we dywyll ac roedd â chasgliad mawr o ddelweddau anweddus.

## Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

### *Cyfweliadau Dychwelyd Adref*

Mae ymchwil academaidd wedi dangos y gall cyfweliad dychwelyd adref roi cudd-wybodaeth i warchod plentyn rhag cael ei gamfanteisio os ydynt wedi bod ar goll o'u cartref. Yn yr hinsawdd bresennol mae camfanteisio ar blant wedi cynyddu wrth gynnwys camfanteisio troseddol yn ogystal â chamfanteisio'n rhywiol oherwydd y nifer o blant a ddefnyddir yn y modelau llinellau cyffuriau.

Ymddengys fod bwlch yn y ddarpariaeth o gyfweliad dychwelyd adref ledled Gogledd Cymru. Felly ysgrifennais at holl awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru gan ofyn am wybodaeth ar y gwasanaeth presennol a ddarparwyd. Dangosodd y cais gwybodaeth hwn fod darpariaeth anghyson ledled y rhanbarth. Er bod rhyw fath o gyfweliadau dychwelyd adref yn cael eu cynnal ym mhob ardal, dim ond dau sydd ag aelod penodol o staff sy'n cynnal y cyfweliadau hyn. Gwnawn barhau i fonitro cynnydd y cyfweliadau dychwelyd adref ledled y rhanbarth yn y flwyddyn i ddod.

# Caethwasiaeth Fodern

Mae Caethwasiaeth Fodern yn parhau i fod yn drosedd gudd i raddau helaeth. Ond mae'n bodoli ledled Gogledd Cymru ac mae'n dod i'r golwg mewn ffyrdd gwahanol. Yng Ngogledd Cymru mae llawer o'r troseddau Caethwasiaeth Fodern a ymdriniwyd â nhw eleni wedi bod yn gamfanteisio troseddol ar ffurf troseddau Llinellau Cyffuriau. Mae oddeutu hanner y troseddau a ymdrinnir gan yr Uned Camfanteisio Troseddol wedi cynnwys troseddoldeb Llinellau Cyffuriau. Mae eleni hefyd wedi gweld y defnydd cyntaf o Orchymyn Risg Caethwasiaeth a Masnachu Pobl a ddilynodd orchymyn cau ar eiddo. Parhaodd yr Heddlu i fonitro cudd-wybodaeth a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn troseddoldeb caethwasiaeth fodern. Maent wedi llwyddo i gynyddu'r nifer o swyddogion sydd wedi mynd ar Gwrs Ymchwilwyr Arbenigol Uned Trawsnewid yr Heddlu yn sylweddol.

Mae codi ymwybyddiaeth yn parhau i fod yn ffactor bwysig wrth ymdrin â Chaethwasiaeth Fodern. Ym mis Ionawr 2020, gyda nawdd o Gronfa Trawsnewid yr Heddlu o ran Caethwasiaeth Fodern, fe wnes i gynnal cynhadledd wedi'i hanelu at feysydd busnes y sector preifat a nodwyd i fod yn fregus.

Weithiau mae busnesau wedi'u sefydlu'n benodol ar gyfer cuddio troseddau fel gwyngalchu arian, masnachu pobl a chamfanteisio ar bobl. Mae modelau eraill yn defnyddio busnes cyfreithlon presennol i gyflawni a chynorthwyo gweithgareddau troseddol. Gall busnesau sydd wedi hen sefydlu a rhai llwyddiannus gael caethwasiaeth fodern wedi treiddio ynddynt heb i berchnogion a rheolwyr y busnes wybod neu ganiatáu hynny. Diben y gynhadledd oedd amlygu sut, mewn 3 maes busnes allweddol, y gall caethwasiaeth fodern fodoli o fewn busnesau cyfreithlon. Roedd y digwyddiad wedi'i anelu at y diwydiant adeiladu, ffermio/amaethyddiaeth a gwestai a lletygarwch.

Yn y pen draw ni all yr heddlu ei hun obeithio gallu ymdrin â'r broblem heb i bobl a busnesau Gogledd Cymru wybod amdani a bod yn ymwybodol ohoni.

Llwyddodd y digwyddiad i godi ymwybyddiaeth ymysg y rhai a oedd yn bresennol. Gwnaeth hefyd ysbrydoli digwyddiad pellach a gynhaliwyd yn Rhuthun ym mis Mawrth 2020. Mae SCHTh yn parhau i ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth am gaethwasiaeth fodern.

# Trosedd Trefnedig

## Lansio'r Tîm Rhwystro

Mae gweithgarwch gangiau Llinellau Cyffuriau yn fygythiad parhaus ac yn un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu cymunedau Gogledd Cymru. Dyna pam y gwnes gyflwyno'r flaenoriaeth strategol gyffredinol o leihau camfanteisio'n droseddol ar bobl fregus. Ym mis Chwefror 2020, cafodd uned plismona uwch-dechnoleg newydd ei sefydlu i reoli trosedd trefnedig a gangiau cyffuriau yng Ngogledd Cymru. Mae'r tîm yn defnyddio technoleg Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig i adnabod cerbydau aelodau gangiau a gwneud y rhanbarth yn amgylchfyd sy'n gwrthwynebu grwpiau troseddol yn gweithredu ynddi. Ariannwyd y twf hwn gan gynnydd yn y praesept a gytunwyd gan y Panel Heddlu a Throsedd ym mis Ionawr 2019.

Mae'r tîm wedi'i leoli mewn dau leoliad; Llai a Llandygai. Mae bob tîm ardal yn cynnwys rhingyll a saith cwnstabl. Maent yn canolbwyntio ar unigolion a lleoliadau ledled rhwydwaith ffyrdd Gogledd Cymru, gan gynnwys targedau Grwpiau Trosedd Trefnedig a Llinellau Cyffuriau sy'n peri problemau troseddol sylweddol i gymunedau lleol.

Mae'r Tîm Rhwystro yn cynnal gallu Heddlu Gogledd Cymru i aflonyddu ar weithgarwch troseddol ymhellach hyd yn oed. Mae'n dangos yr ymrwymiad i gynnal ymdriniaeth ragataliol i blismona er mwyn rhwystro troseddwyr sy'n peri gofid ledled Gogledd Cymru. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r Uned Plismona Ffyrdd, Tîm Cynghrair Drylliau Tanio a'r Tîm Plismona Lleol gyda thactegau gweithrediadol ac ymatebion rhagweithiol i ymchwiliadau difrifol. Maent hefyd yn cynorthwyo a datblygu cudd-wybodaeth newydd drwy nodi cysylltiadau rhwng Grwpiau Trosedd Trefnedig ac yn ymateb i geisiadau gorchwylio penodol gan Uwch Swyddogion Ymchwilio. Mae'r tîm yn caniatáu Heddlu Gogledd Cymru i rwystro troseddwyr er mwyn aflonyddu ar weithgarwch o'r fath, atafaelu eu hasedau ac yna eu heuogfarnu er mwyn gwarchod ein cymunedau lleol.

## Cyffuriau

Mae cyflenwi Cyffuriau Dosbarth A wedi ei gysylltu yn anorfod gyda throsedd trefnedig. Mae fy marn ar y polisi cyffuriau presennol yn hysbys i bawb. Rwyf yn cefnogi trin camddefnyddio cyffuriau fel mater iechyd yn hytrach na mater troseddol. Rwyf yn parhau i ymchwilio a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diwygio cyffuriau a'r materion sy'n gysylltiedig â'r farchnad gyffuriau anghyfreithlon.

Tra fy mod yn cefnogi trin camddefnyddio cyffuriau fel mater iechyd yn hytrach na mater troseddol rwyf hefyd yn cefnogi Heddlu Gogledd Cymru yn targedu grwpiau trosedd trefnedig sy'n camfanteisio'r mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Bu rhai ymgyrchoedd hynod lwyddiannus yn ystod y cyfnod adrodd hwn fel yr amlygir o fewn yr adroddiad hwn.

Mae llawer o ddatblygiadau wedi bod o fewn y portffolio cyffuriau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r rhain yn cynnwys ymchwil parhaus, ymatebion i ymgynghoriadau a chyflwyno cynllun peilot i swyddogion heddlu gario Nalocson.

## Darlun Cenedlaethol

Mae'r ffigyrau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau wedi parhau i gynyddu gyda data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2018 yn dangos cynnydd o 16% o'r flwyddyn flaenorol. Yn dilyn rhyddhau'r data hwn, fe ysgrifennais at y Prif Weinidog yn gofyn iddo ystyried adolygu Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971. Mae'r cynnydd parhaus mewn marwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau'n dangos nad yw'r system bresennol yn gweithio. Mae angen newid i ddarparu cymorth angenrheidiol i unigolion bregus. Mae'r gyfraith bresennol yn atal ystafelloedd defnyddio cyffuriau sy'n gadael i unigolion gymryd eu cyffuriau eu hunain mewn amgylchfyd glân a di-haint. Heb newid y cyfreithiau presennol, credir y bydd y gyfradd marwolaeth oherwydd cyffuriau'n parhau i gynyddu.

## Lleihau Niwed – Ystafelloedd Defnyddio Cyffuriau

Dros y flwyddyn ddiwethaf mi wnes barhau i ymchwilio a hyrwyddo manteision ystafelloedd defnyddio cyffuriau a'u pwysigrwydd i'r defnyddwyr mwyaf caotig. Mae ystafelloedd defnyddio cyffuriau, sydd yn eu lle ledled Ewrop, yn llwyddiannus wrth estyn at ddefnyddwyr sy'n byw bywydau caotig, yn enwedig y rhai hynny sy'n dod o'r gymuned ddigartref.

Yn y flwyddyn i ddod byddaf yn ceisio ysgrifennu llythyr o gysur i ganiatáu ystafell defnyddio cyffuriau i gael ei beilota yng Ngogledd Cymru. Er y gyfraith bresennol, rwyf yn gobeithio y bydd yn dangos ei bod yn hanfodol i leihau'r nifer o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau.

## Lleihau Niwed – Triniaeth â Chymorth Heroin

Mae Triniaeth â Chymorth Heroin (HAT) yn ymdriniaeth iechyd cyhoeddus i drin unigolion sydd â dibyniaeth tymor hir ar opioidau sydd wedi methu ymateb i driniaethau eraill. Mae cleifion yn dod i glinig arbenigol hyd at ddwywaith y diwrnod i dderbyn a chymryd eu presgripsiwn o dan oruchwyliaeth staff sydd wedi hyfforddi'n feddygol. Manteision HAT yw gostyngiad mewn marwolaethau â chysylltiad â chyffuriau, gostyngiad mewn troseddau ac aflonyddwch i grwpiau trosedd trefnedig.

Byddaf yn edrych ar ffyrdd i gyflwyno Cynllun Peilot i Ogledd Cymru dros y deuddeg i ddeunaw mis nesaf. Byddaf yn cynnal cynhadledd o'r enw Lleisiau Coll – Bywydau Coll yn Venue Cymru ar 2 Tachwedd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ac ennill cefnogaeth.

## Nalocson

Mae Nalocson yn wrthgyffur brys sy'n gwrthdroi iselder anadlol oherwydd gorddos o opioidau. Mae'n gweithio drwy lynu dros dro at dderbynyddion yr opioid yn yr ymennydd a'r corff ac yn gwrthweithio effeithiau'r opioid. Dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru i sefydlu cynllun peilot i swyddogion heddlu gario Nalocson er mwyn lleihau'r nifer o farwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau yng Ngogledd Cymru.

Mae deuddeg o swyddogion Heddlu Gogledd Cymru a finnau wedi cael ein hyfforddi gan Uwch Nyrs o'r Uned Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae darpariaeth o Nalocson Trwynol wedi cael eu rhannu i'w ddefnyddio yn y cynllun peilot yn Sir y Fflint. Gwnaed penderfyniad i oedi'r cynllun peilot oherwydd COVID 19. Roedd sawl ffactor yn gyfrifol am hyn. Mae'r rhain yn cynnwys gwarchod y gweithlu er mwyn cynnal y gwytnwch i ymdrin â'r galwadau na wyddom dim amdanynt, yr angen i ddarparu ar gyfer ynysu mewnol/salwch a'r pwysau byddai rhai yn ei roi ar y sefydliad. Roedd cyngor meddygol yn newid yn barhaus yn y cyfnod hwn ac roedd cael gwybodaeth ynghylch y Cyfarpar Diogelu Personol digonol i swyddogion mewn cynllun peilot o'r fath yn anodd ar brydiau. Gwnaeth y ffactorau hyn i gyd greu senario wnaeth gynyddu'r lefel o risg i'n swyddogion i'r fath raddau nad oeddem yn gwbl ffyddiog y gallem ei reoli'n llwyr.

Ar yr adeg yr ysgrifennwyd hwn, rydym bellach, fodd bynnag, mewn sefyllfa lle rydym yn edrych ar adfer y cynllun peilot. Rydym wedi uwchraddio ein Cyfarpar Diogelu Personol ac mae lefelau staffio mewn lle da iawn. Nid oes angen hyfforddiant pellach ac mae penderfyniad ar ddyfod ynghylch amseru'r cynllun peilot er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa i symud ymlaen gyda chadw at gynlluniau adfer yr Heddlu.

## Canabis Meddyginiaethol

Ym mis Ionawr 2020 gwnaeth llys yn Cumbria ganfod nad oedd hi er budd y cyhoedd i erlyn unigolyn gyda Sglerosis Ymledol am dyfu canabis at ddibenion meddyginiaethol. Yn dilyn yr achos llys fe ysgrifennais at GEG i gwestiynau a oedd polisi wedi'i roi yn ei le i atal unigolion rhag cael eu herlyn mewn sefyllfaoedd tebyg. Yn anffodus nid oes polisi swyddogol wedi cael ei roi yn ei le. Mae unigolion sy'n methu cael mynediad at bresgripsiwn canabis meddyginiaethol ar y GIG yn parhau i fod mewn perygl o gael eu herlyn. Gwnaf barhau i ddangos fy nghefnogaeth i atal unigolion rhag cael eu herlyn am ddefnyddio canabis at ddibenion meddyginiaethol.

# Cyflawni Cymdogaethau Diogelach

Mae presenoldeb amlwg yr heddlu yn atal troseddau sy'n digwydd mewn lleoliadau cyhoeddus, tawelu meddwl y mwyafrif o'r cyhoedd ac yn atgyfnerthu eu cysylltiadau â'r heddlu. Fodd bynnag, fel rwyf yn dweud o fewn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd, mae yna nawr fwy o droseddau'n cael eu cyflawni ar-lein nac ar y strydoedd. Yn unol â hynny, dylai ein hadnoddau sy'n lleihau canolbwyntio ar y meysydd o fygythiad, risg a niwed mwyaf.

Rwyf yn benderfynol bod rhaid i'n hadnoddau sy'n lleihau canolbwyntio ar feysydd troseddoldeb a bregusrwydd difrifol. Mae cyflawni amlygrwydd felly'n hynod heriol. Rhaid i ni wahaniaethu rhwng bod yn amlwg a bod yn hygyrch.

Bydd y cynnydd mewn nifer swyddogion drwy Ymgyrch Uplift wrth gwrs o gymorth. Ond dylai'r cyhoedd fod yn ymwybodol na fydd y swyddogion sy'n cael eu recriwtio dros y 3 blynedd nesaf ddim yn cymryd lle'r nifer a gollwyd dros ddegawd o doriadau a llymder.

Mae Heddlu Gogledd Cymru, o dan gyfarwyddyd y Prif Gwnstabl Carl Foulkes, arweinydd plismona digidol Prif Swyddogion Heddlu Cenedlaethol, yn parhau i ddatblygu ei bresenoldeb digidol ac ar-lein fel ffordd effeithiol o ymgysylltu. Rwyf yn edrych ymlaen at ddatblygiadau pellach yn y maes hwn dros y deuddeg mis nesaf.

## Camerâu Corff Personol

Ym mis Medi 2019 fe wnes i gymeradwyo'r cyllid a alluogodd Heddlu Gogledd Cymru i symud o Gamerâu Corff model cronfa i fodel personol, gan uwchraddio o 492 o declynnau i 1,185 o declynnau. Roedd hwn yn fuddsoddiad mawr i Heddlu Gogledd Cymru sef hanner miliwn o bunnoedd. Roedd y teclynnau a brynwyd o fanyleb uchel gyda llawer o welliannau o'u cymharu â'r darnau offer blaenorol.

## Teclynnau personol ar gyfer holl Swyddogion Heddlu rheng flaen

Cyhoeddwyd y Prosiect Swyddog Cysylltiedig ym mis Medi 2019 a byddai'n cyflwyno offer newydd i swyddogion rheng flaen i'w galluogi i fod yn fwy hyblyg a gwneud mwy o waith cymhleth i ffwrdd o orsafoedd heddlu. Dechreuwyd cyflwyno'r teclynnau hyn ym mis Rhagfyr 2019 ar wasgaru treiglol ledled bob ardal un ar y tro. Mae gadael i swyddogion weithio i ffwrdd o'r swyddfa yn galluogi'r cyhoedd i weld mwy o'n swyddogion a staff. Mae'n caniatáu iddynt gwblhau gorchwylion heddlu penodol gyda dioddefwyr a thystion yn eu cartrefi, yn hytrach na gorfod ymweld â gorsafoedd heddlu'n gorfforol.

## Heddlu Gwirfoddol

Gallwn edrych yn ôl dros y flwyddyn 2019 / 2020 fel un heriol ond hynod gadarnhaol i Heddlu Gwirfoddol Heddlu Gogledd Cymru.

Er y gostyngiad cyson yn y nifer o Swyddogion Heddlu Gwirfoddol ledled Cymru a Lloegr, rydym wedi curo'r duedd yma yng Ngogledd Cymru. Nid yn unig yr ydym wedi cynnal ein niferoedd ond wedi recriwtio swyddogion ychwanegol i ddod â'n cyfanswm i uchafswm o 219 Swyddog Heddlu Gwirfoddol ledled Gogledd Cymru. Mae hyn yn gyfartaledd o 197 swyddog dros y flwyddyn.

Rhyngddynt mae'r swyddogion hyn wedi cyfrannu dros 48,000 awr i blismona, sy'n gyflawniad aruthrol. Mae hyn gyfwerth â chael 6,000 awr ychwanegol o amser swyddogion heddlu ar gael neu gyfwerth â 27 o swyddogion heddlu llawn amser ychwanegol.

Tra mae'r cyfrifoldebau creiddiol yn parhau o fewn Plismona Lleol a Phlismona Ymateb yn benodol, mae'r heddlu wedi mynd ati i gynyddu'r nifer o swyddogion Heddlu Gwirfoddol sy'n gweithio mewn ardaloedd mwy gwledig, er enghraifft yn Llangollen a De Gwynedd. Mae'r Heddlu hefyd wedi ychwanegu at feysydd arbenigol, er enghraifft drwy osod Rhingyll Heddlu Gwirfoddol o fewn yr Uned Caethwasiaeth Fodern i sicrhau orau eu bod yn gallu defnyddio cymorth y swyddogion Heddlu Gwirfoddol yn ôl yr angen.

## Trosedd Casineb

Ers 2016 mae cynnydd cyson wedi bod yn y nifer o droseddau casineb a gofnodwyd yng Ngogledd Cymru. Mae hyn wedi bod yn unol â chynnydd cenedlaethol. Gellir ei briodoli â nifer o ffactorau, gan gynnwys ymgyrch pellgyrhaeddol a pharhaus i godi ymwybyddiaeth am drosedd casineb.

Am y flwyddyn 2019/20 roedd ychydig o ostyngiad (2%) yn y nifer cyffredinol o droseddau casineb a gofnodwyd. Fodd bynnag gwelodd 2019/20 hefyd ostyngiad mewn lefelau boddhad ar gyfer trosedd casineb ledled holl fesurau, ond yn benodol o ran "dilyniad" a "boddhad cyffredinol" yr heddlu ynghylch sut wnaeth yr heddlu ymdrin â'r mater.

Mae Heddlu Gogledd Cymru bellach wedi cyflwyno mesurau i wella'r ansawdd gwasanaeth a dderbynnir gan ddioddefwyr trosedd casineb. Mae ymdrin â throseddau casineb yn effeithiol yn bwysig ac mae'n eistedd o fewn blaenoriaethau'r cynllun heddlu a throsedd gan fod dioddefwyr mor aml yn fregus iawn. Gwnaf barhau i fonitro lefelau boddhad drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol.

Mae SCHTh wedi cyflawni nifer o weithgareddau o fewn y flwyddyn ddiwethaf i hyrwyddo ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac annog eu riportio. Gwelodd Ymgyrch Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb ymgyrch barhaus ar y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn defnyddio deunyddiau rydym wedi'u datblygu dros flynyddoedd o ymgyrchoedd. Rydym hefyd wedi rhannu deunydd newydd wedi'i anelu at droseddwyr casineb, sydd wedi'i ddatblygu gan y Swyddfa Gartref. Yn ogystal gwnaethom rannu gwybodaeth a negeseuon am yr ymgyrch gyda phartneriaid sector cyhoeddus.

Mae'r SCHTh wedi cynorthwyo ac wedi mynychu digwyddiadau lleol fel y digwyddiad Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb a gynhaliwyd gan Gydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol yn Nhŷ Pawb yn Wrecsam a hefyd gan NWAMI yng Ngholeg Llandrillo, Llandrillo yn Rhos.

## Trosedd Cyllyll

Yn ffodus yng Ngogledd Cymru nid yw trosedd cyllyll ar y lefel a welir mewn rhai ardaloedd trefol, ond nid yw hynny'n golygu ein bod yn hunanfodlon yn ei gylch.

Mae Heddlu Gogledd Cymru'n gweithio'n agos ag asiantaethau eraill i ymdrin â'r broblem hon, gan na ellir datrys hyn ond drwy arestiadau. Mae Ymgyrch Sceptre, sy'n cael ei rhedeg ar y cyd gyda Safonau Masnach, wedi llwyddo i gael gwared ar lawer o arfau bygythiol o gylchrediad. Rydym yn codi ymwybyddiaeth yn rheolaidd drwy ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol yn amlygu peryglon a chanlyniadau cario cyllyll. Mae ein Swyddogion Cyswllt Ysgolion wedi siarad â miloedd o ddisgyblion lleol mewn 'Cynulliadau Trosedd Cyllyll'. Mi wnes i roi cyllid i glybiau nos i brynu synwyryddion er mwyn tawelu meddwl y cyhoedd.

Gogledd Cymru yw un o rannau mwyaf diogel y DU. Drwy ein cysylltiadau gydag asiantaethau statudol eraill a'r cyhoedd, rydym yn gweithio gyda'n gilydd i gynorthwyo i rwystro ac atal trosedd cyllyll, sy'n her diogelwch cymunedol ehangach.

Yn ddiweddar fe wnaeth Pentre Peryglon, sef y ganolfan ymwelwyr rhyngweithiol arobryn yn Nhalacre, ddatgelu nodwedd newydd wedi'i llunio'n benodol i ddysgu plant am beryglon trosedd cyllyll. Mae bwrdd arddangos yn rhoi'r cyfle i blant ddarganfod y canlyniadau gwahanol a all ddigwydd pan maent yn dewis cario cyllyll. Wedi'i ariannu gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, mae'r bwrdd yn ychwanegiad pwysig i'r gweithgareddau hwyliog a rhyngweithiol lle mae ymwelwyr yn teithio o'r cartref i'r traeth, cefn gwlad, maes chwarae, fferm a phriffyrdd. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn aelod gwreiddiol o'r sefydliad ac mae'r Prif Gwnstabl Carl Foulkes yn aelod o'r bwrdd ymddiriedolwyr.

### Canlyniadau arolwg dioddefwyr trosedd casineb

| Mesur | Canlyniad Medi 19 | Canlyniad Medi 18 |
|---|---|---|
| Cyswllt cychwynnol | 88.6% | 87.7% |
| Camau cychwynnol yr Heddlu | 65.6% | 73.3% |
| Dilyniad | 63.6% | 76.8% |
| Triniaeth | 87.2% | 92.2% |
| **Boddhad Cyffredinol** | **68.4%** | **82.5%** |

# Crynodeb o Ganlyniadau

**Mesurir cyflawniad drwy gymharu 2019/20 yn erbyn y flwyddyn flaenorol (oni bai y nodwyd) er mwyn nodi unrhyw feysydd sy'n achosi pryder, sydd hefyd yn fy nghynorthwyo i gyflawni fy nghraffu ar y Prif Gwnstabl a'i ddwyn i gyfrif wrth gyflawni fy Nghynllun.**

# Canlyniadau Cam-drin Domestig

## Prif bwyntiau

- Roedd galw cyffredinol yn ystod y cyfnod hwn yn sefydlog ledled trosedd domestig ac achosion nad oedd yn droseddau domestig
- Mae'r gyfradd canlyniad cadarnhaol 1-8 yn dangos gostyngiadau o un flwyddyn i'r llall
- Mae aildroseddu cam-drin domestig yn parhau ar lefel is
- Mae troseddau yn gysylltiedig â throsedd domestig yn parhau i fod yn gyfran fwy o drosedd yng Ngogledd Cymru nag yn y mwyafrif o heddluoedd eraill
- Mae cyfraddau boddhad ar gyfer dioddefwyr trosedd domestig yn galonogol o uchel gan gynnwys ar gyfer dioddefwyr risg uchel

### Trosedd Cam-drin Domestig a Riportiwyd yn 2019/20 o'i gymharu â 2018/19

| Rhanbarth | Ardal | Riportiwyd Hyd yn Hyn yn Ystod y Flwyddyn | Riportiwyd Hyd yn Hyn yn Ystod y Flwyddyn Ddiwethaf | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| Gorllewin | YM | 876 | 950 | -7.8% |
| | GG | 904 | 919 | -1.6% |
| | DG | 535 | 634 | -15.6% |
| Canolog | GC | 1,377 | 1,410 | -2.3% |
| | ASD | 1,814 | 2,031 | -10.7% |
| | CW | 570 | 586 | -2.7% |
| Dwyrain | GSF | 1,272 | 1,380 | -7.8% |
| | DSF | 782 | 840 | -6.9% |
| | WW | 1,225 | 1,538 | -20.4% |
| | TW | 1,025 | 1,093 | -6.2% |
| **Cyfanswm** | | **10,380** | **11,381** | **-8.8%** |


## Cam-drin domestig mynych yn parhau ar lefel is

Mae troseddwyr sy'n troseddu deirgwaith neu fwy yn y 12 mis blaenorol yn parhau i aros yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol, er mae hyn wedi dod yn norm newydd ac mae'n parhau'n gymharol sefydlog. Mae gostyngiad o 13.0% wedi bod yn y nifer o droseddwyr cam-drin domestig mynych deirgwaith neu'n fwy eleni.


### Mae troseddau domestig yn gyfran fwy o drosedd yng Ngogledd Cymru nag yn y mwyafrif o heddluoedd eraill

Ffig.5: Cyfran troseddau a ddosbarthwyd fel cam-drin domestig 2018/19

### Gogledd Cymru




### Cymru a Lloegr



Mae troseddau domestig fel cyfran o gyfanswm troseddau yn parhau i fod yn gyfran fwy nag mewn llawer o heddluoedd eraill. Mae'n 19% o'i gymharu â lefel 14% ar gyfer Cymru a Lloegr.

Mae gan Ogledd Cymru un o'r cyfraddau uchaf am bob 1000 o'r boblogaeth ar gyfer troseddau cam-drin domestig, gan fod yn 16 ymhob 1000.

Dyrannwyd 51% o'r troseddau hyn i Ganlyniad 16 – nid yw'r dioddefwr o blaid gweithredu – yn y 12 mis tan fis Mawrth 2019.


### Mae cyfraddau boddhad ar gyfer dioddefwyr domestig yn parhau'n galonogol o uchel ar gyfer dioddefwyr risg uchel

**Data arolwg ym** mis Chwefror 2020. O'r **473** o bobl sydd wedi cymryd rhan yn yr arolwg hyd yma:

- roedd 90.9% yn fodlon gyda'r cyswllt cychwynnol
- roedd 90.4% yn fodlon gyda chamau cychwynnol yr heddlu
- roedd 93.2% yn fodlon gyda'r cyswllt gyda Swyddog Cam-drin Domestig
- roedd 66.4% yn fodlon gyda'r dilyniad
- roedd 85.8% yn fodlon ar y cyfan

Mae meysydd eraill yn dangos atebion yr un mor uchel.

- roedd 93.4% yn fodlon fod swyddogion wedi gwrando'n ofalus ar yr hyn roedd ganddynt i'w ddweud
- roedd 95.7% yn fodlon fod swyddogion yn credu'r hyn roeddent yn ei ddweud
- roedd 91.0% yn fodlon fod swyddogion yn deall y sefyllfa
- roedd 95.1% yn fodlon fod swyddogion wedi eu trin â pharch
- roedd 90.4% yn dawel eu meddwl
- roedd 89.4% yn fodlon gyda'r ffordd y gwnaeth swyddogion eu trin
- roedd 87.7% yn teimlo'n hyderus wrth ffonio'r heddlu eto
- roedd 83.7% yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'r ymateb a dderbyniwyd gan yr heddlu.




## Canlyniadau Cam-drin Rhywiol

### Prif Bwyntiau

- Parhaodd lefelau troseddau rhywiol a riportiwyd yn sefydlog yn ystod y cyfnod hwn
- Cynnydd mewn troseddau rhwydo rhywiol a gofnodwyd
- Mae gan Heddlu Gogledd Cymru'r gyfradd uchaf o hyd o droseddau rhywiol fesul 1000 o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr
- Mae cyflwyniadau cudd-wybodaeth am Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant wedi codi'n ddiweddar ond mae achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol yn parhau ar lefelau is
- Mae'r gyfradd canlyniadau cadarnhaol am droseddau rhywiol ar hyn o bryd yn cyfateb i'r cyfartaledd cenedlaethol

### Mae lefelau troseddau rhywiol a riportiwyd yn sefydlog ar hyn o bryd ac o dan y lefelau a ragwelwyd

Nid yw'r nifer o drosedd rhywiol a riportiwyd yn dangos dim newid sylweddol dros y 12 mis diwethaf, ond mae'n dangos gostyngiad o 4.7% ar y flwyddyn ddiwethaf.

| Rhanbarth | Ardal | Riportiwyd Hyd yn Hyn yn Ystod y Flwyddyn | Riportiwyd Hyd yn Hyn yn Ystod y Flwyddyn Ddiwethaf | % Newid | Cyfradd Canlyniad 1-8 Hyd yn Hyn yn Ystod y Flwyddyn | Cyfradd Canlyniad 1-8 Hyd yn Hyn yn Ystod y Flwyddyn Ddiwethaf | Newid pwynt canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorllewin | YM | 194 | 255 | -23.9% | 6.7% | 12.9% | -6.2 |
| | GG | 287 | 244 | 17.6% | 9.8% | 4.5% | 5.2 |
| | DG | 207 | 149 | 38.9% | 18.8% | 10.7% | 8.1 |
| Canolog | GC | 310 | 301 | 3.0% | 11.6% | 11.3% | 0.3 |
| | ASD | 395 | 392 | 0.8% | 7.8% | 6.9% | 1.0 |
| | CW | 155 | 181 | -14.4% | 9.7% | 9.4% | 0.3 |
| Dwyrain | GSF | 283 | 304 | -6.9% | 9.5% | 4.3% | 5.3 |
| | DSF | 139 | 191 | -27.2% | 7.2% | 15.7% | -8.5 |
| | WW | 260 | 267 | -2.6% | 6.9% | 11.2% | -4.3 |
| | TW | 225 | 293 | -23.2% | 8.0% | 14.0% | -6.0 |
| **Cyfanswm** | | **2,455** | **2,577** | **-4.7%** | **9.6%** | **9.8%** | **-0.2** |


Mae newidiadau yn y niferoedd sydd wedi cael eu riportio ledled ardaloedd yn eithaf bach, gyda phedair ardal yn profi cynnydd, sydd o fewn ffiniau disgwyliedig.

**Mae gan Ogledd Cymru'r raddfa uchaf o hyd o droseddau rhywiol wedi'u cofnodi fesul 1000 o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr.**

Yn y flwyddyn tan fis Ionawr 2020, gwnaeth Gogledd Cymru gofnodi 3.79 o droseddau rhywiol fesul 1000 o'r boblogaeth, sef y gyfradd uchaf yng Nghymru a Lloegr, er y gostyngiadau mwyaf mewn troseddau a gofnodwyd.


## Troseddau Rhywiol Cyffredinol

- Mae data cenedlaethol ar gael ar hyn o bryd tan fis Ionawr 2020, a dangosodd y data i Ogledd Cymru fod yr Heddlu sydd â'r cofnod uchaf.
- Er hyn, Gogledd Cymru sydd â'r gostyngiad mwyaf, wrth gymharu â'r holl Heddluoedd




Cyfraddau Troseddau Rhywiol Cofnodedig Cenedlaethol tan fis Ionawr 2019
(Gwyrdd = HGC, Oren = Grŵp o heddluoedd tebycaf, Coch = heddluoedd eraill Cymru)

Troseddau Rhywiol Cofnodedig Cenedlaethol, % Newid o Un Flwyddyn i'r Llall (allwedd fel uchod)




Tud 81

## Troseddau treisio


- Wrth ystyried troseddau Treisio'n unig, mae Gogledd Cymru yn 26ain yn genedlaethol, gan ddangos nad hwn ydy'r prif faes o drosedd rhywiol i fod yn cymell y lefelau cenedlaethol uchel am droseddau rhywiol cyffredinol.
- Mae Gogledd Cymru yn dangos gostyngiadau mewn treisio yn groes i duedd y mwyafrif o Heddluoedd sydd â chynnydd

## Troseddau Rhywiol Eraill


- Troseddau rhywiol eraill yw'r grŵp o droseddau rhywiol lle mai Heddlu Gogledd Cymru sydd â'r nifer uchaf o achosion o bell ffordd o'i gymharu â heddluoedd eraill Cymru a Lloegr.
- Er hyn, Gogledd Cymru sydd â'r gostyngiad mwyaf yn y grŵp trosedd hwn o un flwyddyn i'r llall.
- Mae Gogledd Cymru wedi bod yn sylweddol uwch na chyfartaledd ei Heddlu Tebycaf am droseddau rhywiol eraill ers mis Mehefin 2017. Mae amseru hyn yn cyd-fynd â ffocws cynyddol yr Heddlu ar gofnodi trosedd, gan gynnwys THRIVE, riportio 3ydd parti a throseddau ychwanegol.
- Cofnodwyd 115 o droseddau rhwydo rhywiol yn y 12 mis diwethaf, sy'n gynnydd o 15.0% ar y flwyddyn flaenorol. Er ei fod yn gyfran eithaf bach o droseddau rhywiol cyffredinol (4.7%), mae'r maes hwn yn dangos y newid mwyaf sylweddol o fewn y categori o droseddau rhywiol.
- Nid yw'r newidiadau wedi'u neilltuo i ardal benodol o'r heddlu, gyda newidiadau llai ar lefel Ardaloedd Plismona Lleol (LPA) yn cyfuno i gynnydd mawr ar y cyfan.
- Am y 12 mis presennol, mae'r trosedd o "Cyfathrebu'n rhywiol gyda phlentyn" yn ffurfio 96.5% o'r cyfanswm troseddau, ac roedd cyfran y flwyddyn flaenorol yn 96.0%. Mae'r troseddau hyn wedi cynyddu 15.6% o un flwyddyn i'r llall. Hyn ydy'r cymhelliant tu ôl i'r cynnydd cyffredinol mewn troseddau Rhwydo Rhywiol. Mae'r cynnydd hwn yn awr yn dangos arwyddion go iawn o leihau.
- Mae'r tueddiadau ddechreuodd ym mis Ebrill 2017 yng Ngogledd Cymru yn cyfateb i'r rhai a welwyd yn genedlaethol, gan ddangos fod hyn oherwydd newid proses. Fodd bynnag, tra gwnaeth y cynnydd cenedlaethol leihau yn 2018, mae cofnodion Gogledd Cymru o rwydo rhywiol wedi parhau i gynyddu.
- Ymddengys fod y cynnydd, fodd bynnag, wedi lleihau rhywfaint yn y 6 mis diwethaf, ond gan godi eto ym mis Ionawr 2020.

## A ydym yn diogelu dioddefwyr cam-drin rhywiol yn effeithiol?

Mae'r nifer o gyflwyniadau cudd-wybodaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant wedi gweld cynnydd o 23.3% o un flwyddyn i'r llall.



Mae'r nifer o ddioddefwyr wedi'u fflagio ag achos o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant wedi bod yn unol ag achosion cofnodedig yn y 7 mis cyn mis Chwefror 2020, ac wedi cysoni eto ym mis Mawrth 2020. Mae hyn yn arwydd da fod HGC wedi mynd ati i ddiogelu'r unigolyn a adnabuwyd.




# Canlyniadau Caethwasiaeth Fodern

Mae lefelau cofnodedig o Gaethwasiaeth Fodern yn parhau'n eithaf isel er bod cynnydd o 31% mewn troseddau cofnodedig yn ystod y cyfnod hwn. Ond nid yw hynny'n golygu nad yw'r troseddau hyn yn digwydd yng Ngogledd Cymru. Mae Caethwasiaeth Fodern yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth sy'n cael ei adlewyrchu yn nhwf adnoddau Heddlu Gogledd Cymru wrth ymdrin â'r math penodol hwn o drosedd. Roeddwn hefyd yn un o'r CHTh cyntaf i fuddsoddi mewn swyddog cymorth ymroddedig i ddioddefwyr caethwasiaeth fodern.

## Troseddau Caethwasiaeth Fodern a Riportiwyd yn 2019/20 o'i gymharu â 2018/19

| Rhanbarth | Ardal | Riportiwyd Hyd yn Hyn yn Ystod y Flwyddyn | Riportiwyd Hyd yn Hyn yn Ystod y Flwyddyn Ddiwethaf | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| Gorllewin | YM | 6 | 0 | - |
| | GG | 5 | 7 | -28.6% |
| | DG | 5 | 4 | 25.0% |
| Canolog | GC | 5 | 4 | 25.0% |
| | ASD | 8 | 10 | -20.0% |
| | CW | 3 | 5 | -40.0% |
| Dwyrain | GSF | 15 | 12 | 25.0% |
| | DSF | 6 | 5 | 20.0% |
| | WW | 15 | 2 | 650.0% |
| | TW | 8 | 9 | -11.1% |
| **Cyfanswm** | | **76** | **58** | **31.0%** |

Fel y dangosir yn y tabl uchod, mae cynnydd wedi bod mewn troseddau cofnodedig yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'r math hwn o drosedd yn parhau'n drosedd cudd. Felly rwyf yn croesawu unrhyw gynnydd mewn troseddau sy'n cael eu riportio. Pryder mwy i mi yw bod canlyniadau bron iawn yn gyfan gwbl y tu allan i ganlyniadau 1-8 gydag anawsterau tystiolaethol y broblem fwyaf cyffredin. Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae cyflwyniadau cudd-wybodaeth yn parhau ar raddfa gyson.


Mae hapsamplo ymchwiliadau wedi dechrau er mwyn ymdrin â'r broblem o gasglu tystiolaeth addas.

**Camau nesaf sydd wedi'u cynllunio**


- Adolygu llwyfannau mae Heddlu Gogledd Cymru yn eu defnyddio i ymgysylltu gyda dioddefwyr posibl holl fathau o gamfanteisio ac edrych ar y math o sgyrsfotiaid Microsoft a ddefnyddir i ymgysylltu â dioddefwyr posibl.
- Datblygu gweithdrefn gweithredu safonol ar gyfer Canolfan Derbynfa Ganolog a hyfforddi cronfa o staff fel y gellir ei gweithredu ddydd a nos (24/7). Nodi lleoliadau addas yn Nwyrain a Gorllewin yr Heddlu ar gyfer cyfleuster tebyg.
- Nodi a gweithredu ymateb arfer gorau ledled yr Heddlu i gogio *(cuckooing).*
- Cynllunio Cwrs Hydra Caethwasiaeth Fodern
- Datblygu cwrs ymchwilwyr arbenigol mewnol i sicrhau cynllunio olyniaeth a chynyddu cronfa o swyddogion wedi'u hyfforddi'n arbennig.
- Diweddaru cynllun casglu cudd-wybodaeth Caethwasiaeth Fodern
- Nodi a disodli rhwystrau i Wasanaeth Erlyn y Goron roi cyngor cyhuddo adeiladol drwy adolygiadau achosion amlasiantaeth.

## Canlyniadau Trosedd Trefnedig

Mae'r nifer o Grwpiau Trosedd Trefnedig wedi lleihau dros y 12 mis diwethaf gyda'r proffil yn symud o grwpiau dosbarthu uchel i rai isel.



Mae cudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â Llinellau Cyffuriau yn parhau'n gyson.




# Llwyddiant yn ystod 2019/20


Fel gyda Chaethwasiaeth Fodern, mae mesur cyflawniad yn erbyn y flaenoriaeth strategol hon yn faes lle mae mesur meintiol yn llai perthnasol. Mae llwyddiant parhaus Heddlu Gogledd Cymru, gyda chymorth medrus Titan, i'w weld isod gydag enghreifftiau o ddim ond ychydig o'r ymgyrchoedd llwyddiannus a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hwn.

- Cerbyd yn cael ei stopio ar yr A55 gan y Tîm Rhwystro a'r Uned Plismona'r Ffyrdd a chanfuwyd dros 150g o gyffuriau Dosbarth A.
- Arestiwyd y gyrrwr am feddiant gyda bwriad i gyflenwi cyffuriau Dosbarth A.
- Cerbyd yn gysylltiedig â chyflenwi cyffuriau o ardal Glannau Mersi fel rhan o ymgyrch gyda De Gwynedd. Stopiwyd y cerbyd ar ei ffordd allan o ardal yr Heddlu. Canfuwyd ei fod â swm mawr o ganabis wedi'i guddio ar y sedd gefn a chanfuwyd ffôn rhad dros dro o dan y sedd. Cafodd y gyrrwr a'r teithiwr eu harestio am fod yn gysylltiedig â chyflenwi cyffuriau Dosbarth A.
- Cafodd cerbyd hurio a oedd yn gysylltiedig â chyflenwi cyffuriau yn Wrecsam ei stopio a chanfuwyd pêl fawr o ganabis wedi'i dapio o dan y boned. Arestiwyd y gyrrwr am fod yn gysylltiedig â chyflenwi cyffuriau Dosbarth B.
- Cynhaliwyd nifer o batrolau gan y Tîm Rhwystro a'r Uned Plismona'r Ffyrdd yn CEM Berwyn oherwydd cudd-wybodaeth a oedd yn awgrymu mwy o daflu pethau dros waliau'r carchar wrth iddo fod ar gau i ymwelwyr. Adnabuwyd a stopiwyd cerbyd a gwnaeth y teithiwr ddianc. Aeth ci heddlu i'r goedwig lle daethpwyd o hyd i ddau becyn mawr o gyffuriau wedi'u lapio mewn tâp insiwleiddio.
- Ni ddaethpwyd o hyd i'r dyn ond fe ataliwyd taflu cyffuriau dros waliau'r carchar ac fe atafaelwyd cyffuriau.
- Stopiwyd tacsi o Warrington ym Mae Cinmel a chanfuwyd fod oddeutu gwerth £32,000 o ganabis wedi'i guddio mewn bag bin yng nghefn y cerbyd. Cafodd y gyrrwr ei gyhuddo o feddiant gyda'r bwriad o gyflenwi.
- Cafodd cerbyd a oedd yn gysylltiedig â chyflenwi cyffuriau yn Wrecsam ei stopio ar ôl cael ei adnabod ar y system Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig. O fewn y cerbyd fe wnaeth swyddogion ddod o hyd i ganabis a swm o arian parod. Rhoddodd y gyrrwr hefyd brawf cyffuriau positif am ganabis. Cyhuddwyd y gyrrwr ac yn dilyn chwiliad, daethpwyd o hyd i ganabis a oedd werth £20,000.


- Rhwystrwyd cerbyd ar yr A55 yng Nghaerwys yn dilyn cudd-wybodaeth fod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio mewn gweithgarwch Grŵp Trosedd Trefnedig. Cafwyd hyd i dri dyn o Lannau Mersi yn y cerbyd. Chwiliwyd y cerbyd a'r dynion ac yn y cerbyd roedd 8 ffôn (3 personol a 5 rhad dros dro), gwerth £2,000 o arian parod a bagiau bach o ganabis wedi cuddio yng nghonsol canol y cerbyd. Arestiwyd 3 dyn am fod yn gysylltiedig â chyflenwi cyffuriau Dosbarth B.
- Roedd cerbyd a oedd yn teithio ar yr A55 tua'r dwyrain ym Mangor yn gyrru dros y terfyn cyflymder. Gwnaeth stopio a chwilio'r cerbyd ddod o hyd i lawer iawn o ganabis o fewn y cerbyd; 3 bag bin yn llawn canabis ac oddeutu 7 kilo o gocên.
- Gwnaeth stopio a gwirio cerbyd modur a oedd yn cael ei ddefnyddio gan aelodau hysbys o Grwpiau Trosedd Trefnedig arwain at atafaelu 1kg o gocên. Cafodd y gyrrwr a'r teithwyr eu harestio.
- Ymgyrch Blue Lyuba yw'r enw cyffredinol am yr aflonyddwch Llinellau Cyffuriau yn yr ardal blismona Ganolog. Mewn partneriaeth â Heddlu Glannau Mersi, achoswyd aflonyddwch mawr i nifer o Linellau Cyffuriau a arweiniodd at ddeiliaid dwy linell yn cael eu harestio ar Lannau Mersi. Cafwyd arestiadau ac atafaelwyd cyffuriau Dosbarth A ac arian parod yng Ngogledd Cymru.
- Ymgyrch Tide – Cynllwyn ar raddfa fawr yn cynnwys Grwpiau Trosedd Trefnedig cyfarwydd o ardal Lerpwl yn defnyddio'r model Llinellau Cyffuriau i gyflenwi heroin a chrac cocên i Sir y Fflint. Mae'r holl ddiffynyddion (28) yn awr wedi pledio'n euog ac yn disgwyl dedfryd.
- Ymgyrch Bourdon – cyfres o ladradau â chyllell yn y Rhyl ddiwedd 2019 – arestiwyd y troseddwr, fe'i euogfarnwyd a'i garcharu ym mis Ebrill 2020 am 70 mis yn dilyn ymchwiliad hir
- Ymgyrch Blue Mammoth – Ymgyrch Diogelu Amlasiantaeth yn cynnwys plant yn cael eu hecsbloetio i gyflenwi cyffuriau rheoledig. Plant yn awr yn destun ymyriad a chymorth priodol gan bartneriaeth gyda'r rhwydwaith gyflenwi wedi'i haflonyddu. Mae cais parhaus am Risg Caethwasiaeth a Masnachu Pobl yn awr gyda'r Llys.

# Cyflawni Canlyniadau Cymdogaethau Diogelach

Mae Gogledd Cymru yn cynnal canfyddiadau ar lefel uchel fod yr heddlu'n deall problemau cymunedol (CSEW = Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr; MSG = Grŵp Tebycaf)



Mae Gogledd Cymru yn groes i'r duedd ostyngol genedlaethol ac yn cynnal canfyddiadau fod yr heddlu'n ymdrin â phryderon cymunedol.




Mae hyder yn yr heddlu'n parhau i wella ac mae Heddlu Gogledd Cymru ymysg yr heddluoedd gorau yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r mesuriad o risg trosedd personol yn arolwg trosedd Cymru a Lloegr yn gwella ac mae nawr yr isaf yng Nghymru a Lloegr.

## Rhanbarth y Gorllewin

### Ynys Môn

- Cafwyd cyllid ar y cyd o £5,000 gyda Chyngor Môn am 'Prison No Way' sef elusen o Hull i roi addysg a hyfforddiant sgiliau bywyd. Mae gwaith ar y cyd wedi'i ymgymryd gyda'r heddlu a gweithwyr ieuenctid i adnabod pobl ifanc bregus a oedd mewn perygl o fod yn gysylltiedig â throseddoldeb oherwydd ACE neu bwysau gan gyfoedion i gymryd rhan yn yr hyfforddiant.

### Gogledd Gwynedd

- Mae Cynllun Breuddwydion yn brosiect hirhoedlog sy'n cael ei ariannu gan ADRA, Gwasanaethau Ieuenctid a PACT. Mae deuddeg o bobl ifanc sy'n fregus ac sydd mewn perygl o droseddu yn cymryd rhan yn y rhaglen wythnosol o fis Medi i fis Mehefin. Mae'r unigolyn yn derbyn mewnbynnau ar gyffuriau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a chan Drinwyr Cŵn hefyd ynghyd â chymryd rhan mewn ystod o weithgareddau yng Ngwersyll yr Urdd Glan Llyn. Yn ei dro mae'r grŵp yn gweithio yn y gymuned gan godi sbwriel ac fe wnaethant drefnu parti Nadolig i'r plant ar y stad.

### Y Rhanbarth Canolog

- Mae saith deg o staff y Groes Goch Brydeinig wedi cael eu hyfforddi ar atal trosedd a thwyll cyffredinol. Mae'r staff yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i unigolion maent yn eu cefnogi yn y gymuned. Maent hefyd yn dosbarthu ein cyngor atal trosedd a thaflen sgamiau yn eu pecyn dychwelyd adref o'r ysbyty.

- Mae Ymgyrch Blue Chestnut yn ymgyrch i dargedu trosedd caffael a byrgleriaethau yn yr ardal ganolog. Cafodd dau Darged Ardal eu harestio am fyrgleriaeth yn Ysbyty Llandudno ac mae'r ymchwiliad yn parhau. Arestiwyd pedwar o blant (tri o Stoke-on-Trent) ac un plentyn lleol am gyfres o droseddau caffael yn ardal Llanddulas. Arestiwyd dyn arall am Fwrglera Heb Fod Mewn Tŷ Preswyl ym Mae Colwyn lle cafodd beiciau cwad eu dwyn.
- Mae Gwaith Cyfleusterau Iechyd wedi'i ymgymryd i gael manylion a chael cytundeb gan Feddygon, Deintyddion a rhai fferyllfeydd ledled Gogledd Cymru i arddangos deunydd darllen a negeseuon digidol ar eu sgriniau cleifion. Mae YGC hefyd wedi cytuno i arddangos gwybodaeth ar faterion/mentrau presennol ar eu sgriniau cleifion sy'n gallu cyrraedd oddeutu 150,000 o gleifion allanol, 145,000 o gleifion mewnol a'u hymwelwyr ynghyd â'r staff. Mae hwn yn rhoi cyfle ardderchog i ymgysylltu gyda chymunedau ac yn rhoi negeseuon allweddol ar amryw o flaenoriaethau.

## Rhanbarth y Dwyrain

- Mae menter ar y cyd yn Ne Sir y Fflint rhwng Aura Wales, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid a Heddlu Gogledd Cymru yn cynnwys dyddiau ymgysylltu gydag unigolion dethol o ysgolion a nodir fel bod ar y cyrion o angen ymyriad. Mae sesiynau amrywiol drwy gydol y diwrnod yn edrych ar faterion fel trosedd cyllyll, camfanteisio'n rhywiol ar blant, Llinellau Cyffuriau, hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r system cyfiawnder troseddol a'r gwasanaeth iechyd (o ran anafiadau). Cafodd y 70 o bobl ifanc a oedd ynghlwm â'r diwrnod docyn aura 3 mis a oedd yn rhoi mynediad iddynt at yr holl gampfeydd a'r gweithgareddau aura a oedd yn cynnwys sglefrio iâ a nofio.
- Digwyddodd Ymgyrch Blue Fedora ym mis Chwefror 2020 lle arestiwyd a chyhuddwyd 15 o unigolion am gynllwynio i gyflenwi cyffuriau Dosbarth A. Casglwyd amrywiol gyffuriau a £15,000 yn ystod y diwrnod.

## Boddhad dioddefwyr yn gyffredinol yn ystod 2019/20

| Mesur | Canlyniad Mawrth 2019 | Canlyniad Mawrth 2020 | Newid % |
|---|---|---|---|
| Cyswllt cychwynnol | 89.6% | 89.9% | 0.3 |
| Camau cychwynnol yr Heddlu | 69.6% | 72.3% | 2.8 |
| Triniaeth | 87.8% | 90.2% | 2.3 |
| Dilyniad | 67% | 65.6% | -1.4 |
| **Boddhad cyffredinol** | **76.6%** | **78.2%** | **1.6** |

# Ariannu a Chyllid

## Cyllideb yr Heddlu

Fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rwyf yn gyfrifol am osod y gyllideb sy'n cael ei darparu i'r Prif Gwnstabl ar gyfer cyflawni plismona yng Ngogledd Cymru. Dyrannwyd cyllideb net o £151.770m i'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2019/20. Defnyddiwyd y £2.450m yn weddill ar gyfer fy Nghronfa'r Comisiynydd (sy'n ariannu mentrau fel diogelwch cymunedol, ymyrraeth cyffuriau a chyfiawnder ieuenctid) a hefyd am gostau fy swyddfa.

Tra bod grantiau llywodraethau canolog, wedi eu penderfynu gan y Swyddfa Gartref, yn cyfrif am 47% o'r cyllid, ariannwyd 53% gan drethdalwyr lleol. Mae Datganiad y Cyfrifon ar gael ar fy ngwefan. Roedd blwyddyn ariannol 2019/20 yn heriol, gyda £2.832m o doriadau pellach wedi'u cyflawni. Ynghyd â thoriadau o £2.358m i'w cyflwyno yn 2020/21, a chan ystyried chwyddiant a phwysau eraill, mewn termau real mae'r gyllideb plismona yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd yn £36m yn llai na 2010/11. Er gwaethaf y rhagolwg mwy positif ers 2015, mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn heriol, ac wrth ysgrifennu hyn mae ansicrwydd sylweddol dros ariannu ar gyfer 2021/22 a thu hwnt.

## Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Gosodwyd cyllideb flynyddol ar gyfer 2019/20 ar £826,196 gyda chyllideb comisiynu o £1,624,126 yn ychwanegol. Yn ychwanegol, gweinyddodd y Swyddfa Grant Gwasanaethau'r Dioddefwyr o £804,262 ac mae'n gorff atebol ar gyfer grant VAWDASV o £419,200.

Mae'r Swyddfa hefyd yn gorff atebol i'r Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau, yn derbyn £478,140 o Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn flynyddol tuag at y gost.

## Strategaeth Ystadau

Mae'r orsaf heddlu sydd wedi'i hail leoli yng nghanol tref Wrecsam yn awr wedi hen sefydlu mewn man amlwg a hygyrch ac mae wedi'i derbyn yn wresog. Mae hen safle'r Pencadlys Rhanbarthol ym Modhyfryd, Wrecsam yn cael ei werthu ar gyfer ei ailddatblygu. Mae'r enillion gwerthiant wedi cael eu buddsoddi yn adeilad Pencadlys Rhanbarthol y Dwyrain yn Llai sy'n ychwanegiad strategol pwysig i'r ystâd. Mae gweithredu Strategaeth Ystadau 2018-2028 yn parhau a bydd adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cael eu datgomisiynu yn y pen draw.

Mae cyflwyno teclynnau rhyngrwyd i Swyddogion Heddlu a'r cynnydd mewn gweithio hyblyg ledled yr Heddlu yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r ystâd yn fwy effeithlon ac mewn gwahanol ffyrdd. Mae buddsoddi yn yr ystâd yn parhau. Mae'r orsaf heddlu ym Mhwllheli yn mynd drwy waith moderneiddio sylweddol er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer plismona modern. Mae cynigion hefyd i ddarparu gorsaf heddlu newydd yng Nghaergybi i ddisodli'r hen adeilad yng nghanol y dref.

## Y Rhagolwg Ariannol

Er bod tipyn mwy o sicrwydd wedi bod yn y blynyddoedd diweddar, mae'r sefyllfa wleidyddol gyfredol yn golygu ei bod hi'n anodd darogan y sefyllfa ariannol ar gyfer 2021/22 a'r blynyddoedd wedyn. Rydym wedi derbyn cadarnhad bod y grant a dderbyniwyd yn 2019/20 i wrthbwyso yn rhannol gost ychwanegol pensiynau'r heddlu yn cael ei dderbyn eto yn 2020/21. Serch hynny, nid yw'r sefyllfa barhaus wedi ei benderfynu eto.

Mae'r system Gorchymyn a Rheoli yn galw am ddiweddariad sylweddol o fewn y blynyddoedd nesaf. Mewn ymateb i hyn, rwyf wedi dyrannu £1.7m i'r gronfa gyfalaf wrth gefn at y diben hwn.

Mae pandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar ein trefniadau gweithio. Ac eithrio'r arian ychwanegol sy'n cael ei glustnodi ar gyfer gwasanaethau wedi'u comisiynu, hyd yma nid oes cyllid pellach wedi'i gynnig ar gyfer cyflawni plismona.

# Comisiynu Gwasanaethau

## Cronfa Trosedd ac Anrhefn 2019/20

Mae'r dosbarthiad ar gyfer y flwyddyn fel y caiff ei rannu gan y sefydliad i'w weld isod;

| Derbynnydd | Diben | Grant |
|---|---|---|
| DASU Gogledd Cymru Cyf | IDVA – Sir Wrecsam a Sir y Fflint<br>IDVA – Sir Ddinbych | £13,744<br>£9,077 |
| Grŵp Cynefin | Ymyrraeth Troseddwyr<br>Cymorth Plant a Phobl Ifanc | £10,000<br>£15,724 |
| Canolfan Merched Gogledd Cymru | IDVA – Sir Conwy a Sir Ddinbych<br>Peilot Gwasanaeth Braenaru i Ferched<br>Gwasanaeth Braenaru i Ferched<br>Y Gronfa Ymyrraeth Gynnar | £2,317<br>£30,604<br>£79,710<br>£33,490 |
| Hafan Cymru | IDVA – Sir Conwy a Sir Ddinbych | £5,563 |
| Checkpoint Cymru | Gweithgareddau Dargyfeirio<br>Gwariant Cyfalaf Checkpoint Cymru | £205,412<br>£35,600 |
| Rhaglen Ymyriad Cyffuriau | Gweithgareddau Dargyfeirio | £792,622 |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Sir Conwy a Sir Ddinbych | Gwaith Ieuenctid<br>Cynllun Strategol | £23,273<br>£20,384 |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ifanc Gwynedd ac Ynys Môn | Gwaith Ieuenctid<br>Cynllun Strategol | £27,350<br>£16,464 |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Sir Wrecsam | Gwaith Ieuenctid<br>Cynllun Strategol | £22,510<br>£19,695 |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint | Gwaith Ieuenctid<br>Cynllun Strategol | £22,835<br>£15,029 |
| Crimestoppers | Swydd Rheolwr Rhanbarthol | £15,000 |
| CAIS | Digartrefedd Wrecsam | £15,500 |
| Cymorth Dioddefwyr | Swyddog Cymorth Caethwasiaeth Fodern<br>Swyddog Cymorth Twyll | £38,376<br>£15,479 |
| Prosiect Gwrthsefyll Trais Difrifol (SAVI) | Prosiect Gorllewin Y Rhyl | £20,000 |
| Cyngor Wrecsam | Teuluoedd a Effeithir gan Rieni yn y Carchar | £9,500 |
| OWL | Gwella Diogelwch | £22,893 |
| Brake | Cymorth i deuluoedd dioddefwyr damweiniau traffig ffordd angheuol | £2,500 |
| Solon Security | Darganfyddwyr Arfau Llaw | £159.50 |
| Home-Start Wrecsam | ACE | £24,914 |
| Hafal | Iechyd Meddwl Pobl Ifanc | £30,000 |
| **Cyfanswm** | | **£1,595,727** |

## Prosiect Menter Gwrthsefyll Trais (SAVI)

Yn ystod 2019/20 rhoddais gyllid tuag at Brosiect Ieuenctid Gorllewin Y Rhyl. Gwnaeth y prosiect arloesol adnabod pobl ifanc yn y Rhyl a oedd mewn perygl o gael eu heffeithio gan droseddau treisgar. Cydnabuwyd bregusrwydd pobl ifanc fel dioddefwyr a throseddwyr posibl.

Gwnaeth y prosiect ffurfio partneriaeth gydweithredol. Daeth y fenter gwrthsefyll trais (SAVI) â sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol gyda gwasanaethau statudol, gan gynnwys yr heddlu, cyfiawnder ieuenctid ac ysgolion, at ei gilydd. Gwneir hyn er mwyn rhannu gwybodaeth, syniadau ac adnoddau wrth ddatblygu a chyflawni datrysiadau lleol creadigol gydag ymdriniaeth holistaidd ar sut i fynd i'r afael â chymhellwyr trais difrifol. Gwnaeth y prosiect ganolbwyntio ar bryderon lleol a oedd yn alinio â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol, fel y nodir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a 'Strategaeth Trais Difrifol' Llywodraeth EM.

## Dechrau Newydd

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, ynghyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, wedi tendro'n ddiweddar am gytundeb ymyrraeth cyffuriau newydd, o'r enw Dechrau Newydd. Mae'r gwasanaeth, sy'n cael ei gyflwyno gan Kaleidoscope, yn anelu at ymgysylltu â throseddwyr sy'n defnyddio sylweddau. Mae'n eu cynorthwyo i leihau troseddu, gwella iechyd a gweithredu'n gymdeithasol, ymgysylltu gyda chymorth amlasiantaeth a gwneud newidiadau cynaliadwy i'w ffordd o fyw.

Mae dalfeydd, llysoedd, swyddfeydd prawf a charchardai'n cynnig cyfleoedd allweddol i adnabod, rhoi gwybodaeth ac ymgysylltu â throseddwyr sy'n defnyddio sylweddau. Gall y rhain fod yn amgylcheddau heriol i gyflawni gwasanaethau triniaeth, yn enwedig wrth ymgysylltu gydag unigolion all o bosib fod yn arbennig o orbryderus, drwgdybus a bregus. Nod cyffredin y gwasanaeth yw darparu cymorth integredig di-dor i droseddwyr cyffuriau ac alcohol a fydd yn cael ei gyflawni drwy gyflwyno gwasanaeth sy'n cwmpasu darparu:

- Cymorth holistaidd wedi'i deilwra i'r rhai hynny a nodir fel defnyddwyr gwasanaeth gwirfoddol
- Cymorth priodol wedi'i deilwra i fodloni gofynion Rhybuddion Amodol
- Darparu profion cyffuriau, pecynnau cymorth therapiwtig a chofleidiol, a darparu gwybodaeth fel sy'n briodol ar gyfer cyflwyno gorchmynion Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau (DRR) a Gofyniad Triniaeth Alcohol (ATR).

Dechreuodd y cytundeb newydd ar 1 Ebrill 2020.



## Gweithiwr Achos Twyll Canolfan Cymorth Dioddefwyr

Mewn ymateb i'r cynnydd mewn twyll, yn lleol ac yn genedlaethol, fe wnes i roi cyllid ychwanegol i'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr i recriwtio gweithiwr achos ymroddedig i gynorthwyo dioddefwyr twyll. Mae hyn yn unol â'm blaenoriaeth strategol o leihau camfanteisio'n droseddol ar bobl fregus. Bydd pob dioddefwr yn awr yn derbyn ymateb wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer eu sefyllfa. Mae gan y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr 5 gweithiwr achos arbenigol bellach sy'n darparu cymorth parhaus i ddioddefwyr Caethwasiaeth Fodern, Trais Difrifol, Trosedd Casineb ac Iechyd a Lles Meddwl.

Rwyf yn gobeithio drwy ddarparu'r cyllid ymroddedig hwn i gynorthwyo dioddefwyr, bydd yn sicrhau nad yw pobl yn dod yn ddioddefwyr mynych.

# Cronfa Gwasanaethau i Ddioddefwyr 2019/2020

Yn ychwanegol at Gronfa Diogelu'r Gymuned rwyf yn derbyn grant o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder bob blwyddyn i gomisiynu gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr. Yn ystod 2019/20 rwyf wedi comisiynu'r gwasanaethau canlynol;

- **Canolfan Cymorth Dioddefwyr**
- **Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig**
- **Eiriolwr Annibynnol Trais Rhywiol**

Mae pob un o'r gwasanaethau isod wedi gwella'r gofal a'r gefnogaeth a roddwyd i ddioddefwyr trosedd ar draws Gogledd Cymru;

| Derbynnydd | Diben | Grant |
|---|---|---|
| BAWSO | IDVA – Rhanbarthol | £35,000 |
| DASU Gogledd Cymru Cyf | IDVA – Sir Wrecsam a Sir y Fflint<br>IDVA – Sir Ddinbych | £138,024<br>£6,942 |
| Grŵp Cynefin | IDVA – Gwynedd a Môn | £41,300 |
| Hafan Cymru | IDVA – Sir Conwy a Sir Ddinbych | £36,400 |
| Canolfan Merched Gogledd Cymru | IDVA – Sir Conwy a Sir Ddinbych | £4,958 |
| RASASC | Cam-drin Plant yn Rhywiol | £22,000 |
| SARC | Cam-drin Plant yn Rhywiol | £17,000 |
| Stepping Stone | Cam-drin Plant yn Rhywiol | £17,000 |
| SARC | ISVA – Rhanbarthol x2 | £103,000 |
| Cymorth Dioddefwyr | Canolfan Cymorth Dioddefwyr | £361,602 |
| SCHTh | Gweithgarwch Comisiynu | £21,036 |
| **Cyfanswm** | | **£804,262** |

## Gwasanaeth Cynghori Trais Domestig Rhanbarthol

Mewn ymateb i Ddeddf Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, mae Bwrdd Strategol Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ac Is-grŵp Comisiynu ar y Cyd wedi'u sefydlu. Mae hyn er mwyn cynllunio a gweithredu a chomisiynu gwasanaethau VAWDASV ar y cyd ledled Gogledd Cymru. Mae'r strategaeth yn anelu i ddod â lefel uwch o gysondeb ac arfer da i holl ddarpariaeth ledled y rhanbarth.

Rhan gyntaf y strategaeth hon yw comisiynu darparu gwasanaethau IDVA ar y cyd, er mwyn cyflawni gwasanaeth rheng flaen yn gyson ac effeithiol i ddioddefwyr cam-drin domestig risg uchel a mynych. Mae Asesiad a Strategaeth Anghenion rhanbarthol wedi'u datblygu ac mae'r gwasanaeth IDVA isranbarthol yn rhan hanfodol o'r strategaeth. Mae'r data a'r dystiolaeth o angen wedi'u nodi'n glir drwy'r asesiad anghenion lleol ynghyd â data cenedlaethol. Mae'n ofyniad cydnabyddedig ledled y rhanbarth.

Gwnaeth Bwrdd Strategol Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Gogledd Cymru, ynghyd â Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Cefnogi Pobl a'r Bwrdd Cynllunio Ardal (y Comisiynwyr) dendro ar gyfer comisiynu gwasanaeth IDVA Rhanbarthol newydd i ofalu am y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Daeth y broses hon i derfyn llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2019 ac fe gafodd dau ddarparwr y cytundeb newydd a ddechreuodd ym mis Ebrill 2020. Bydd hyn yn sicrhau nad oes dyblygu gwasanaethau, bod cysondeb o ran cyflawni a bydd y rhanbarth yn gallu sicrhau cynllunio effeithiol ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

## Cronfa Ymyrraeth Gynnar 2019/20

Yn ystod 2018/19 fe wnes i lansio cynllun newydd wedi'i anelu at gynorthwyo prosiectau ymyrraeth gynnar. Rwyf wedi sicrhau bod £100,000 ar gael bob blwyddyn ar gyfer y 3 blynedd nesaf i ariannu nifer o brosiectau. Gellir gweld y cyllid a neilltuwyd yn 2019/20 (blwyddyn 2 y gronfa) isod.

| Derbynnydd | Grant |
|---|---|
| **Home-Start (Wrecsam)**<br><br>**Gweithiwr Arweiniol ACE** | Cyfanswm Cost y Prosiect - **£60,188.00**<br><br>Blwyddyn 1 CHTh - £24,188.50<br>**Blwyddyn 2 CHTh - £24,914.00**<br>Blwyddyn 3 CHTh – £25,661.00 |
| **Hafal (Rhanbarthol)**<br><br>**Rhaglen Iechyd Meddwl Pobl Ifanc** | Cyfanswm Cost y Prosiect - **£227,100.00**<br><br>Blwyddyn 1 CHTh - £30,000.00<br>**Blwyddyn 2 CHTh - £30,000.00**<br>Blwyddyn 3 CHTh – £30,000.00 |
| **Grŵp Cynefin (Gwynedd a Môn)**<br><br>**Gweithiwr Cefnogi Plant a Phobl Ifanc** | Cyfanswm Cost y Prosiect - **£84,168.68**<br><br>Blwyddyn 1 CHTh - £14,907.50<br>**Blwyddyn 2 CHTh - £15,724.94**<br>Blwyddyn 3 CHTh – £16,582.78 |
| **Canolfan Merched Gogledd Cymru (y Rhyl)**<br><br>**Prosiect Ymyrraeth ACE** | Cyfanswm Cost y Prosiect - **£415,946.00**<br><br>Blwyddyn 1 CHTh - £15,900.00<br>**Blwyddyn 2 CHTh - £33,490.00**<br>Blwyddyn 3 CHTh – £33,490.00 |
| **Cyfanswm** | Blwyddyn 1 CHTh - £84,995.50<br>Blwyddyn 2 CHTh - £104,128.94<br>Blwyddyn 3 CHTh - £105,733.78<br><br>**Cyfanswm Cost – £294,898.22** |

# Adroddiad o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

**Teitl:** **Diweddariad ar Gyllideb 2020/21 (Ar 31 Awst 2020)**

**Cyfarfodydd:** **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 28 Medi 2020**

**Awdur:** **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas y papur hwn yw darparu aelodau'r panel â:

- chadarnhad am statws y Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020;
- diweddariad ar y gyllideb blismona ar gyfer Gogledd Cymru fel y saif ar 31 Awst 2020 (mis 5).

## 2. Argymhellion

2.1 Nodi'r adroddiad.

## 3. Diweddariad ar gyfrifon ac archwiliad 2019/20

Cafodd y cyfrifon drafft eu paratoi a'u llofnodi erbyn 31 Mai 2020 ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan y Comisiynydd. Oherwydd Covid-19, cafodd dechrau'r archwiliad ei oedi, a bydd y cyfrifon wedi eu harchwilio yn cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar 5 Hydref 2020. Ar ddechrau ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y canlyniad a'r cronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio yr un fath â'r hyn a adroddwyd i Banel yr Heddlu a Throsedd ar 15 Mehefin 2020.

3.1 Ar ddechrau'r cyfarfod ar 5 Hydref 2020, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi ei adroddiad archwilio ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Pan fydd y cyfrifon wedi cael eu llofnodi gan bawb, bydd y cyfrifon terfynol wedi'u harchwilio yn disodli'r cyfrifon drafft ar wefan y Comisiynydd.

3.2 Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn yr adran gyllid ar wefan y Comisiynydd.

## 4. Diweddariad ar Gyllideb 2020/21

4.1 Cymeradwywyd y gyllideb net o £163.705m ym Mhanel yr Heddlu a Throsedd ar 31 Ionawr 2020. Mae hyn yn cynnwys £0.936m i'r OPCC a £1.620m ar gyfer y Gronfa Diogelwch Cymunedol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

4.2 Ers cytuno ar y gyllideb, gwnaethpwyd nifer o drosglwyddiadau, i ymgorffori:

- Ymgyrch Uplift - dyrannwyd cyllid i gynyddu nifer y swyddogion o 62 (dyraniad Heddlu Gogledd Cymru yng ngham un y cynllun i gynyddu nifer swyddogion heddlu gan 20,000 yng Nghymru a Lloegr);

- Mae swyddfa'r Comisiynydd yn derbyn grantiau amrywiol ar gyfer comisiynu gwasanaethau; mae'r cyllidebau gwariant ac incwm bellach yn cael eu dangos fel rhai gros.

4.3 Y ddau faes sydd ag amrywiannau sylweddol yw gweithwyr a chyflenwadau a gwasanaethau:

Roedd gweithredu OIP yn llawn a newidiadau eraill a weithredwyd gan feysydd gwasanaeth eisoes yn lleihau'r pwysau ar oramser. Arweiniodd y moratoriwm ar oramser, hyfforddiant a gwyliau a gyflwynwyd ar ddechrau'r cyfnod clo at argaeledd uwch swyddogion a staff dros y cyfnod hwn, gan arwain at danwariant rhagamcanol o £0.314m mewn goramser, a £0.100m arall oherwydd oedi mewn hyfforddi.

- Mae prisiau tanwydd is a milltiroedd ar gyfer cerbydau'r heddlu wedi cyfrannu at y

tanwario mewn trafnidiaeth, fel y mae llai o hawliadau teithio. Mae Covid-19 wedi gofyn am newidiadau i rai arferion gwaith (er enghraifft, mae mwy o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein). Os daw'r hyn y norm, gallai hyn ddarparu rhai cyfleoedd ar gyfer arbedion cynaliadwy.

| | Cyllideb Wreiddiol £’000 | Cyllideb 31 Awst 2020 £’000 | Gwir Gyllideb 31 Awst 2020 £’000 | Rhagamcan tan ddiwedd y flwyddyn £’000 | Amrywiad Rhagamcanol £’000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Gweithwyr | 138,274 | 143,076 | 58,008 | 142,577 | (519) |
| Safleoedd | 7,920 | 8,716 | 3,105 | 8,735 | 19 |
| Cludiant | 3,803 | 3,679 | 1,419 | 3,353 | (326) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 22,851 | 23,223 | 9,156 | 23,280 | 57 |
| Ffioedd Dyledion a Chyfraniad Cyfalaf | 2,437 | 4,688 | 16 | 4,688 | - |
| Arian Wrth Gefn | 800 | 538 | - | 477 | (61) |
| Cronfa Diogelwch Cymunedol | 1,566 | 2,850 | 1,408 | 2,850 | - |
| Ymgyrch Uplift | 5,481 | - | - | - | - |
| **Cyfanswm Gwariant** | **183,127** | **186,770** | **73,112** | **185,940** | **(830)** |
| | | | | | |
| **Incwm** | **(19,351)** | **(23,667)** | **(7,309)** | **(23,611)** | **56** |
| | | | | | |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | **(71)** | **602** | **0** | **602** | **-** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **163,705** | **163,705** | **65,803** | **162,931** | **(774)** |
| | | | | | |
| **Cyllid** | | | | | |
| Grantiau | (78,715) | (78,715) | (33,813) | (78,715) | - |
| Praesept | (84,990) | (84,990) | (29,863) | (84,990) | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(163,705)** | **(163,705)** | **(63,676)** | **(163,705)** | **-** |
| | | | | | |
| **Tanwariant Net** | | | | | **(774)** |

4.4 Yn gynwysedig yn yr uchod mae incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â gweithgareddau comisiynu. Cyflwynir gwybodaeth am y rhain i'r Panel mewn adroddiad ar wahân oddi wrth y Rheolwr Comisiynu.

4.5 Hefyd wedi'i gynnwys uchod mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn yw £934,686, gan gynnwys cyfraniad o £21,000 i PACT. Ar 31 Awst, roedd y gwariant yn £349,901 a'r rhagamcaniad rhagamcanol oedd £887,588, tanwariant o £47,113. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i fod swydd y Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn wag ers mis Mai 2020.

4.6 Ariennir gwasanaeth Checkpoint Cymru gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ac mae'n cael ei redeg ar y cyd â'r heddlu. Mae gan y cynllun dargyfeirio hwn gyllideb gros o £405,134. Y gwariant hyd at ddiwedd mis Awst yw £146,800, a rhagwelir y bydd y gwariant yn £398,238.

4.7 Er bod y rhagamcanion ar hyn o bryd yn rhagweld tanwariant bach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'n bwysig cofio ei bod yn dal yn gynnar iawn yn y flwyddyn, a gall y sefyllfa hon newid. Mae eleni wedi bod yn anarferol iawn oherwydd pandemig Covid-19, gan arwain at ffyrdd newydd o weithio i lawer o staff a swyddogion. Er mai ymateb cychwynnol y llywodraeth fu ariannu costau ychwanegol, a bod ffyrdd newydd o weithio yn creu cyfleoedd ar gyfer arbedion cynaliadwy, nid yw effaith ariannol hirdymor y coronafeirws yn hysbys o hyd, ac mae cryn ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer 2021/22 ymlaen.

## 5. Cyfalaf

5.1 Y rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2020/21 oedd £9.475m. Gan ystyried llithriad a rhai mân ychwanegiadau a dileu, mae hyn yn cynyddu i £12.277m. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i gadarnhau'r proffil gwariant, a fydd yn debygol o arwain at ddyrannu peth o'r gyllideb hon i'r blynyddoedd i ddod. Nid oedd unrhyw brosiectau mawr wedi'u cwblhau'n rhannol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

| Cynllun | Cyllideb 2020/21 (ail-broffil) £'000 | Gwariant 2019-20 Hyd 31.06.20 £'000 | Cyllideb – Blynyddoedd i ddod £'000 | Cyfanswm Cyllideb £'000 | Gwariant hyd 31.06.20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ystadau | 4,705 | 10 | 12,798 | 17,503 | 10 |
| Cerbydau ac offer | 2,807 | 385 | 7,479 | 10,286 | 385 |
| TG a Chyfathrebu | 5,169 | 117 | 5,525 | 10,694 | 117 |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf** | **12,681** | **512** | **25,802** | **38,483** | **512** |

## 6 Goblygiadau

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Dim goblygiadau amrywiaeth ar wahân |
| Ariannol | Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Panel Heddlu a Throsedd o'r sefyllfa monitro refeniw a chyfalaf ar ddiwedd Awst 2020.<br><br>Mae cyllid digonol yn hanfodol er mwyn gweithredu Cynllun yr Heddlu a Throsedd a chyflawni ein gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol ar wahân |
| Risg | Dim goblygiadau risg ar wahân |
| Cynllun yr Heddlu a Throsedd | Nid oes goblygiadau ar wahân i'r heddlu a throsedd. |

## Adroddiad o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

**Teitl:** **Cymharu cost OPCC Gogledd Cymru ac eraill**

**Cyfarfod:** **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 28 Medi 2020**

**Awdur:** **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

### 1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas y papur hwn yw darparu aelodau’r panel â chymhariaeth:

- o gyllideb 2019/20 Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (OPCCYr holl rai eraill yng Nghymru a Lloegr
  - Gyda'n grŵp mwyaf tebyg
  - Gydag eraill yng Nghymru

### 2. Argymhellion

2.1 Nodi'r adroddiad.

### 3. Methodoleg

3.1 Mae pob OPCC wedi'i drefnu yn ei ffordd ei hun, er mwyn diwallu anghenion pob PCC, a'r boblogaeth y mae pob un yn ei gwasanaethu orau. Bydd yr wybodaeth a gyhoeddir ar wefannau PCC yn adlewyrchu trefniadau lleol, ac nid yw cymariaethau uniongyrchol bob amser yn bosibl. Er mwyn gallu cymharu cyllidebau rhwng OPCC, mae angen defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i pharatoi mewn modd mor debyg â phosibl. Felly, penderfynwyd defnyddio rhagamcanion Dadansoddiad Amcanion yr Heddlu CIPFA (POA) ar gyfer 2019/20 (y mwyaf diweddar sydd ar gael) i baratoi'r papur hwn. Gall hyn fod yn wahanol i wybodaeth ar wefannau PCC.

3.2 Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydain a Heddlu Dinas Llundain wedi'u heithrio o'r dadansoddiad, gan fod yr wybodaeth ar gyfer y rhain yn anghyflawn neu ddim yn bodoli. Mae'r ddau heddlu hyn yn wahanol iawn ar lawer ystyr, felly ni ddylai eu gwahardd gael effaith sylweddol ar ganfyddiadau'r dadansoddiad hwn.

3.3 Er y dylid cwblhau ffurflenni POA CIPFA gan ddilyn yr un egwyddorion, wrth archwilio pob set o ddata yn unigol, mae'n amlwg bod rhai amrywiadau o hyd o ran sut y cyflwynwyd yr wybodaeth. Felly, mae'r dadansoddiad hwn yn cyfuno gwybodaeth i gymharu crynodebau, yn hytrach na cheisio cymharu ar lefel fanwl.

3.4 Mae tabl gyda chrynodeb o'r boblogaeth a data POA wedi'i gynnwys ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae'n bwysig cofio bod pob OPCC wedi'i drefnu mewn modd sy'n darparu gwasanaethau yn y ffordd a ystyrir yn fwyaf priodol ar gyfer pob ardal. Felly, er ei bod yn ddefnyddiol gwneud cymariaethau, efallai na fydd y rhain yn debyg ym mhob achos, a rhaid bod yn ofalus wrth ddod i unrhyw gasgliadau pendant.

### 4.0 Cost absoliwt

4.1 Gan fynd o'r lleiaf i'r mwyaf, ardal Heddlu Ngogledd Cymru sydd â’r nawfed boblogaeth leiaf o'r holl ardaloedd heddlu wedi'u dadansoddi, ac felly byddai'n rhesymol disgwyl i OPCC Gogledd Cymru fod ymhlith y lleiaf drud o ran cyfanswm y gost. Roedd cyllidebau gwariant gros OPCC (ac eithrio gwasanaethau a gomisiynwyd) yn amrywio rhwng £0.812m a £68.826m yn 2019/20. Cyllideb OPCC Gogledd Cymru a gyfrifwyd ar yr un sail oedd £0.972m, sef y pumed isaf yng Nghymru a Lloegr.

4.2 Er bod yr uchod yn arwydd o gostau OPCC yn gymharol isel yng Ngogledd Cymru, mae angen dadansoddiad pellach er mwyn ffurfio barn fwy crwn.

**5.0 Maint yr OPCC**

5.1 Mae nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) mewn OPCCs yn amrywio'n sylweddol, fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl. Gan gynnwys y PCC, Dirprwy PCC (os oes un), swyddogion statudol, staff comisiynu a staff eraill, mae'r niferoedd yn amrywio rhwng 8.30 a 157.00. Gyda 11.62 CALl wedi'u cyllidebu yn 2019/20, Gogledd Cymru oedd y pedwerydd lleiaf yn ôl CALl.

5.2 Unwaith eto, mae hyn yn dangos bod nifer y bobl yn OPCC Gogledd Cymru yn gymharol isel, wedi'i gymryd ar ei ben ei hun, nid yw'n ffurfio darlun llawn.

**6.0 Cost a maint cymharol**

6.1 Er mwyn cael argraff gyffredinol o ba mor fawr neu fach yw OPCC Gogledd Cymru, a faint mae'n ei gostio, gellir cynnal mwy o ddadansoddi. O amcangyfrifon poblogaeth CIPFA POA a HMIC, mae'n bosibl cyfrifo cost y pen o'r boblogaeth.

6.2 Er nad oes unrhyw beth o'i le yn y bôn â chymharu Gogledd Cymru â Chymru a Lloegr gyfan, mae pob OPCC yn wahanol, ac mae rhai cymariaethau'n fwy perthnasol nag eraill. Mae'r grwpiau HMIC yn gwthio i mewn i'r rhai y mae'n eu hystyried yn debyg (y Grŵp Mwyaf Tebyg - MSG). Yn ogystal, mae yna nifer o wahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr, ac felly gallai cymhariaeth ag eraill yng Nghymru fod yn berthnasol hefyd.

6.3 Mae'r isod yn dangos Gogledd Cymru o'i gymharu â Chymru a Lloegr, yr MSG a gweddill Cymru, gan ddefnyddio gwybodaeth 2019/20:

| | CALl fesul miliwn o'r boblogaeth | Cost fesul person (OPCC yn unig - ac eithrio gwasanaethau a gomisiynwyd) |
|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 16.60 | £1.39 |
| Cymru a Lloegr | 18.50 | £2.37 |
| MSG | 27.65 | £1.68 |
| Cymru | 33.99 | £1.89 |

6.4 Mae'r holl fesurau a ddefnyddir yn nodi bod OPCC Gogledd Cymru yn gymharol rhad yn seiliedig ar gyllideb 2019/20 ac amcangyfrifon poblogaeth. Er bod hyn, ar yr wyneb, yn beth da i breswylwyr, mae'n bwysig bod gan yr OPCC adnoddau priodol i ddarparu gwasanaethau i'r rhai sy'n byw yng Ngogledd Cymru. Yn 2020/21 sefydlwyd dwy swydd ychwanegol yn OPCC Gogledd Cymru, sy'n dod â'r swyddfa hon yn fwy unol â'r cyfartaledd cenedlaethol.

6.5 Rhaid ystyried hefyd bod pob Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am sicrhau bod gan ei swyddfa adnoddau priodol ar gyfer y gwaith y mae disgwyl iddo ei wneud. Lle gall maint neu gost gymharol OPCC roi argraff a oes ganddo adnoddau priodol ai peidio, bydd trefniadau gwahanol ym mhob OPCC yn arwain at gostau gwahanol. Felly, rhaid i unrhyw asesiad o werth am arian hefyd gynnwys elfen o effeithiolrwydd.

## 8 Goblygiadau

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Dim goblygiadau amrywiaeth ar wahân |
| Ariannol | Pwrpas yr adroddiad hwn yw cymharu. Dim goblygiadau ariannol ar wahân. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol ar wahân |
| Risg | Dim goblygiadau risg ar wahân |
| Cynllun yr Heddlu a Throsedd | Nid oes goblygiadau ar wahân i'r heddlu a throsedd. |

Costau OPCC yn ôl ardal yr heddlu yng Nghymru a Lloegr - wedi'u didoli yn ôl poblogaeth (ac eithrio BTP, PSNI).

| Grŵp Cymhariaeth | Poblogaeth (miliwn) [1] | OPCC CALl[2] | OPCC Tâl a di-dâl[2] £'000 | Gwasanaethau a gomisiynwyd[2] £'000 | Cyfanswm Gwariant[2] £'000 | Incwm[2] £'000 | Gwariant Net[2, 3] £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 0.50 | 13.50 | 1,456 | 2,143 | 3,599 | (1,157) | 2,442 |
| Cymru | 0.52 | 19.40 | 1,146 | 1,453 | 2,599 | (680) | 1,919 |
| MSG | 0.57 | 12.74 | 974 | 2,343 | 3,317 | (646) | 2,671 |
| Lloegr | 0.57 | 25.59 | 1,679 | 2,921 | 4,570 | (1,492) | 3,078 |
| Cymru | 0.59 | 42.00 | 1,760 | 2,899 | 4,659 | (1,206) | 3,453 |
| Lloegr | 0.63 | 16.80 | 1,054 | 2,032 | 3,086 | (833) | 2,253 |
| Lloegr | 0.63 | 17.22 | 1,030 | 2,046 | 3,076 | (772) | 2,305 |
| Lloegr | 0.67 | 12.10 | 928 | 1,606 | 2,534 | (767) | 1,767 |
| Gogledd Cymru | 0.70 | 11.62 | 972 | 2,371 | 3,343 | (804) | 2,539 |
| MSG | 0.72 | 23.00 | 1,622 | 2,357 | 3,979 | (1,012) | 2,967 |
| Lloegr | 0.75 | 30.70 | 3,000 | 3,860 | 6,806 | (1,421) | 5,385 |
| MSG | 0.76 | 9.30 | 812 | 1,639 | 2,451 | (889) | 1,562 |
| Lloegr | 0.76 | 18.60 | 1,585 | 1,356 | 2,941 | (868) | 2,073 |
| Lloegr | 0.77 | 18.60 | 1,079 | 2,409 | 3,488 | (893) | 2,595 |
| MSG | 0.82 | 24.62 | 1,698 | 3,150 | 4,848 | (1,217) | 3,631 |
| Lloegr | 0.85 | 15.41 | 1,277 | 2,388 | 3,665 | (1,112) | 2,554 |
| MSG | 0.90 | 18.30 | 1,158 | 1,859 | 3,017 | (1,047) | 1,970 |
| Lloegr | 0.93 | 18.30 | 927 | 5,941 | 6,868 | (1,431) | 5,437 |
| Lloegr | 1.05 | 20.5 | 1,263 | 2,774 | 4,037 | (1,212) | 2,825 |
| Lloegr | 1.06 | 8.60 | 850 | 2,391 | 3,241 | (1,498) | 1,743 |
| Lloegr | 1.09 | 19.50 | 1,336 | 4,297 | 5,633 | (1,251) | 4,382 |
| Lloegr | 1.13 | 27.70 | 2,560 | 6,684 | 9,244 | (2,832) | 6,411 |
| Lloegr | 1.15 | 15.00 | 1,183 | 5,122 | 6,305 | (1,330) | 4,975 |
| Lloegr | 1.18 | 29.13 | 1,739 | 3,731 | 5,470 | (2,266) | 3,204 |
| Lloegr | 1.19 | 13.40 | 1,471 | 2,056 | 3,527 | (1,369) | 2,156 |
| MSG | 1.28 | 77.40 | 3,684 | 6,913 | 10,597 | (4,190) | 6,407 |
| Cymru | 1.33 | 33.71 | 2,056 | 10,548 | 12,604 | (7,842) | 4,762 |
| Lloegr | 1.40 | 24.80 | 2,183 | 5,648 | 7,831 | (2,413) | 5,418 |
| Lloegr | 1.42 | 21.00 | 1, 383 | 5,278 | 6,661 | (2,461) | 4,200 |
| Lloegr | 1.46 | 12.60 | 1,325 | 4,826 | 6,151 | (4,085) | 2,066 |
| Lloegr | 1.50 | 18.77 | 1,516 | 4,263 | 5,779 | (2,649) | 3,130 |
| Lloegr | 1.70 | 28.70 | 1,900 | 3,856 | 5,756 | (2,712) | 3,044 |
| Lloegr | 1.71 | 20.00 | 1,418 | 3,828 | 5,246 | (2,341) | 2,905 |
| MSG | 1.76 | 30.70 | 1,730 | 5,433 | 7,163 | (2,020) | 5,142 |
| Lloegr | 1.83 | 20.00 | 1,491 | 3,378 | 4,869 | - | 4,869 |
| Lloegr | 1.85 | 20.70 | 2,145 | 3,314 | 5,459 | (2,116) | 3,343 |
| Lloegr | 1.99 | 34.20 | 2,490 | 4,396 | 6,886 | (2,289) | 4,597 |
| Lloegr | 2.32 | 34.58 | 2,485 | 9,548 | 12,033 | (2,974) | 9,060 |
| Lloegr | 2.41 | 27.90 | 1,723 | 5,738 | 7,461 | (2,796) | 4,665 |
| Lloegr | 2.81 | 24.00 | 6,409 | 13,236 | 19,645 | (3,421) | 16,224 |
| Lloegr | 2.92 | 35.41 | 2,609 | 9,123 | 11,732 | (3,376) | 8,356 |
| Lloegr | 8.90 | 157.00 | 68,826 | 8,367 | 77,193 | (22,270) | 54,923 |

[1]o wefan HMICFRS

[2] O amcangyfrifon (cyllideb) CIPFA POA 2019/20

[3] Efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu

**OPCC Gogledd Cymru:**
CALl fesul poblogaeth o 1,000,000: 16.88
Cost tâl a di-dâl OPCC (2019/20) £1.39 fesul preswylydd

**OPCC ar gyfer Lluoedd y Swyddfa Gartref (ac eithrio BTP a PSNI):**
CALl cyfartalog fesul poblogaeth o 1,000,000: 18.50
Cost tâl a di-dâl OPCC cyfartalog (2019/20) £2.37 fesul preswylydd

**OPCC ar gyfer MSG**
CALl cyfartalog fesul poblogaeth o 1,000,000: 27.65
Cost tâl a di-dâl OPCC cyfartalog (2019/20) £1.68 fesul preswylydd

**OPCC yng Nghymru**
CALl cyfartalog fesul poblogaeth o 1,000,000: 33.99
Cost tâl a di-dâl OPCC cyfartalog (2019/20) £1.89 fesul preswylydd

**ADRODDIAD I'R:** Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

**SWYDDOG ARWEINIOL:** Richard Jarvis
Swyddog Arweiniol a Swyddog Cyfreithiol y Panel Heddlu a Throsedd

**SWYDDOG CYSWLLT:** Dawn Hughes
Swyddog Craffu a Gwasanaethau Pwyllgorau

**TESTUN:** Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Adroddiad Monitro'r Gyllideb o 1 Ebrill 2019 i 31 Medi 2020

## 1. CRYNODEB A PHWYNTIAU ALLWEDDOL

1.1 Darparu adroddiad monitro blynyddol i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar y defnydd o grant a threuliau'r Panel Trosedd ac Anhrefn yn ystod y cyfnod 01/04/19 – 31/03/20.

1.2 Er mwyn caniatáu i'r cyhoedd graffu ar wariant y Panel mae gofyniad tryloywder wedi'i gynnwys fel amod i'r taliad grant sengl ac mae'n rhaid i'r Panel, fel isafswm, gyhoeddi manylion ei holl wariant ar ei wefan.

1.3 Fel rhan o'r gofynion ar gyfer gwybodaeth fonitro canol blwyddyn 2019/20, mae gofyn i'r Panel rŵan adrodd ar gynnydd yn erbyn ffactorau llwyddiant hanfodol o ran cyflawni amcanion a chyrraedd targedau, ac amlygu sut y cyflawnir gwerth am arian (e.e. buddion, arbedion, arbedion effeithlonrwydd ac ati). Mae angen anfon yr adroddiadau hyn i'r Swyddfa Gartref, ynghyd â'r ffurflen gais am hawliad ar ddiwedd blwyddyn a datganiad canlyniad a gwblhawyd erbyn 31 Gorffennaf 2020.

1.4 Mae'r ffactorau llwyddiant hanfodol y dylid adrodd arnynt fel a ganlyn:

- Nifer y cyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd.
- Dogfennau craffu a chyhoeddiadau a gynhyrchwyd, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Panel.
- Ymgysylltiad aelodau o'r cyhoedd a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru â gwaith y Panel.

.

## 2. ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION

2.1 Nodi'r adroddiad monitro blynyddol a chynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y ffactorau llwyddiant hanfodol.

2.2. Bod y Panel yn cydnabod bod swyddogion yn monitro ac yn olrhain gwariant yn erbyn cyllidebau cytunedig ac i sicrhau gwerth am arian.

2.3 Bod y Panel yn cydnabod bod yr Awdurdod Cynnal wedi cynnal adolygiad blynyddol o ddiben y grant ac yn hapus i barhau â chytundeb y Panel.

## 3. MANYLION YR ADRODDIAD

3.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu dyraniad grant o £70,975 i'r Awdurdod Cynnal ar gyfer cynnal Panel Heddlu a Throsedd i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

3.2 Dyrennir y grant o dan dri phennawd:

- Costau Gweinyddu sy'n cynnwys costau ail-gofrestru Swyddogion a chostau sy'n gysylltiedig â rheolaeth gyffredinol y Panel, hyfforddiant a chofrestru.
- Costau Aelodau
- Costau cyfieithu

Mae rhwydd hynt i'r Awdurdod drosglwyddo unrhyw danwariant mewn treuliau aelodau i dalu costau gweinyddu, ar yr amod nad yw'n fwy na chyfanswm y grant.

3.3 Cyflwynir hawliadau i'r Swyddfa Gartref bob chwe mis, sy'n cynnwys gwariant gwirioneddol yn erbyn gwariant a ragwelir. Mae'r Awdurdod Cynnal yn cadw'r dystiolaeth berthnasol i gefnogi'r hawliadau.

3.4 Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion yr hawliad ar gyfer 01/04/19 - 31/03/20.

3.5 Mae Atodiad 2 yn rhoi manylion lwfansau a threuliau a dalwyd i Aelodau ar gyfer 2019/20 ac mae hefyd yn cynnwys manylion treuliau eraill i gynnal swyddogaethau'r Panel, fel presenoldeb mewn cyfarfodydd gyda CLILC, digwyddiadau hyfforddiant ac ati.

3.5 Mae'r cynnydd o ran y ffactorau llwyddiant hanfodol rhwng 01/04/19 a 31/03/20 fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd 3 o gyfarfodydd yn ystod 2019/20.

- O ran adroddiadau craffu, cyhoeddiadau ac ymgysylltu â’r cyhoedd a’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd:

  - Mae’r Panel wedi cyhoeddi 4 adroddiad yn ystod y cyfnod adrodd yn ymwneud â: Treuliau a Lwfansau Aelodau; Adolygiad Blynyddol o’r Aelodaeth; Crynodeb o’r Cwynion a Dderbyniwyd ac Adroddiad Monitro’r Gyllideb Ebrill 2019 – Medi 2019.
  - Sefydlodd y Panel rolau ar gyfer 6 Aelod sy'n Gefnogwyr, i gyd-fynd â’r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd ac i arolygu proses y gyllideb a'r praesept. Rôl Aelod sy'n Gefnogwr yw trafod materion gyda’r Prif Weithredwr neu’r Prif Swyddog Cyllid yn Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (nid Heddlu Gogledd Cymru) a darparu’r newyddion diweddaraf i’r Panel am weithgareddau, a hyrwyddo cylch gwaith y Panel yn gyffredinol.
  - Mae rôl yr Aelod sy'n Gefnogwr wedi bod yn offeryn effeithiol i gefnogi a chraffu ar benderfyniadau’r Panel, gydag aelodau’r Panel yn adrodd yn ôl ar lafar ymhob cyfarfod o’r Panel am y gwaith maent wedi’i wneud; mae’r adroddiadau hyn ar lafar yn cael eu cofnodi yn unol â hynny. Gall Aelod sy'n Gefnogwr siarad o blaid y gwaith a wneir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, yn ogystal â darparu sicrwydd i’r Panel bod cynnydd yn cael ei wneud o ran y blaenoriaethau a’r materion sy’n gysylltiedig â’r gyllideb. Mae hefyd yn helpu i wella gwybodaeth aelodau o’r Panel a datblygu’r perthynas rhwng y Panel a’r Comisiynydd.
  - Mae’r Panel hefyd wedi datblygu protocol ar gyfer cwestiynau i'r Comisiynydd, ac yn derbyn cwestiynau gan aelodau o’r cyhoedd neu aelodau o’r Panel, y mae modd eu cyflwyno i’r Panel yn ystod ei gyfarfodydd cyhoeddus. Mae Aelodau sy’n Gefnogwyr wedi manteisio ar y cyfle i gyflwyno cwestiynau i’r Panel ar sawl achlysur, gan eu bod mewn sefyllfa i nodi bregusrwydd posibl. Mae hyn wedi arwain at y Panel yn darparu ymatebion cynhwysfawr manwl, sydd wedi dangos fod yr Heddlu yn ymwybodol o’r materion a ble bo’n bosibl wedi delio â nhw. Ymddengys bod y trefniadau hyn yn cyflawni’r rôl sydd ynghlwm wrth graffu ar waith y Comisiynydd
  - Mae cyfarfodydd o’r Panel hefyd yn cael eu gweddarlledu, sydd yn offeryn ymgysylltu cyhoeddus defnyddiol ac yn hyrwyddo gwaith y Panel a’r Comisiynydd.

3.6 Yn nhermau arbedion effeithlonrwydd, mae’r Panel wedi gwerthuso’r angen i fynd i gyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddiant. Pan fo’n bosib, cynhelir cyfarfodydd drwy Skype neu delegynadledda (sy’n golygu nad oes angen teithio i Gaerdydd) ac eir i ddigwyddiadau hyfforddiant sy’n berthnasol i banel yng Nghymru yn unig.

3.7 Mae gwariant ar gyfer y cyfnod adrodd 01/04/19 – 31/03/20 wedi'i amlinellu yn Atodiad 1:

- Costau gweinyddu: Oherwydd effaith y Coronafeirws, mae'r Panel wedi cynnal 3 chyfarfod yn unig yn ystod y flwyddyn, felly, nid yw'r rhan yma o'r grant wedi'i ddefnyddio'n llawn.

- Costau aelodau: Oherwydd effaith y Coronafeirws, mae'r Panel wedi cynnal 3 chyfarfod yn unig yn ystod y flwyddyn ac nid oedd Aelodau'r Panel yn gallu mynychu hyfforddiant ym mis Mawrth 2020, felly, nid yw'r rhan yma o'r grant wedi'i ddefnyddio'n llawn.

- Costau cyfieithu: Mae'r rhan yma o'r grant wedi'i ddefnyddio i gyd.

3.8 Mae'n rhaid i'r Swyddog Arweiniol awdurdodi'r holl dreuliau, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian a buddion i'r Panel cyfan.

3.9 Bydd holl gostau'r Swyddogion Cefnogi yn cael eu hawdurdodi gan yr Awdurdod Cynnal i sicrhau gwerth am arian.

3.10 Fel rhan o amodau grant y Panel, mae'n rhaid i'r Awdurdod adolygu Diben y Grant yn flynyddol, gan gymryd i ystyriaeth cyflawniadau'r Panel fel y mesurir yn erbyn y ffactorau llwyddiant hanfodol. Fel rhan o'r adolygiad blynyddol bydd yr Awdurdod yn ystyried yr adroddiadau a gynhyrchwyd gan y Panel, a fydd yn arwain at yr Awdurdod yn gwneud argymhelliad:

*a. Diben a Chytundeb yn parhau yn unol â chynlluniau presennol; neu*

*b. Dylai Gwariant Cymwys yn daladwy ar gyfer y Cyfnod Cyllido dilynol gael ei adolygu (i fyny neu i lawr); neu*

*c. Dylai ffactorau llwyddiant hanfodol gael eu hailddiffinio a'u cymeradwyo; neu*

*d. Dylid terfynu cytundeb.*

3.11 Mae'r Awdurdod wedi cynnal adolygiad ac mae'n argymell parhau â'r Cytundeb.

## 4. DEWISIADAU

4.1 Bod y Panel yn cefnogi'r trefniadau sydd ar waith i fonitro gwariant y grant.

4.2 Bod y Panel yn awgrymu trefniadau amgen i fonitro'r gwariant.

## 5. YMGYSYLLTU/YMGYNGHORI

5.1 Ymgynghorwyd ag aelodau'r Panel i werthuso a yw mynd i ddigwyddiadau hyfforddiant/cynadleddau yn ffordd effeithiol o ddefnyddio'r adnoddau.

**6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

6.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu £70,975 i'r Awdurdod Cynnal, ar gyfer gweinyddu Panel Heddlu a Throsedd.

6.2 Mae Atodiad 1 yn darparu manylion am y gwariant am y cyfnod 01/04/19 – 31/03/20.

**7. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

7.1 Mae trefniadau craffu effeithiol yn rhoi cyfle i aelodau weithredu'r egwyddor datblygu gynaliadwy ac ystyried y pum ffordd o weithio (tymor hir, ataliad, integreiddio, cydweithio, cynnwys).

Appendix 1

| | **ACTUAL EXPENDITURE APRIL 2019 – MARCH 2020** | **GRANT ALLOCATION 2019/20** |
|---|---|---|
| ADMINISTRATION COSTS | 49,655.40 | 53,300.00 |
| MEMBER COSTS (Allowances & Expenses) | 5,820.58 | 11,960.00 |
| TRANSLATION COSTS | 6,664.46 | 5,715.00 |
| Total | £62,140.44 | £70,975.00 |

**APPENDIX 2**

**ALLOWANCES & MILEAGE PAID TO MEMBERS AND OTHER EXPENSES INCURRED (ATTENDANCE AT TRAINING/MEETINGS/ETC)**

| Members | Allowance Paid | Mileage Paid | Other expenses incurred |
|---|---|---|---|
| Pat Astbury (Chair) | £693.00 | £131.40 | £280.65 |
| Cllr Chris Bithell | £297.00 | £105.30 | - |
| Cllr Dana Davies | £99.00 | - | - |
| Matthew Forbes | £99.00 | - | - |
| Cllr Alan Hunter | £198.00 | - | - |
| Cllr Hugh Irving | £297.00 | £64.80 | £98.27 |
| Cllr Eric Jones | £297.00 | £76.95 | - |
| Cllr Edgar Owen | £99.00 | £23.85 | - |
| Cllr Roger Parry | £198.00 | - | - |
| Cllr Dylan Rees | £297.00 | £74.25 | - |
| Cllr Greg Robbins | £99.00 | - | - |
| John Williams (Vice Chair) | £396.00 | £88.65 | £211.62 |
| Cllr Nigel Williams | £198.00 | £99.90 | - |
| Cllr Arnold Woolley | £396.00 | £93.15 | - |
| **TOTAL** | **£3,663.00** | **£758.25** | **£590.54** |

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL 2020/21




| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor a Chraffu<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif ffôn: | 01492 576061 |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **14 Rhagfyr 2020** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyllideb 2020/21** | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid - Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **14 Rhagfyr 2020** | **Crynodeb o'r cwynion sydd wedi dod i law** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| **14 Rhagfyr 2020** | **Diweddariad gan y Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru** | Prif Gwnstabl (Mr. Carl Foulkes) |
| **15 Rhagfyr 2020** | **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Adroddiad Cyllideb Ebrill 2020 i Medi 2020** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| **25 Ionawr 2021** | **Praesept Arfaethedig ar gyfer 2021/22** | Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru |
| **I'w Gadarnhau** | **Cyflwyniad gan Leaders Unlocked ar ddatblygu Comisiwn Ieuenctid** | Stephen Hughes, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| I'w **Gadarnhau** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Strategaeth Ystadau i Heddlu Gogledd Cymru** | Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru |
| **I'w Gadarnhau** | **Cyflwyniad gan Wasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint ar y Dull Rheoli Achos Uwch** | James Warr, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint |